# Adolygiad Lladdiad Domestig (DHR)

---

Adran 9, Deddf Trais Domestig, Troseddu a Dioddefwyr 2004

Adolygiad i farwolaeth Barbara ym mis Rhagfyr 2019

Awdur yr Adroddiad: Christine Graham

Hydref 2021

# Rhagair

I ddechrau, dymuna Partneriaeth Diogelwch Cymunedol Gwynedd a Môn a'r Panel Adolygu Lladdiad Domestig fynegi pob cydymdeimlad tuag at deulu a ffrindiau Barbara. Cynhaliwyd yr adolygiad hwn er mwyn i wersi gael eu dysgu. Rydym yn dymuno cofnodi ein diolch i'r teulu am eu hymgysylltiad a'u her gyda'r adolygiad; mae wedi ein helpu i lunio dealltwriaeth ddyfnach o'r rhai oedd ynghlwm â'r achos a'r materion a wynebwyd ganddynt.

Cynhaliwyd yr adolygiad mewn ffordd agored ac adeiladol gyda'r holl asiantaethau, boed yn wirfoddol ac yn statudol, gan ymgysylltu yn gadarnhaol. Mae hyn wedi sicrhau ein bod yn gallu ystyried yr amgylchiadau a wnaeth yn y pendraw olygu'r lladdiad yma, mewn modd ystyriol gan ymdrin â'r materion a godwyd ynddo gyda gonestrwydd.

Comisiynwyd yr adolygiad gan Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol Gwynedd a Môn ar ôl derbyn hysbysiad o farwolaeth Barbara mewn amgylchiadau oedd yn ymddangos i fodloni meini prawf Adran 9 (3)(a) Deddf Trais Domestig, Troseddu a Dioddefwyr 2004.

Lluniwyd yr Adroddiad Trosolwg yma fel a ganlyn:

Mae **Adran 1** yn dechrau gyda **chyflwyniad i'r amgylchiadau** arweiniodd at gomisiynu'r adolygiad yma a'r broses ac amserlenni'r adolygiad.

Mae **Adran 2** o'r adroddiad yn **nodi ffeithiau'r** achos yma, **yn cynnwys cronoleg** i helpu'r darllenydd i ddeall sut y datblygodd y digwyddiadau a arweiniodd at farwolaeth Barbara.

Mae **Adran 3** yn darparu **dadansoddiad manwl o'r wybodaeth** am ran yr asiantaeth yn yr achos.

Mae **Adran 4** yn dadansoddi'r **materion** a nodwyd yn yr adolygiad hwn.

Mae **Adran 5** yn crynhoi'r **dull o ymdrin** gyda cham-drin domestig **yng Nghymru**.

Mae **Adran 6** yn crynhoi'r **gwersi a nodwyd** yn ystod yr adolygiad.

Mae **Adran 7** yn dod â'r **argymhellion** sy'n codi ynghyd.

Mae **Adran 8** yn dod â **chasgliadau** y Panel Adolygu ynghyd.

Mae **Atodiad Un** yn rhoi manylion datblygiad proffesiynol parhaus y Cadeirydd ac Awdur yr Adroddiad.

Ble fo'r adolygiad wedi nodi bod cyfle i ymyrryd wedi ei fethu, mae hyn wedi cael ei nodi mewn blwch testun.  Mae enghreifftiau o arferion da wedi eu hamlygu mewn italics.

## Cynnwys


**Rhagair** 2

**Adran Un - Cyflwyniad**

| | | |
|---|---|---|
| 1.1 | Crynodeb o'r Amgylchiadau arweiniodd at yr Adolygiad | 6 |
| 1.2 | Rhesymau dros gynnal yr Adolygiad | 6 |
| 1.3 | Cylch Gorchwyl | 7 |
| 1.4 | Methodoleg ac Amserlenni i'r Adolygiad | 8 |
| 1.5 | Cyfrinachedd | 8 |
| 1.6 | Rhannu'r Adolygiad | 9 |
| 1.7 | Cyfranwyr i'r Adolygiad | 9 |
| 1.8 | Ymgysylltu gyda'r Teulu | 10 |
| 1.9 | Panel Adolygu | 10 |
| 1.10 | Cadeirydd yr Adolygiad Lladdiad Domestig ac Awdur yr Adroddiad Trosolwg | 11 |
| 1.11 | Adolygiadau sy'n Cyd-redeg | 11 |
| 1.12 | Cydraddoldeb ac Amrywiaeth | |

**Adran Dau - Y Ffeithiau**

| | | |
|---|---|---|
| 2.1 | Cyflwyniad | 13 |
| 2.2 | Cronoleg Fanwl | 13 |

**Adran Tri - Dadansoddiad Manwl o Ran yr Asiantaeth** 23

**Adran Pedwar - Dadansoddiad**

| | | |
|---|---|---|
| 4.1 | Deall bywyd Barbara | 32 |
| 4.2 | Tystiolaeth o Gam-drin Domestig | 33 |

| | | |
|---|---|---|
| 4.3 | Beth oedd y rhwystrau i George adael neu i roi gwybod i rywun beth oedd yn digwydd? | 37 |
| 4.4 | Y risg roedd Barbara yn ei beri i George ac ymateb yr asiantaethau i hyn | 37 |
| 4.5 | Alcohol yn y berthynas | 38 |
| 4.6 | Iechyd Barbara | 40 |

**Adran Pump - Dull Cymru o ymdrin â Cham-drin Domestig** 45

**Adran Chwech - Gwersi a Nodwyd** 50

**Adran Saith - Argymhellion** 52

**Adran Wyth - Casgliadau** 54

**Atodiad Un - Manylion datblygiad proffesiynol parhaus y Cadeirydd ac Awdur yr Adroddiad.** 58

# Adran Un - Cyflwyniad

## 1.1 Crynodeb o'r Amgylchiadau arweiniodd at yr Adolygiad

1.1.1 Roedd Barbara a'i gŵr George yn gwpl yn eu 70au oedd wedi bod yn briod am 53 mlynedd. Roeddynt wedi symud o Ganolbarth Lloegr i arfordir Gogledd Cymru yn 2018 i fod gerllaw eu merch. Yn wir fe wnaethant symud i fyngalo drws nesaf i'w merch a'u mab-yng-nghyfraith, mewn cul-de-sac bychan. Ar ddiwrnod marwolaeth Barbara yn 2019, aeth Barbara a George am ginio i dŷ eu merch. Ar ôl cinio fe aethant adref, ac fe aeth George am dro gyda'i ferch a'i gŵr; gan ddychwelyd adref am tua 3 o'r gloch y prynhawn.

1.1.2 Yn nes ymlaen y noson honno, am tua 8 o'r gloch, dychwelodd George i gartref ei ferch. Gofynnodd ei ferch: *'What's happened then'*, a'i ateb oedd *'come'*. Fel roedd yn cerdded tuag at gartref ei rhieni, dywedodd y diffynnydd wrthi: *'The moment we left here she started'*. Gofynnodd iddo beth oedd o'n ei olygu a'i ateb oedd ei bod wedi galw enwau arno ac wedi 'had a go'.

1.1.3 Gofynnwyd iddo beth ddigwyddodd nesaf, a'i ateb oedd: *'She came at me with a knife again',* ac wedyn gofynnwyd iddo beth a wnaeth o, ei ateb oedd: *'I stabbed her'*. Aethant gyda'i gilydd yn ôl i eiddo ei rhieni ac yno roedd Barbara yn gorwedd yn swp yng nghanol y soffa. Fe wnaethant geisio rhoi CPR iddi ond roedd wedi marw. Galwyd y gwasanaethau brys ac fe gafodd George ei arestio am lofruddiaeth Barbara.

1.1.4 Dangosodd y post-mortem nad oedd unrhyw anafiadau amddiffynnol sylweddol ac mai anaf trywanu i ochr dde uchaf ei gwddw oedd yr anaf angheuol. Roedd y llafn wedi treiddio i ddyfnder o tua 16 cm ar ongl ar i lawr o 45 gradd.

1.1.5 Cyhuddwyd George o lofruddiaeth ei wraig. Er hynny, mewn treial dilynol fe'i cafwyd yn ddieuog o lofruddiaeth, ond yn euog o ddynladdiad. Cafodd ddedfryd o 3 blynedd a 2 fis yn y carchar. Cyflwynwyd tystiolaeth yn ystod yr achos y bu iddo ddioddef blynyddoedd o ymddygiad rheolgar ac, ar brydiau, ymddygiad treisgar, gan Barbara.

## 1.2 Rhesymau dros gynnal yr Adolygiad

1.2.1 Cynhelir yr Adolygiad Lladdiad Domestig yma yn unol â'r gofyniad statudol a nodir yn Adran 9 Deddf Trais Domestig, Troseddu a Dioddefwyr 2004.

1.2.2 Yn unol â'r Ddeddf, rhaid i'r adolygiad adolygu 'amgylchiadau marwolaeth person 16 mlwydd oed neu hŷn sydd wedi digwydd, neu'n ymddangos i fod wedi digwydd o ganlyniad i drais, camdriniaeth neu esgeulustod gan:

(a) Berson yr oedd yn perthyn iddo neu berson yr oedd mewn perthynas bersonol agos ag ef, neu

(b) Aelod o'r un aelwyd ag ef, i gael ei gynnal er mwyn adnabod y gwersi i'w dysgu o'r farwolaeth'.

1.2.3 Yn yr achos yma cafwyd y cyflawnwr, gŵr Barbara, yn euog o ddynladdiad Barbara. Felly, mae'r meini prawf wedi eu bodloni.

## 1.3 Cylch Gorchwyl

1.3.1 **Cyflwyniad**

1.3.2 Comisiynwyd yr Adolygiad Lladdiad Domestig (DHR) hwn gan Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol Gwynedd a Môn mewn ymateb i farwolaeth Barbara a ddigwyddodd ar ddiwedd mis Rhagfyr 2019.

1.3.3 Mae’r adolygiad wedi ei gomisiynu yn unol ag Adran 9, Deddf Trais Domestig, Troseddu a Dioddefwyr 2004.

1.3.4 Mae Cadeirydd y bartneriaeth wedi penodi Gary Goose MBE a Christine Graham i ymgymryd â rolau Cadeirydd Annibynnol ac Awdur Trosolwg er dibenion yr adolygiad hwn. Nid yw Christine Graham na Gary Goose yn gyflogedig gan, nac yn gysylltiedig yn uniongyrchol fel arall, gydag unrhyw rai o'r asiantaethau statudol neu wirfoddol sydd ynghlwm â'r adolygiad.

1.3.5 **Pwrpas yr Adolygiad**

1.3.6 Pwrpas yr adolygiad yw:

1.3.7 Sefydlu'r ffeithiau a arweiniodd at y lladdiad a p'un a oes unrhyw wersi i'w dysgu o'r achos ynghylch y ffordd y gwnaeth pobl broffesiynol ac asiantaethau weithio gyda'i gilydd i ddiogelu Barbara.

1.3.8 Adnabod beth yw'r gwersi hynny, sut y gweithredir arnynt a beth y disgwylir iddynt ei newid o ganlyniad.

1.3.9 Rhoi'r gwersi hyn ar waith pan fo'r gwasanaethau yn ymateb, gan gynnwys gwneud newidiadau i hysbysu polisïau a gweithdrefnau lleol fel y bo'n briodol.

1.3.10 Yn ogystal, sefydlu p'un a oes gan asiantaethau bolisïau a gweithdrefnau priodol yn eu lle i ymateb i gam-drin domestig ac argymell unrhyw newidiadau o ganlyniad i'r broses adolygu.

1.3.11 Cyfrannu at well dealltwriaeth o natur trais a cham-drin domestig.

1.3.12 **Y Broses Adolygu**

1.3.13 Bydd yr adolygiad yn dilyn y Canllawiau Statudol ar gyfer Adolygiadau Lladdiad Domestig dan y Ddeddf Trais Domestig, Troseddu a Dioddefwyr 2004 (diwygiwyd 2016).

1.3.14 Bydd yr adolygiad hwn yn ymwybodol, ac yn ymgynghori â'r ymchwiliad troseddol a'r prosesau cyfiawnder troseddol dilynol. Yn yr un modd, bydd yn ymwybodol, ac yn ymgynghori â'r broses cwest a gynhaliwyd gan Grwner EF.

1.3.15 Bydd yr adolygiad yn cysylltu â'r prosesau eraill sy'n cyd-redeg sy'n parhau neu ar fin dechrau mewn perthynas â'r digwyddiad hwn er mwyn rhannu'r hyn a ddysgwyd yn briodol.

1.3.16 Nid yw Adolygiadau Lladdiadau Domestig yn ymchwilio sut y bu dioddefwr farw neu pwy sydd ar fai: mater i grwneriaid ac i'r llysoedd troseddol yw hynny.

1.3.17 **Cwmpas yr Adolygiad**

1.3.18 Bydd yr adolygiad hwn yn:

1.3.19 Llunio cronoleg o ymwneud pob asiantaeth oedd ynghlwm â bywyd Barbara a'r cyflawnwr dan amheuaeth, George, i benderfynu lle mae angen gwybodaeth bellach. Lle bo angen rhagor, bydd angen Adolygiadau Rheoli Unigol (IMRs) gan asiantaethau perthnasol a ddiffinnir yn Adran 9 Y Ddeddf.

1.3.20 Cynhyrchu IMRs am gyfnod o amser yn dechrau ar ddyddiad marwolaeth Barbara a dwy flynedd cyn y farwolaeth ac unrhyw beth cyn y dyddiad hwnnw sy'n berthnasol. Dewiswyd yr amserlen yma gan ei bod yn cynnwys yr amser oedd yn arwain at yr amser pan symudodd y cwpl i Gymru.

1.3.21 Gwahodd ymatebion gan unrhyw asiantaethau, grwpiau neu unigolion perthnasol eraill sy'n cael eu hadnabod drwy broses yr adolygiad.

1.3.22 Ceisio cynnwys y teulu, cyflogwyr, cymdogion a ffrindiau i ddarparu dadansoddiad cadarn o'r digwyddiadau.

1.3.23 Bydd yr Adolygiad yn ystyried yn benodol oedrannau'r rhai sydd ynghlwm a p'un a oedd hyn yn ffactor yn y lladdiad a p'un a wnaeth oedran effeithio ar ddarpariaeth gwasanaeth i'r naill barti.

1.3.24 Bydd yr Adolygiad yn ystyried symudiad y cwpl i ardal ddaearyddol arall o'r wlad a p'un a effeithiodd hyn ar eu perthynas, gan ystyried yn benodol y potensial am ynysu, newid mewn ffordd o fyw sefydledig, ac unrhyw ffactorau perthnasol eraill.

1.3.25 Bydd yr Adolygiad yn ystyried p'un a oes tystiolaeth i ddangos llwybr o gam-drin, ac os felly, beth fyddai wedi medru cael ei wneud yn wahanol i warchod eraill yn y dyfodol.

1.3.26 Cynhyrchu adroddiad sy'n crynhoi'r cronoleg o ddigwyddiadau, gan gynnwys gweithrediadau asiantaethau oedd ynghlwm, dadansoddi a gwneud sylw ar y camau a gymerwyd a gwneud unrhyw argymhellion sydd eu hangen ynghylch diogelu teuluoedd a phlant lle mae cam-drin domestig yn bresennol.

1.3.27 Anelu i gynhyrchu'r adroddiad o fewn yr amserlenni a awgrymwyd gan y Canllawiau Statudol, yn amodol ar:

- ganllawiau gan yr heddlu ynghylch unrhyw faterion *sub-judice*,
- sensitifrwydd mewn perthynas â phryderon y teulu, yn enwedig mewn perthynas ag ymholiadau sy'n cyd-redeg, y broses cwest ac unrhyw fater arall sy'n codi.

1.3.28 **Cynnwys y Teulu**

1.3.29 Bydd yr adolygiad yn ceisio cynnwys y teulu yn y broses adolygu, gan ystyried pwy fyddai'r teulu yn dymuno iddynt fod yn rhan ohono fel aelodau arweiniol, ac adnabod pobl eraill y maent yn credu sy'n berthnasol i'r broses adolygu.

1.3.30 Byddwn yn ceisio dod i gytundeb ar strategaeth gyfathrebu sy'n golygu bod y teulu yn parhau i gael gwybod am bethau, os ydynt yn dymuno, trwy gydol y broses. Byddwn yn sensitif i'w

dymuniadau, eu hangen am gymorth ac unrhyw drefniadau presennol sydd yn eu lle i wneud hyn.

1.3.31 Byddwn yn gweithio gyda'r heddlu a'r crwner i sicrhau bod modd i'r teulu ymateb yn effeithiol i'r ymholiadau ac adolygiadau amrywiol sy'n cyd-redeg, gan osgoi dyblygu ymdrechion a lleihau unrhyw gynydd mewn lefelau gor-bryder a straen.

1.3.32 **Cyngor a chostau cyfreithiol**

1.3.33 Bydd disgwyl i bob asiantaeth statudol ac fe'u hatgoffir i roi gwybod i'w hadrannau cyfreithiol bod yr adolygiad yn cael ei gynnal. Mae costau eu cyngor cyfreithiol ac ymwneud eu timau cyfreithiol ar eu disgresiwn eu hunain.

1.3.34 Pe byddai'r Cadeirydd Annibynnol, Cadeirydd y Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol neu'r Panel Adolygu angen cyngor cyfreithiol, yna Partneriaeth Diogelwch Cymunedol Gwynedd a Môn fydd y pwynt cyswllt cyntaf.

1.3.35 **Y Cyfryngau a chyfathrebu**

1.3.36 Y Panel Adolygu fydd yn rheoli holl faterion y cyfryngau a chyfathrebu.

## 1.3 Methodoleg ac Amserlenni i'r Adolygiad

1.3.1 Cafodd Partneriaeth Diogelwch Cymunedol Gwynedd a Môn wybod am y farwolaeth gan Heddlu Gogledd Cymru ar 27 Rhagfyr 2019. Roedd hwn yn hysbysiad amserol oedd yn dangos dealltwriaeth dda gan yr heddlu o'r angen am atgyfeirio ar y cyfle cynharaf bosib.

1.3.2 Ar 31 Rhagfyr 2019, cynhaliwyd trafodaeth rhwng Cadeirydd y Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol, Swyddog Arweiniol y Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol yng Nghyngor Gwynedd, y Prif Swyddog Ymchwilio a'r Ditectif Uwch Arolygydd. O'r drafodaeth hon, cytunwyd bod y meini prawf wedi eu cwrdd ac y byddai Adolygiad Lladdiad Domestig yn cael ei gynnal. Cafodd y Swyddfa Gartref wybod am y penderfyniad hwn ar yr un diwrnod.

1.3.3 Penodwyd Cadeirydd Annibynnol ac Awdur yr Adroddiad ar ddechrau mis Chwefror 2020. Cafodd y teulu wybod gan Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol Gwynedd a Môn bod yr adolygiad am gael ei gynnal ar 28 Chwefror.

1.3.4 Gofynnwyd i asiantaethau sicrhau a chadw unrhyw gofnodion ysgrifenedig oedd ganddynt mewn perthynas â'r achos. Atgoffwyd asiantaethau bod gwybodaeth o gofnodion a ddefnyddiwyd yn yr adolygiad yma'n cael eu harchwilio er budd y cyhoedd a dan Adran 115 o Ddeddf Trosedd ac Anhrefn 1998, sy'n galluogi awdurdodau perthnasol i rannu gwybodaeth ble fo angen ac yn berthnasol i ddibenion y Ddeddf: sef atal trosedd. Yn ychwanegol, mae Adran 29 o Ddeddf Diogelu Data 1998 yn galluogi gwybodaeth i gael ei rhannu os oes angen i atal a chanfod troseddau, neu arestio ac erlyn troseddwyr. Pwrpas yr Adolygiad Lladdiad Domestig yw atal trosedd gyffelyb.

1.3.5 Cynlluniwyd y cyfarfod Panel Adolygu cyntaf ar gyfer 25 Mawrth 2020. Yn sgîl y cyfnod clo coronafeirws, cytunwyd y byddai adroddiad yn cael ei gylchredeg i'r panel a sefydlodd yr adolygiad. Nododd yr adroddiad, yn dilyn trafodaeth rhwng SIO yr heddlu a'r Cadeirydd, y cytunwyd y byddai'r adolygiad yn parhau gyda sgôp cyfyngedig hyd nes y byddai'r broses cyfiawnder troseddol wedi'i chwblhau.

1.3.6 Fe wnaeth yr adroddiad dynnu sylw'r panel i'r ffaith y byddai angen i'r adolygiad gynnwys asiantaethau o Ganolbarth Lloegr ble roedd Barbara a'i gŵr wedi byw cyn symud i'r ardal. Rhannwyd y Cylch Gorchwyl, ar yr amod bod ymgynghori gyda'r teulu.

1.3.7 Lluniwyd cronoleg oedd yn dod â'r wybodaeth oedd yn wybyddus i bob asiantaeth ynghyd. Cyfarfu'r Panel drwy Microsoft Teams ar 30 Gorffennaf 2020, ac roedd yr asiantaethau isod yn bresennol:

- Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr
- Cyngor Dosbarth Cannock Chase
- Gorwel - Gwasanaethau Arbenigol
- Cyngor Gwynedd
- Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda
- Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol
- Gwasanaeth Tân Gogledd Cymru
- Heddlu Gogledd Cymru
- Grŵp Comisiynu Clinigol Swydd Stafford a Stoke
- Cyngor Sir Swydd Stafford

1.3.8 Gofynnwyd am Adroddiadau Rheoli Unigol gan:

- BIPBC ar ran y Meddyg Teulu
- BIPBC ar ran y Tîm Iechyd Meddwl Cymunedol
- Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda ar ran yr ysbyty lleol
- Grŵp Comisiynu Clinigol Swydd Stafford a Stoke - ar ran y Meddygon Teulu
- Cyngor Gwynedd - Gwasanaethau Cymdeithasol Oedolion

1.3.9 Nid oedd yn bosib cwblhau'r adolygiad hwn ymhen chwe mis gan nad oedd modd iddo fynd rhagddo gyda'r sgôp llawn hyd nes i'r broses droseddol gael ei chwblhau. Yn ogystal, fe wnaeth Covid-19 effeithio ymhellach ar gynnydd yr adolygiad.

1.3.10 Cyfarfu Panel yr Adolygiad ar bump achlysur a chwblhawyd yr adolygiad ym mis Hydref 2021.

## 1.4 Cyfrinachedd

1.4.1 Mae cynnwys a chasgliadau'r Adolygiad Lladdiad Domestig hwn yn gyfrinachol, ac mae'r wybodaeth ar gael yn unig i'r swyddogion a'r gweithwyr proffesiynol hynny sy'n cyfrannu ato a'u rheolwyr priodol yn eu sefydliadau, yn ôl yr angen. Bydd yn parhau'n gyfrinachol nes caiff y DHR ei gymeradwyo gan Banel Sicrwydd Ansawdd y Swyddfa Gartref ar gyfer ei gyhoeddi.

1.4.2 Rhag datgelu pwy oedd y sawl a fu farw, eu teulu a'u ffrindiau, defnyddir Barbara fel ffugenw i gyfeirio at yr ymadawedig o hyn allan a thrwy gydol yr adroddiad hwn. Cyfeirir at y person oedd yn gyfrifol am ei llofruddiaeth fel George. Yr enw a ddefnyddir ar gyfer eu merch fydd Caroline. Dewiswyd y ffugenwau gan awdur yr adroddiad ar gais merch y cwpl.

## 1.5 Dosbarthu

1.5.1 I ddechrau bydd fersiwn derfynol yr Adroddiad Adolygu yma yn cael ei dosbarthu i:

- Deulu Barbara
- Partneriaid statudol Partneriaeth Diogelwch Cymunedol Gwynedd a Môn
- Y sefydliadau a gynrychiolwyd ar y Panel Adolygu

## 1.6 Cyfranwyr i'r Adolygiad

1.6.1 Bydd y rhai sy'n cyfrannu at y DHR yn gwneud hynny dan Adran 2(4) o'r canllawiau statudol i gynnal Adolygiadau Lladdiadau Domestig ac mae yn ddyletswydd ar unrhyw berson neu gorff sy'n cymryd rhan yn yr adolygiad i roi sylw i'r canllawiau.

1.6.2 Roedd holl gyfarfodydd y panel yn cynnwys cyfeiriad penodol at y canllawiau statudol fel y ffynhonnell canllaw gorbwysol i'r adolygiad. Cafodd unrhyw unigolyn a gyfwelwyd gan y Cadeirydd neu Awdur yr Adroddiad, neu unrhyw gorff arall y gwnaethant geisio ymgynghori â hwy, wybod am nodau yr Adolygiad Lladdiad Domestig a'r canllawiau statudol.

1.6.3 Fodd bynnag, dylid nodi er y gellid cyfarwyddo unigolyn neu gorff i gymryd rhan, nid oes gan y Cadeirydd a'r Panel Adolygu y grym na'r hawl cyfreithiol i orfodi eu cydweithrediad, un ai drwy fynychu'r panel neu gyfarfod ar gyfer cyfweliad.

1.6.4 Cyfrannodd yr asiantaethau a ganlyn at yr adolygiad:

- Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr
- Cyngor Dosbarth Cannock Chase
- Gorwel - Gwasanaethau Arbenigol
- Cyngor Gwynedd
- Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda
- Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol
- Gwasanaeth Tân Gogledd Cymru
- Heddlu Gogledd Cymru
- Grŵp Comisiynu Clinigol Swydd Stafford a Stoke
- Cyngor Sir Swydd Stafford

1.6.5 Roedd holl aelodau'r panel ac awduron yr IMR yn annibynnol o unrhyw gysylltiad uniongyrchol gyda Barbara neu George.

1.6.6 Cyfrannodd teulu Barbara at yr adolygiad.

1.6.7 Cysylltwyd â George drwy'r uned rheoli troseddwyr yn y carchar gan ei wahodd i gyfrannu at yr adolygiad. Roedd modd i'r Cadeirydd ac Awdur yr Adroddiad gael sgwrs ar y ffôn gyda'r troseddwr yn y carchar.

## 1.7 Ymgysylltu gyda'r Teulu

1.7.1 Mae teulu a ffrindiau yn annatod i unrhyw Adolygiad Lladdiad Domestig ac ysgrifennodd y Cadeirydd Annibynnol ac Awdur yr Adroddiad at ferch Barbara a George ar ddechrau mis Mawrth a rhoddwyd y llythyr iddi gan y Swyddog Cyswllt Teulu. Roedd y llythyr yma yn ei

darparu gyda manylion am yr adolygiad a thaflen am AAFDA[1]. Nododd ei dymuniad i fod yn rhan o'r adolygiad ac fe wnaed cynlluniau i'w chyfarfod. Er hynny, oherwydd cyfnod clo y coronafeirws, cafodd y cynlluniau hyn eu gohirio tan yn nes ymlaen yn y flwyddyn.

1.7.2 Ym mis Medi, llwyddodd y Cadeirydd ac Awdur yr Adroddiad i gwrdd â merch Barbara a George a'u mab yng nghyfraith: yn unol â chanllawiau'r Llywodraeth ar y pryd. Gwahoddwyd merch Barbara i gwrdd â'r panel ond nid oedd yn teimlo fod angen iddi wneud hynny. Roedd yn hapus gyda chwmpas yr adolygiad fel a nodwyd yn y Cylch Gorchwyl.

1.7.3 Darparwyd copi o'r adroddiad drafft i ferch Barbara iddi ei ystyried yn ôl ei phwysau ei hun.

1.7.4 Ysgrifennwyd at chwaer Barbara gan Gadeirydd ac Awdur yr Adroddiad yn egluro beth oedd yr adolygiad gan ddarparu manylion iddi am yr AAFDA. Siaradodd hithau ar y ffôn gyda'r Cadeirydd ac Awdur yr Adroddiad.

## 1.8 Panel Adolygu

1.8.1 Aelodau'r Panel Adolygu oedd:

| | | |
|---|---|---|
| Gary Goose | Cadeirydd Annibynnol | |
| Christine Graham | Awdur Annibynnol yr Adroddiad | |
| Chris Walker | Pennaeth Diogelu Oedolion | BIPBC |
| Kerry Wright | Rheolwr Partneriaethau, Diogelwch Cymunedol a TCC | Cyngor Dosbarth Cannock Chase |
| Oliver Greatbach | Swyddog Diogelwch Cymunedol a Bregusrwydd | Cyngor Dosbarth Cannock Chase |
| Gwyneth Williams | Rheolwr | Gorwel - Gwasanaethau Cam-drin Domestig Arbenigol |
| Catherine Eirlys Roberts | Uwch Reolwr Gweithredol: Partneriaeth Diogelwch Cymunedol - Gwynedd a Môn | Cyngor Gwynedd |
| Mannon Emyr Trappe | Uwch Reolwr: Diogelu Oedolion, Sicrwydd Ansawdd ac Iechyd Meddwl | Cyngor Gwynedd - Gwasanaethau Cymdeithasol Oedolion |
| Mandy Nichols-Davies | Pennaeth Diogelu | Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda |
| Rachel Munkley | Ymarferydd Arweiniol VAWDASV a Diogelu | Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda |
| Angharad Forshaw | Uwch Swyddog Prawf | Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol |
| Gwyn Jones | Rheolwr Diogelwch Cymunedol i Wynedd a Môn | Gwasanaeth Tân Gogledd Cymru |
| Sara Evans | Ditectif Arolygydd | Heddlu Gogledd Cymru |

[1] Eiriolaeth wedi cam-drin domestig angheuol.

| | | |
|---|---|---|
| Lisa Bates | Nyrs Ddynodedig Diogelu Oedolion | Grŵp Argyfyngau Sifil Swydd Stafford a Stoke |
| John Maddox | Cydlynydd DHR | Cyngor Swydd Stafford |

## 1.9 Cadeirydd yr Adolygiad Lladdiad Domestig ac Awdur yr Adroddiad Trosolwg

1.9.1 Bu Gary Goose yn gweithio gyda Heddlu Swydd Caergrawnt gan esgyn i swydd Ditectif Uwch Arolygydd: daeth ei yrfa yn yr heddlu i ben yn 2011. Yn ystod yr amser hwn, yn ogystal ag arwain ymchwiliadau proffil uchel, bu Gary yn gwasanaethu ar Awdurdod Gweithredol Cyswllt Teulu gan arwain ymateb yr heddlu i deuluoedd dioddefwyr llofruddiaethau Soham. O 2011 ymlaen, cyflogwyd Gary gan Gyngor Dinas Peterborough fel Pennaeth Diogelwch Cymunedol ac yn fwy diweddar fel Cyfarwyddwr Cynorthwyol i Wasanaethau Cymunedol. Roedd gwasanaethau cefnogi dioddefwyr cam-drin domestig ymysg maes cyfrifoldeb Gary. Daeth cyflogaeth Gary gyda'r awdurdod lleol i ben ym mis Hydref 2016. Fe'i cyflogwyd hefyd am chwe mis gan Gomisiynydd yr Heddlu a Throsedd Swydd Caergrawnt i ddatblygu fframwaith perfformiad.

1.9.2 Bu Christine Graham yn gweithio i Bartneriaeth Diogelwch Peterborough am 13 mlynedd gan reoli holl agweddau diogelwch cymunedol, yn cynnwys gwasanaethau cam-drin domestig. Yn ystod y cyfnod hwn, maes arbenigedd penodol Christine oedd gweithio mewn partneriaeth - hwyluso gwaith y bartneriaeth yn Peterborough. Ers iddi sefydlu ei chwmni ei hun, mae Christine wedi gweithio gyda nifer o sefydliadau a phartneriaethau i adolygu eu harferion â'u polisïau mewn perthynas â diogelwch cymunedol ac ymddygiad gwrthgymdeithasol. Yn ogystal â darparu hyfforddiant mewn perthynas â mynd i'r afael efo ymddygiad gwrthgymdeithasol, mae Christine wedi gweithio gyda nifer o sefydliadau i adolygu eu hagwedd at ddiogelwch cymunedol. Gwasanaethodd Christine am saith mlynedd fel Ymgynghorydd Lleyg i MAPPA Swydd Caergrawnt a Peterborough, sy'n golygu ei bod yn arsylwi ac archwilio cyfarfodydd Lefel 2 a 3 yn ogystal ag ymgysylltu mewn Adolygiadau Achosion Difrifol. Mae Christine yn cadeirio Partneriaeth Safer Off the Streets yn lleol.

1.9.3 Mae Gary a Christine wedi cwblhau, neu ar hyn o bryd yn ymwneud â nifer o Adolygiadau Lladdiad Domestig ar draws y wlad fel Cadeirydd ac Awdur Trosolwg. Mae Adolygiadau Lladdiad Domestig blaenorol wedi cynnwys amrywiaeth o wahanol sefyllfaoedd, dioddefwyr gwrywaidd; hunanladdiad; llofruddiaeth/hunanladdiad; lladdiad domestig teuluol; a byddai nifer ohonynt yn ymwneud ag iechyd meddwl ar ran y cyflawnwr a/neu ddioddefwr; ac adolygiadau yn ymwneud â phobl o dramor. Mewn sawl adolygiad, maent wedi datblygu perthnasau gwaith da gydag ymchwiliadau/ymholiadau sy'n cyd-rhedeg fel y rhai a gynhaliwyd gan y Swyddfa Annibynnol Ymddygiad yr Heddlu (IOPC), NHS England ac Adolygiadau Gofal Oedolion.

1.9.4 Nid yw Gary Goose na Christine Graham yn gysylltiedig gydag unrhyw un o'r asiantaethau sy’n gysylltiedig â’r adolygiad ac nid ydynt ar unrhyw adeg yn y gorffennol wedi bod yn gysylltiedig gydag unrhyw un o'r asiantaethau[2].

[2]Multi-agency Statutory Guidance for the Conduct of Domestic Homicide Reviews (para 36), Y Swyddfa Gartref, Rhagfyr 2016

1.9.5 Mae Christine a Gary wedi cwblhau pecyn hyfforddi ar-lein y Swyddfa Gartref ar Adolygiadau Lladdiadau Domestig, yn cynnwys y modylau ychwanegol ar gadeirio adolygiadau a chynhyrchu adroddiadau trosolwg, a hefyd Hyfforddiant Cadeirydd DHR (dau ddiwrnod) a ddarparwyd gan AAFDA (Advocacy After Fatal Domestic Abuse). Mae manylion datblygu proffesiynol parhaus ar gael yn Atodiad Dau.

## 1.10 Adolygiadau sy'n cyd-redeg

1.10.1 Nid oedd unrhyw adolygiadau oedd yn cyd-redeg gan fod y crwner o'r farn nad oedd angen ail-agor y cwest yn dilyn y broses droseddol.

## 1.11 Cydraddoldeb ac Amrywiaeth

1.11.1 Drwy gydol y broses adolygu, mae'r Panel Adolygu wedi ystyried materion cydraddoldeb ac yn benodol y naw nodwedd warchodedig dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010. Y rhain yw:

- Oed
- Anabledd
- Ailbennu rhywedd
- Priodas neu bartneriaeth sifil (cyflogaeth yn unig)
- Beichiogrwydd a mamolaeth
- Hil
- Crefydd neu gred
- Rhyw
- Cyfeiriadedd rhywiol

1.11.2 **Dioddefwyr benywaidd cam-drin domestig**

1.11.3 Dywed Cymorth i Ferched *"domestic abuse perpetrated by men against women is a distinct phenomenon rooted in women's unequal status in society and oppressive social constructions of gender and family".*[3] Mae merched yn fwy tebygol o gael eu lladd gan bartneriaid/cyn-bartneriaid. Mae data ONS[4] yn dangos am y cyfnod rhwng misoedd Ebrill 2008 i Fawrth 2019, y lladdwyd 925 o ferched gan bartner neu cyn-bartner, o gymharu gyda 152 o ddynion.

1.11.4 Gwelodd Cyfrifiad 'Femicide' adroddiad 10 mlynedd[5] bod y nifer fwyaf o femicides (888, 62%) wedi eu cyflawni gan ddynion oedd ar y pryd neu wedi bod yn flaenorol mewn perthynas glos gyda'r dioddefwr.

1.11.5 **Dioddefwyr gwrywaidd cam-drin domestig**

1.11.6 Er bod George yn gyfrifol am farwolaeth Barbara, mae tystiolaeth glir o'r gamdriniaeth a gyflawnodd hi yn ei erbyn ef am nifer o flynyddoedd.

[3] (Women's Aid Domestic abuse is a gendered crime, n.d.)
[4] 'Homicide in England and Wales', yn y flwyddyn ddaeth i ben ym mis Mawrth 2019, Y Swyddfa Ystadegau Gwladol, Chwefror 2021
[5] UK Femicides 2009-2018, Femicide Census,

1.11.7 Bydd un o bob tri dioddefwr cam-drin domestig yn wrywaidd, a bydd un mewn chwech i saith o ddynion yn profi cam-drin domestig yn eu hoes.[6] Mae dynion yn llai tebygol o adrodd am gamdriniaeth na merched. Maent bron deirgwaith yn llai tebygol (49% o'i gymharu â 19%) na merched i ddweud wrth rhywun, a dim ond un mewn chwech o ddynion fydd yn rhoi gwybod i'r heddlu[7].

1.11.8 **Oed**

1.11.9 Yn yr achos yma, roedd dioddefwr y lladdiad a'r dioddefwr cam-drin domestig yn 74 oed ac wedi bod yn briod am dros 50 mlynedd. Nid yw'r Arolwg Troseddau i Gymru a Lloegr, a gynhelir gan y Swyddfa Ystadegau Genedlaethol, yn casglu data ar rai dros 74 oed. Felly, er ein bod yn gwybod bod cam-drin domestig yn erbyn pobl hŷn yn digwydd, nid oes gennym wir ddarlun ynglŷn â pha mor gyffredin ydyw ymysg pobl hŷn.

1.11.10 Wedi dweud hynny, gwyddom bod 98,000 o ddynion hŷn, 60-74 oed, yn ddioddefwyr cam-drin domestig yng Nghymru a Lloegr yn ystod y flwyddyn ddiwethaf.[8]

1.11.11 Mewn adroddiad diweddar gan Age UK[9], honnodd Age UK fod cam-drin domestig i bobl hŷn yn fater cuddiedig, gyda dioddefwyr cudd. Maent yn gwneud y pwynt fel y mae pobl yn mynd yn hŷn, maent yn mynd yn llai abl i atal ymddygiadau niweidiol a chael mynediad i gymorth. Yn bwysig iawn, efallai nad yw pobl hŷn yn cydnabod eu bod yn profi cam-drin domestig.

1.11.12 Canfu SafeLives[10] bod pobl dros 61 oed yn cymryd ddwywaith gymaint o amser i edrych am help wrth brofi camdriniaeth ddomestig ac roedd yn anos iddynt gan eu bod yn dibynnu ar y cyflawnwr/cyflawnwyr yn ariannol a/neu yn dibynnu arnynt oherwydd materion iechyd sy'n fwy cyffredin wrth fynd yn hŷn.

1.11.13 *The inability of many professionals to recognise older people as victims/survivors of domestic abuse, not only influences the monitoring of prevalence data and the subsequent service delivery (Wydall and Zerk, 2015), but can also have life-threatening consequences for the victim (Sharp-Jeffs and Kelly, 2016)*[11].

---

[6] Mark Brooks, Dioddefwyr Gwrywaidd o Gam-drin Domestig a cham-drin partner, 45 ffaith allweddol, Mankind Initiative, Mawrth 2019.

[7] Ibid

[8] No Age Limit: the blind spot of older victims and survivors in the Domestic Abuse Bill, Age UK, Medi 2020.

[9] No Age Limit: the blind spot of older victims and survivors in the Domestic Abuse Bill, Age UK, Medi 2020, gwnaed y pwynt nad yw cam-drin domestig yn diflannu gydag oed, ac nid yw ei effaith niweidiol yn lleihau.

[10] Adroddiad Cam-drin Domestig 2019: Gwelodd Archwiliad Blynyddol, Cymorth i Ferched, 2019 y dyfynnwyd yn adroddiad Age UK

[11] Sarah Wydall, Rebecca Zerk, (2017) "Domestic abuse and older people: factors influencing help-seeking", The Journal of Adult Protection, Cyfrol. 19 Issue: 5, pp.247-260,

# Adran Dau - Y Ffeithiau

## 2.1 Cyflwyniad

2.1.1 Roedd Barbara yn 74 oed pan fu farw. Roedd wedi bod yn briod i George, oedd yn 75 oed, am 53 mlynedd. Yn 2018, symudodd y cwpl o Ganolbarth Lloegr i bentref yng ngogledd Cymru i fod gerllaw eu merch a'i theulu estynedig.

2.1.2 Mae'r gronoleg sy'n dilyn yn cynnwys nid yn unig y wybodaeth a ddarparwyd gan yr asiantaethau oedd mewn cysylltiad gyda Barbara a George, ond hefyd gwybodaeth a ddarparwyd gan eu merch, gan fod hyn yn helpu i ddarparu darlun mwy cyflawn o'u bywydau.

## 2.2 Cronoleg Fanwl

2.2.1 **2015**

2.2.2 Roedd gan Barbara heintiad llwybr yr wrin[12] a arweiniodd at brydereon am ei gweithrediad gwybyddol.

2.2.3 **2016**

2.2.4 Yn 2016, roedd gan Barbara heintiad llwybr yr wrin arall. Ffoniodd ei merch 101 gan adrodd fod ei mam wedi profi peth dryswch ar y pryd. Ffoniodd meddyg hi yn ôl gan roi presgripsiwn o wrthfiotigau iddi. Dyma oedd y sbardun iddi siarad gyda'i thad, George, am gof ei mam a sut roedd hwn wedi bod yn dirywio hyd yn oed cyn iddi gael yr heintiad.

2.2.5 Ym mis Mawrth, fe wnaeth Barbara a George drefnu eu hewyllysiau a'u Pŵer Atwrnai Arhosol (LPA): ar y ddealltwriaeth y byddai'r LPA yn parhau yn y cefndir ac ond yn dod i rym pan fyddai ei angen. Ar yr adeg yma roedd George yn gyndyn i deithio i unrhyw le oherwydd ei broblemau symudedd, ac roedd yn arddangos arwyddion o fân broblemau cof.

2.2.6 Tua'r adeg yma cafodd Barbara lawdriniaeth hysterectomy a wnaeth ddatrys yr heintiau ac fe ymddangosai fod ei gweithrediad gwybyddol wedi gwella rhyw gymaint.

2.2.7 **2017**

2.2.8 Ym mis Mehefin, cofnodwyd ar gofnod Meddyg Teulu Barbara bod y Meddyg wedi cynnal prawf gwybyddol, gan fod merch Barbara wedi mynegi pryder am gof ei mam.[13] Cwblhaodd y GPCOG[14] , Asesiad Gwybyddol y Meddyg Teulu a chafodd farciau llawn, roedd hyn yn dangos nad oedd unrhyw amhariad clinigol.

2.2.9 **2018**

---

[12] Fel arfer ni fyddai cyflwr meddygol penodol yn cael ei enwi. Yn yr achos yma credir bod hyn yn berthnasol gan y gall heintiad llwybr yr wrin achosi dryswch a deliriwm a arweiniodd at bryderon am ei gweithrediad gwybyddol.

[13] Nid yw merch Barbara yn cofio am yr apwyntiad yma a bod hwn wedi ei gynnal.

[14] General Practitioner Assessment of Cognition

2.2.10 Cred merch Barbara fod ei mam wedi dechrau dangos arwyddion dementia cynnar yn y gwanwyn 2018. Roedd ei gŵr yn y broses o gael ei asesu (diagnosis ym mis Mehefin 2018) a gallai weld nodweddion tebyg rhyngddynt.

2.2.11 Penderfynodd Barbara a George symud i ogledd Cymru. Ar eu cais hwy fe wnaeth eu merch ddelio gyda gwerthu a phrynu tŷ iddynt. Ar y pryd roedd Barbara yn gallu ymdrin â gweithgareddau dyddiol fel newid cyfeiriadau ond roedd yn dechrau drysu gyda thasgau mwy cymhleth, ac arweiniodd hyn iddi fynd i deimlo dan bwysau ac yn flin.

2.2.12 Roedd dau achlysur pan aeth Barbara at ei Meddyg Teulu gan fod ei meigrynau wedi codi eto, a oedd yn achosi diffyg cwsg. Roedd yn ddagreuol ac yn dweud ei bod yn teimlo'n hynod flinedig.

2.2.13 Cafodd George ei adolygiad clefyd siwgr blynyddol ym mis Mawrth. Adroddodd ei fod yn yfed 14 uned o alcohol yr wythnos.

2.2.14 Ym mis Mai aeth Barbara i weld ei Meddyg Teulu gan nad oedd yn gallu cysgu. Roedd yn ddagreuol iawn ac mewn poen cyson. Roedd yn cael meigrynau yn amlach. Cafodd bresgripsiwn am ddos isel o dabledi cysgu am saith diwrnod. Trefnwyd sgan MRI: nid oedd y canlyniadau yn dangos bod dim byd anghyffredin. Eglurodd Barbara hyn i'w merch. Dywedodd nad oedd yr ymennydd wedi lleihau a bod y sgan yn normal i berson hŷn. Roedd merch Barbara yn bryderus am y canlyniadau a gofynnodd i'w mam gael copi o'r adroddiad MRI.

**Roedd cofnodion y Meddyg Teulu yn glir am ganlyniad y sgan hwn. Fodd bynnag, nid oedd merch Barbara yn cytuno â'r farn feddygol hon.**

2.2.15 Wedyn aeth i weld y Meddyg Teulu gyda Barbara. Mynegodd merch Barbara bryderon am gof ei mam, ei dryswch a'i gallu i yrru, ond cafodd ei sicrhau gan y Meddyg Teulu bod hyn yn arwydd arferol o fynd yn hŷn. Gofynnodd i'w mam gael ei chyfeirio at y tîm iechyd meddwl/asesu cof. Ar ôl cynnal tri o'r pump cam cychwynnol asesu cof gyda Barbara, ni wnaeth eu pasio. Cytunodd y Meddyg Teulu i atgyfeirio Barbara, ond gofynnodd Barbara i hyn ddigwydd ar ôl iddi symud i ogledd Cymru. Cytunodd Barbara gyda'r Meddyg Teulu na fyddai yn parhau i yrru ar ôl iddi symud. Wedi iddynt symud i ogledd Cymru, gwrthododd Barbara i gael ei chyfeirio.

2.2.16 Ym mis Gorffennaf fe wnaeth niwralgia trigeminol George ail-godi, cwblhawyd sgan ar yr ymennydd a ddaeth yn ôl yn normal.

2.2.17 Cafodd Barbara ei hadolygiad clefyd siwgr blynyddol ym mis Gorffennaf. Yn ystod yr ymgynghoriad hwn, cwblhawyd sgôr iselder ac nid oedd unrhyw dystiolaeth o iselder.

2.2.18 Ym mis Awst 2018, symudodd Barbara a George i ogledd Cymru. Dywedodd ei merch ar ôl iddynt symud daeth yn amlwg na fedrai ei mam ymdopi gyda eu holl faterion ariannol[15]. Yn aml byddai yn mynd a'i ffôn i gartref ei merch gan ofyn iddi siarad gyda'r person oedd ar y ffôn.

[15]Trefnodd merch Barbara y gwasanaethau a threfnu taliadau debyd uniongyrchol. Roedd Barbara yn gallu ymdrin â materion ariannol o ddydd-i-ddydd gan ei bod ond yn defnyddio arian parod, byth cardiau, a threfnu materion mewn cysylltiad â'r byngalo.

2.2.19 Cofrestrodd Barbara a George gyda meddygfa leol yng ngogledd Cymru yn fuan wedi iddynt gyrraedd. Cofrestrodd ei merch yr LPA gyda'r feddygfa ac er na siaradodd gyda'r Meddyg Teulu am iechyd ei thad, yn raddol roeddent yn ffonio merch George fwy fwy, yn hytrach na George ei hun. Roedd hyn i drefnu apwyntiadau yn unig, gan y byddai'r dyddiad neu'r amser yn mynd yn angof.

2.2.20 Ymwelodd George â meddygfa Meddyg Teulu yng ngogledd Cymru am y tro cyntaf ym mis Hydref ar gyfer archwiliad cyffredinol. Cofnodwyd bod yr alcohol roedd yn ei yfed yn 6 uned yr wythnos.

2.2.21 Ar yr un diwrnod cafodd Barbara ei hapwyntiad cyntaf ym meddygfa Meddyg Teulu yng ngogledd Cymru ac yn ystod archwiliad cyffredinol, dywedodd ei bod yn yfed dwy uned yr wythnos o alcohol.

2.2.22 Ym mis Rhagfyr, gofynnwyd i George fynd i feddygfa'r Meddyg Teulu i drafod canlyniadau ei brofion gwaed. Adroddodd fod ganddo broblemau efo'i stumog a olygodd nad oedd yn gallu teithio os nad oedd wedi llwgu ei hun am 24 awr. Cytunwyd y byddai ei feddyginiaeth yn cael ei hadolygu gan ail-adrodd ei brofion gwaed ymhen tair wythnos.

2.2.23 **2019**

2.2.24 Cafodd George adolygiad diabetes cyffredinol ym meddygfa'r Meddyg Teulu ar 7 Ionawr. Ar yr un diwrnod cafodd Barbara ymgynghoriad gyda nyrs y practis ym meddygfa'r Meddyg Teulu. Dywedodd ei bod yn yfed pedair uned o alcohol yr wythnos. Roedd sylw am iselder, ond gwrthododd fynd i weld y meddyg am hyn. Cyfeiriwyd hi at y gwasanaeth dietegydd.

2.2.25 Pan welodd George y Nyrs Ymarfer Uwch ychydig o ddyddiau wedyn ym meddygfa'r Meddyg Teulu, bu trafodaeth am ei brofion gwaed: roeddent yn dangos fod sodiwm yn isel yn ei waed. Dywedodd pan roedd yn llwgu ei hun am 24 awr cyn teithio, y gallai hyn fod yn effeithio ar y canlyniad, er hynny roedd y prawf diwethaf wedi ei gynnal ar fyr rybudd ac felly nid oedd wedi gallu gwneud hyn. Nodwyd y dylent roi ystyriaeth i'r nyrs ardal gymryd ei waed yn y dyfodol.

2.2.26 Ar 10 Ionawr, cafodd Barbara archwiliad claf newydd gyda'r Meddyg Teulu. Ers iddi symud i'r ardal roedd wedi colli dwy stôn yn ei phwysau, ond ystyriwyd nad oedd yn dioddef o iselder clinigol.

2.2.27 Cafodd George adolygiad o'i feddyginiaeth gyda'r fferyllydd ar 22 Ionawr. Cofnodwyd bod George yn ddryslyd am ei feddyginiaeth, gan mai ei wraig oedd yn gyfrifol amdano. Rhoddodd ganiatâd i'r Meddyg Teulu i gysylltu gyda Barbara ar y ffôn a chafodd hi gyngor am ei feddyginiaeth. Cafodd gynnig meddyginiaeth mewn pecynnau swigod (*blister packs*), ond gwrthodwyd hyn.

2.2.28 Ar 14 Chwefror, derbyniodd y Meddyg Teulu lythyr gan y gwasanaeth dietegydd, gan fod Barbara wedi gwrthod apwyntiad gyda'r dietegydd.

2.2.29 Cafodd George adolygiad diabetes ym meddygfa'r Meddyg Teulu ar 5 Mehefin. Nodwyd ei fod angen ECG. Cwblhawyd hyn gan y Meddyg Teulu, nodwyd y dylid parhau i reoli ei bwysau gwaed gartref. Dywedodd ei fod yn yfed 6 uned o alcohol yr wythnos.

2.2.30 Cafodd Barbara adolygiad diabetes ym meddygfa'r Meddyg Teulu ar 5 Mehefin. Yn ystod yr archwiliad cyffredinol, dywedodd nad oedd yn yfed dim alcohol.

2.2.31 Ym mis Mehefin galwyd y Gwasanaeth Ambiwlans i'r cyfeiriad wedi i George gael codwm[16]. Ar 10 Gorffennaf cafodd pwysau gwaed George ei wirio.

2.2.32 Ar 9 Awst, cafodd merch Barbara Asesiad Gofalwr ar gyfer ei gŵr. Holodd hefyd am gyfeirio ei mam i'r clinig cof, er bod ei mam yn siarad gyda hi am ba mor ddrwg y credai yr oedd yn mynd a pha mor isel roedd hi, nid oedd yn barod i gytuno iddi ddechrau'r broses. Cafodd wybod fod rhaid i'r cais i atgyfeirio ddod gan Barbara.

2.2.33 Ar 30 Medi, cafodd George ei ddeffro (roedd ef a'i wraig yn cysgu mewn ystafelloedd ar wahân) yn ei wely gyda Barbara yn ei brocio gyda chyllell a adawodd rwygiadau yn ei grys-T a marciau ar ei gorff. Disgrifiodd merch Barbara hyn fel rhywbeth oedd yn ddigonol i'w anafu. Yn nes ymlaen dywedodd Barbra wrth ei merch ei bod wedi bod yn edrych am ei galon, ond doedd ganddo ddim calon. Wrth wneud yr ystum trywanu, cipiodd George y gyllell oddi arni a achosodd iddo frifo ei law yn y broses, a tharo ei braich ar ymyl metel y gwely i wneud iddi ollwng y gyllell. Aeth ef i dŷ ei ferch. Gwrthododd George fynd i'r ysbyty na galw'r heddlu oherwydd roedd eisiau amddiffyn ei wraig a dywedodd y byddai'n gwadu popeth petai'r heddlu'n cael gwybod. Erbyn hyn, roedd gan George gymaint o ofn beth fyddai Barbara yn ei wneud fel ei fod wedi gosod trap, oedd yn cynnwys gosod hwfer yn sownd mewn darn o linyn fyddai'n gwneud sŵn petai Barbara yn ceisio mynd i'w ystafell yn y nos. Roedd merch George wedi cynnig gosod bollt ar y drws ond gwrthododd ef iddi wneud hynny a gosododd y trap yn lle.

2.2.34 Gadawodd Barbara y tŷ gyda'r ci. Daeth ei merch o hyd iddi wrth lan y môr ac roedd yn feddw iawn a dywedodd ei bod eisiau darfod pethau. Aeth Caroline a'i mam adref, ond gadawodd eto. Fel roedd Caroline yn y broses o alw'r heddlu, dychwelodd Barbara adref unwaith eto. Siaradodd hi â'i merch ac yn y pendraw gafaelodd Barbara yn George a'i orchymyn i fynd adref, gan ddweud nad oedd eisiau dim byd mwy i'w wneud gyda'i merch. Ni wnaeth Barbara siarad gyda'i merch am bedwar diwrnod ac ni soniodd ddim mwy am ei meddyliau am hunan-laddiad.

2.2.35 Tua 8.30am ar 8 Hydref, aeth George i dŷ ei ferch i ddweud na fedrai ddeffro Barbara. Galwyd y parafeddygon ac wedi iddynt gyrraedd trafododd merch Barbara y posibilrwydd bod ei mam wedi cymryd gorddos, er nad oedd ganddi unrhyw dystiolaeth o hyn. Awgrymodd hefyd ei bod yn credu, yn anecdotaidd, bod ei mam yn dangos arwyddion dementia. Aed â hi yn yr ambiwlans i'r ysbyty cyffredinol ac i ddechrau credwyd ei bod wedi dioddef strôc. Gan fod Barbara a George yn cysgu mewn ystafelloedd ar wahân, nid oeddent yn gwybod pryd roedd wedi diffygio. Nodwyd bod cwestiwn am amhariad gwybyddol Barbara a bod gan ei merch Bŵer Atwrnai (POA).

2.2.36 Yn nes ymlaen y diwrnod hwnnw, pan gafodd Barbara ei hadolygu gan feddyg clinigol arall, siaradodd ef gyda merch Barbara a rhoddodd hithau wybod i'r meddyg am y *'recent troubles at home'*[17]. Dywedodd nad oedd ei mam yn addasu yn dda i'r ardal newydd ac roedd eisiau

[16]Mae'r wybodaeth am yr alwad yma'n gyfyngedig. Mae cofnodion y Gwasanaeth Ambiwlans wedi ei nodi fel 'codwm' ac nid oes unrhyw gofnod am bryderon neu wybodaeth am gamdriniaeth neu drafferthion blaenorol. Mae merch y cwpl yn cofio dweud wrth y criw am y rhain ond nid oes unrhyw gofnod o hyn. O gofio am y diffyg gwybodaeth sydd ar gael nid ydym am ail-edrych ar hyn yn nes ymlaen yn yr adroddiad.

[17]Nid yw'n eglur os mai dyma oedd yr union eiriau, na sut y cofnodwyd hyn gan y meddyg. Ers hynny mae'r meddyg wedi gadael yr ysbyty ac felly nid oedd modd gwirio hyn.

symud yn ôl i Ganolbarth Lloegr. Dywedodd bod ei mam ar y dydd Llun blaenorol wedi dweud ei bod eisiau darfod pethau.

2.2.37 O'r hyn mae Caroline yn ei gofio, bryd hynny, dywedwyd wrthi pe byddai ei mam yn adfer byddai yn cael asesiad iechyd meddwl gan roi pecyn gofal yn ei le cyn iddi adael yr ysbyty.

2.2.38 Aeth ei ferch â George i weld Barbara ar bnawn dydd Iau, 9 Hydref, roeddent yn credu ar y pryd ei bod yn debygol y byddai'n marw. Yn ystod y daith, dywedodd George wrth ei ferch sut digwyddodd yr anaf i arddwrn Barbara, a dywedodd hithau wrth aelod o staff, ond nid yw'n gallu cofio pwy. Nid oes unrhyw gofnod o hyn yn y nodiadau meddygol ac nid yw'r gweithwyr clinigol yn cofio am hyn. Tua'r adeg yma, ag yntau adref, dywedodd George wrth ei ferch am y can petrol a'r cynllun gan Barbara i losgi'r byngalo, ac am ei chyflwr meddyliol oedd yn gwaethygu. Nid oedd hi yn gwybod am hyn tan yr adeg yma. Yn ystod y dydd, dywedodd Barbara wrth y nyrsys ei bod eisiau roi terfyn i'w bywyd ac roedd yn dal i deimlo yr un fath. Gofynnodd y meddyg ymgynghorol iddi sut roedd yn teimlo. Gan fod yr afu yn methu, roedd yn ystyried trawsblaniad afu iddi. Er hynny, mae eisiau byw yn un o'r meini prawf ar gyfer cyfeirio i gael trawsblaniad.

2.2.39 Rhwng 8 a 14 Hydref, roedd cyflwr clinigol Barbara yn wael iawn ac roedd y prognosis yn ansicr. Dirywiodd yn glinigol ar 11 Hydref, ac ar 12 Hydref cafodd ffit: credwyd bod hyn yn eilaidd i fethiant yr afu.

2.2.40 Ar 12 Hydref, roedd merch Barbara newydd fynd i'r car i ddychwelyd i'r ysbyty pan gafodd alwad ffôn i ddweud bod ei mam wedi cael ffit ac roedd yn marw. Pan gyrhaeddodd yr ysbyty, roedd yr unigolyn oedd yn ei hasesu ar gyfer trawsblaniad yr afu hefyd yn bresennol. Siaradwyd am yn hir am ei iechyd yn gyffredinol. Cafodd wybod oherwydd ei hoed, ymdrech i ladd ei hun, yfed a dementia posib, na fyddent yn ystyried trawsblaniad yr afu. Roedd hyn wedi ei grybwyll iddi o'r blaen, ond nid yw'n gallu cofio gan bwy a phryd.

2.2.41 Mae merch Barbara yn cofio, yn hwyr ar y noson honno, iddi fynd i aros mewn gwesty lleol gan ddychwelyd i'r ysbyty ar y 13eg. Cafodd wybod eto na fyddai ei mam yn dod drwyddi. Symudwyd ei mam i ystafell breifat ac wedyn ymlaen i Uned Strôc Aciwt. Wedi cyrraedd gofynnwyd iddi lenwi taflen 'Rhyddhau Gwybodaeth'

2.2.42 Ar ôl adolygu'r cofnodion gwelwyd mai Cofnod Asesu Claf Preswyl sy'n Oedolyn oedd hwn. Mae hwn yn asesiad sy'n cofnodi amgylchiadau cartref y claf a'r gefnogaeth bresennol sydd ar gael. Mae awdur yr IMR wedi cadarnhau bod y ffurflen wedi ei llenwi fel y byddem wedi disgwyl. Roedd cwestiynau helaeth am ei hanes meddygol, amgylchiadau a sut y byddai'n ymdopi ar ôl gadael yr ysbyty. Heriodd pam eu bod yn gofyn iddi lenwi'r ffurflen hon pan nad oedd ei mam yn debygol o oroesi. Cafodd wybod mai dyma oedd y drefn arferol, ac felly parhaodd. Er hynny, nododd y gallai weld nad oedd popeth a ddywedodd yn cael ei ysgrifennu ar y ffurflen ond gan nad oedd yn credu fod fawr o bwynt ni wnaeth herio hyn.

2.2.43 Pan ddychwelodd i'r ysbyty ar y 14eg, roedd Barbara wedi dechrau gwella: fe aeth adref ganol y prynhawn. Dywedodd Barbara ei bod eisiau mynd adref o'r ysbyty a'r diwrnod wedyn, 15 Hydref, nodwyd ei bod yn sefydlog yn feddygol ac fe fyddai'n cael ei gweld gan y Tîm Crisis.

2.2.44 Pan ddychwelodd merch Barbara ar y 15fed, gwelodd bedwerydd feddyg ymgynghorol a thrafododd adferiad Barbara gyda hi. Trafodwyd gadael Barbara adref o'r ysbyty a dywedodd

eu bod yn ystyried ei throsglwyddo i ysbyty cymunedol i gael asesiad iechyd meddwl, oherwydd eu pryderon.

2.2.45 Symudwyd Barbara i ward y galon ac roedd y staff yn siarad am ganiatáu iddi adael yr ysbyty. Pan holodd ei merch am y ffurflen ('Rhyddhau Gwybodaeth') a lenwodd ar y 12fed, gan ei bod yn ymwybodol mai dim ond manylion bras a gofnodwyd arni ac nad oedd yn ddarlun cyflawn o'r amgylchiadau, nid oeddent yn gwybod dim am y ffurflen. Bryd hynny dechreuodd ei merch bryderu eu bod yn taflu llwch i'w llygaid a bod Barbara'n mynd i adael yr ysbyty a chael ei rhoi yn ei gofal hi yn gyfan gwbl. Ar y pryd, roedd merch Barbara yn teimlo bod ei mam yn gwrthod bwyta ac yn diffygio yn rheolaidd. Er hynny, mae'r cofnodion meddygol yn nodi, pan nad oedd bellach yn *'nil by mouth'*, ei bod yn cymryd bwyd a hylifau yn dda ac yn annibynnol.

2.2.46 Ar 18 Hydref, roedd ei merch yn cyfathrebu drwy e-bost gyda Nyrs Seiciatrig Cymunedol (CPN) ei gŵr ynglŷn ag apwyntiad. Cymerodd y cyfle i ofyn am ei chyngor ynglŷn â beth y dylai ei wneud i sicrhau fod ei mam yn cael yr help roedd ei angen - awgrymwyd cyfeirio at y gwasanaethau cymdeithasol ac i'r clinig cof. Fe wnaeth y CPN roi rhif desg dyletswydd y gwasanaethau cymdeithasol iddi ac eglurodd y dylai Barbara gael ei gweld gan y Tîm Crisis fyddai yn ei chyfeirio i'r Tîm Iechyd Meddwl Cymunedol priodol wrth iddi adael yr ysbyty.

2.2.47 Am 3.30pm ar 21 Rhagfyr, ffoniodd merch Barbara y ward a dywedodd ei bod yn bryderus am adael i'w mam ddod adref, gan ei bod yn teimlo *'[she] would not be safe at home'* gan nad oedd George yn gallu edrych ar ôl ei hun, a bod gan ei gŵr ei hun ddementia. Siaradodd nyrs gyda Barbara ynglŷn â pham ei bod wedi dod i'r ysbyty. Dywedodd ei bod yn teimlo'n unig a bod y sefyllfa yn drech na hi ond byddai yn gwneud cynlluniau i ymweld â'i chwaer ar yr adegau hyn. Cytunodd ei bod angen help ond dywedodd y byddai'n trefnu hyn ei hun. Nid oedd unrhyw dystiolaeth nad oedd ganddi'r capasiti i wneud y penderfyniad hwnnw ac fe gytunodd i gael ei hadolygu gan y Tîm Crisis.

2.2.48 Y diwrnod wedyn, 22 Hydref, trafododd y nyrs am adael yr ysbyty gyda Barbara a'i merch dros y ffôn. Nodwyd yr hoffai'r ddwy gael cymorth a rhoddodd merch Barbara fanylion cyswllt Gofal Cymdeithasol Oedolion i'r nyrs.

2.2.49 Yn nes ymlaen ar yr un diwrnod, rhannodd merch Barbara fwy o'i phryderon gyda'r nyrs, nid oedd hyn yng ngŵydd ei mam. Dywedodd fod ei thad wedi dweud wrthi iddo ddeffro i weld ei wraig *'with a knife at his heart'* ac roedd hi wedi meddwi. Dywedodd hi fod ganddo anafiadau oherwydd cyllell ar ei ddwylo ble roedd wedi ceisio ei hatal. Nododd y nyrs yr hyn a ddywedwyd wrthi a bod hyn wedi digwydd tair wythnos yn gynharach. Dywedodd merch Barbara hefyd bod ei thad wedi dweud wrthi, bum wythnos yn flaenorol, fod Barbara wedi bod yn edrych am gan petrol i losgi'r tŷ. Pan glywodd hyn, fe wnaeth merch Barbara guddio'r can petrol. Mynegodd bryder am y cynnydd yn faint roedd ei mam yn ei yfed. Nododd y nyrs ei bod wedi rhannu'r wybodaeth yma gyda'r staff meddygol â'r Tîm Crisis.

2.2.50 A fore'r 22ain, dywedwyd wrth ferch Barbara y gallai ddod i'r ysbyty i nôl Barbara. Unwaith eto fe gododd ei phryderon am y diffyg asesiad. Tua hanner dydd, cafodd wybod bod Barbara yn cael gadael yr ysbyty ac y dylai fynd â hi i swyddfa'r Tîm Crisis ar gyfer ei hasesiad. Eglurodd ei merch y byddai yn rhaid iddi fynd a'i gŵr, oedd ag Alzheimer's, gyda hi felly cafodd wybod y byddai'r asesiad yn digwydd yn yr ysbyty. Cysylltodd y nyrs ar y ward gyda'r Tîm Crisis gan egluro nad oedd yn bosib i Barbara fynd atynt: fe wnaethant gytuno i ddod i weld Barbara ar y ward.

2.2.51 Yn nes ymlaen y diwrnod hwnnw, daeth y Tîm Crisis i weld Barbara gan gofnodi ei bod wedi sylweddoli y bu bron iddi farw. Nodwyd bod ei hwyliau wedi gwella a dywedodd fod angen i bethau newid adref, roedd yn benderfynol fod hyn yn mynd i ddigwydd. Dywedodd fod ei gŵr wedi mynd yn ddiog dros yr 20 mlynedd diwethaf ac roedd wedi ei thrin hi fel 'doormat'. Dywedodd na fyddai hyn yn digwydd eto. Yn ystod yr ymgynghoriad yma, gwadodd unrhyw syniadau am hunanladdiad a phroblemau gydag alcohol. Trafodwyd ei defnydd o alcohol. Dywedodd y byddai'n prynu potel o win ar ddydd Llun ac y byddai hon yn parhau drwy'r wythnos gyfan. Dywedodd fod ei gŵr yn yfed 3 potel yr wythnos. Nodwyd bod galw pethau i gof yn araf, heb unrhyw newid Pan ofynnwyd iddi am y pryderon a godwyd gan ei merch, dywedodd iddi gael ffrae gyda'i gŵr ac iddi ddal cyllell i'w frest, ond nid oedd ganddi unrhyw fwriad i'w drywanu. Dywedodd ei fod wedi cipio'r gyllell oddi arni. Gwadodd ei bod yn gwybod dim am geisio cynnau tân yn y byngalo. Cofnodwyd ei bod yn ffit i fynd adref ac fe gafodd ei chyfeirio i Dîm 1 Triniaeth Iechyd Meddwl Cymunedol (MHCT1) fel dilyniant.

2.2.52 Ystyriwyd bod Barbara yn ffit i adael yr ysbyty yn dilyn asesiad y Tîm Crisis. Cyn iddi fynd i nôl Barbara, cafodd ei merch alwad ffôn gan y Tîm Crisis. Rhoddodd hawl i'r nyrs ddatgelu gwybodaeth am iechyd ei mam, y digwyddiad gyda'r gyllell, y can petrol a George yn gorfod gosod larymau ffisegol fel ei fod yn gwybod pan roedd hi allan o'r gwely oherwydd ei ofn, ei ddiffyg cwsg ac anallu i ymdopi, â'i hamgylchiadau personol. Dywedodd hefyd na fedrai ddarparu amgylchedd diogel i Barbara a George. Wedi hyn cafodd alwad gan y Tîm Crisis, gan siarad am tua 20 munud ynglŷn â pham roedd y Tîm Crisis yn credu bod Barbara yn ddiogel i ddod adref, a pham nad oedd unrhyw bryderon iechyd meddwl. Dywedodd hi: "*in my 30 years' experience of dealing with domestic incidents, one or other of them is going to end up dead, whether deliberate, accidental or in self-defence".* Mae'r ferch yn adrodd iddo ddweud: "*this is how people of that generation live. It is normal. They may not be happy with their lives, but they stay"*. Pan sylweddolodd bod hon yn frwydr nad oedd yn mynd i'w hennill, gofynnodd am gymorth. Mae'n cofio iddi gael gwybod: *"well that will have to come from the council, not us, not our remit, I'll submit a form, it will take a while to come through".*

2.2.53 Ar 22 Hydref, derbyniodd y Meddyg Teulu lythyr gadael o'r ysbyty mewn perthynas â gorddos Barbara. Nodwyd mai dyma oedd yr ymdrech gyntaf iddi ladd ei hun drwy ddefnyddio co-codamol. Gofynnwyd i'r Meddyg Teulu yn y llythyr i ddilyn y mater i fyny o ran yr adolygiad iechyd meddwl. Cofnodwyd y wybodaeth am ddefnyddio cyllell ar George gan MCHT1, ond ni rannwyd hyn gyda'r Meddyg Teulu.

2.2.54 Ar 23 Hydref, uwchlwythodd y Meddyg Teulu'r atgyfeiriad i MHCT1 i gofnod Barbara. Ar yr un diwrnod cysylltodd MCHT1 gyda merch Barbara. Rhoddodd wybod iddynt am broblemau Barbara a gwnaed apwyntiad iddi am 12.00 pm ar 24 Hydref. Cytunwyd y byddai ei merch yn eistedd i fewn yn yr ymweliad cyntaf, ond ni wnaeth eistedd i fewn mewn unrhyw ymweliadau pellach, gan nad oedd yn dymuno amharu ar y cyswllt.

2.2.55 Cynhaliodd yr MCHT1 yr asesiad cychwynnol gyda Barbara ar 23 Hydref a pharhaodd dan eu gofal tan 27 Tachwedd. Yn ei datganiad i'r heddlu, dywedodd y nyrs seiciatrig bod Barbara wedi gwisgo yn briodol a bod y byngalo yn lân a thaclus. Dywedodd fod Barbara yn ymddangos wedi ymlacio trwy gydol y cyfarfod. Disgrifiodd ei hwyliau fel 4 allan o 10 ar y diwrnod hwnnw ond ychydig cyn ei gorddos, roedd yn 3 allan o 10. Dywedodd bod ei chwsg wedi gwella ychydig ers iddi adael yr ysbyty, ond nid oedd yn bwyta llawer o hyd. Dywedodd mai rhywbeth byrbwyll oedd y gorddos, er hynny roedd peth cynllunio wedi digwydd a dywedodd ei bod yn meddwl ei bod wedi cael yr amseru yn iawn fel na fyddai neb wedi dod o hyd iddi. Dywedodd iddi gymryd y gorddos gan ei bod yn dal dig tuag at ei gŵr ac ansawdd ei bywyd.

2.2.56 Cytunwyd y byddai'r MCHT1 yn ymweld bob yn ail ddiwrnod ar gyfer asesiad parhaus ac i fonitro hwyliau Barbara a'r risg iechyd meddwl.

2.2.57 Daeth y MCHT1 i gartref Barbara ar y 26 a'r 28 o Hydref, a chwblhawyd MSE llawn.

2.2.58 Cynigwyd Asesiad Gofalwr i George gan y MCHT1 ar 28 Hydref, ond gwrthododd y cynnig.

2.2.59 Ar 29 Hydref, cafodd derbynnydd ym meddygfa'r Meddyg Teulu sgwrs ffôn gyda'r nyrsys ardal am ymweliad â Barbara i gael gwaed a manylion cholesterol.

2.2.60 Ar 30 Hydref, derbyniodd y Meddyg Teulu wybodaeth bod prawf gweithrediad afu Barbara yn annormal, a gwnaeth nodyn i gysylltu â hi.

2.2.61 Pan ddaeth y MCHT1 i'w gweld ar 30 Hydref, cydnabyddodd Barbara ei bod angen help gydag iselder, fel y medrai wedyn ddechrau gwneud pethau a wyddai fyddai'n gwella ei bywyd.

2.2.62 Aeth y MCHT1 i ymweld â Barbara yn ei chartref ar 2 a 5 o Dachwedd.

2.2.63 Cafodd Barbara ei chyfeirio gan MCHT1 i'r Tîm Iechyd Meddwl Cymunedol (MHCT3) am ofal eilaidd ar 7 Tachwedd.

2.2.64 Mae merch Barbara yn cofio fod ganddi apwyntiad ar 7 Tachwedd yn yr ysbyty cymunedol gyda'r seiciatrydd. Daeth aelod o'r tîm i'w cyfarfod. Nid oedd Barbara eisiau i'w merch ddod i mewn i'r apwyntiad ac, oherwydd y credai y byddai yn fwy agored ar ei phen ei hun, fe gytunodd hithau i beidio mynd i fewn. Roedd Barbara yn amlwg yn anhapus pan ddaeth allan o'r apwyntiad ac roedd ar fin gadael pan ddaeth y seiciatrydd i'r ystafell aros a gofyn am gael siarad gyda'i merch. Roedd eisiau deall sut roedd pethau o'i hagwedd hi, gan nad oedd wedi cael llawer gan Barbara. Dywedodd ei bod wedi dweud fod yna broblemau priodasol, ac roedd wedi isafu'r digwyddiadau blaenorol. Er hynny, roedd wedi darllen y nodiadau ac felly roedd yn gwybod fod mwy i'r sefyllfa na'r hyn roedd Barbara wedi ei ddatgelu. Dywedodd wrtho sut roedd ei thad wedi trefnu larwm gyda hwfer yn sownd mewn darn o linyn fyddai'n ei ddeffro pan fyddai Barbara yn codi yn y nos. Dywedodd nad oedd George yn cysgu ac roedd yn wirioneddol ofni am ei fywyd. Unwaith eto mynegodd ei phryderon, eglurodd am y sgwrs roedd wedi ei chael gyda'r Tîm Crisis ac eto dywedodd ei bod yn meddwl y byddai hyn yn arwain at farwolaeth un ohonynt.

2.2.65 Eglurodd yntau am y feddyginiaeth roddwyd ar bresgripsiwn i Barbara a sut y credai y byddai yn helpu. Dywedodd unwaith y byddai yn sefydlog, byddai wedyn yn edrych i ddelio gyda'r posibilrwydd o ddementia. Eglurodd hithau ei bod yn cael trafferth i roi'r feddyginiaeth iddi deirgwaith y dydd, roedd felly am adael pecynnau swigod (*blister packs*) gyda hi. Roedd y meddyg yn bryderus am hyn ac fe gytunodd i gyfyngu faint o feddyginiaeth y byddai gan ei mam fynediad atynt, gan hefyd edrych ar ôl meddyginiaeth George.

2.2.66 Ar 7 Tachwedd, derbyniodd y Meddyg Teulu lythyr gan yr ysbyty lleol mewn perthynas â Barbara. Roedd yn nodi ei bod yn profi iselder difrifol.

2.2.67 Pan gyfarfu Barbara â'r nyrs seiciatrig o'r MCHT1 ar 9 Tachwedd, dywedodd y gofynnwyd iddi symud i ogledd Cymru i helpu ei merch i edrych ar ôl ei gŵr. Er hynny, roedd ei deulu ef hefyd wedi symud i'r pentref ac felly roedd yn teimlo nad oedd ei hangen a dywedodd mai'r unig beth roedd yn ei wneud oedd edrych ar ôl y cŵn.

2.2.68 Aeth y MCHT1 i ymweld â Barbara yn ei chartref ar 11 o Dachwedd a chwblhawyd MSE llawn.

2.2.69 Ar 15 Tachwedd, derbyniodd y Meddyg Teulu ganlyniadau'r prawf oedd yn dangos bod prawf gweithrediad afu Barbara yn annormal, a nodwyd bod angen cysylltu â hi. Aeth y MCHT1 â'r feddyginiaeth i gartref Barbara.

2.2.70 Ar 18 Tachwedd, fe wnaeth Barbara ganslo ymweliad yr MCHT1 gan fod ganddi feigryn. Ffoniodd y nyrs seiciatreg ei merch i wneud yn sicr bod hyn yn gywir. Dywedodd ei merch wrth y nyrs bod ei mam a'i thad wedi cael sawl dadl yn y gorffennol, felly nid oedd y sefyllfa bresennol yn newydd. Dywedodd fod ei mam yn dueddol o edrych ar y gorffennol fel petai popeth yn berffaith bryd hynny. Trefnwyd iddi alw ar y diwrnod canlynol. Mae merch Barbara yn cofio iddi egluro fod Barbara wedi cymryd rheolaeth yn ôl dros y coginio a'r glanhau gan George. Disgrifiodd Barbara fel person rheolgar ac ystrywgar (*manipulative*).

2.2.71 Drannoeth, fodd bynnag, roedd y nyrs seiciatreg ar ei hôl hi o ran amser ac fe ffoniodd merch Barbara i adael iddi wybod y byddai'n hwyr. Cafodd wybod fod Barbara wedi bod mewn dosbarth cadw'n heini ac roedd yn ymddangos yn llawer gwell, felly cytunwyd na fyddai'r ymweliad yn digwydd y diwrnod hwnnw.

2.2.72 Aeth Barbara i glinig cleifion allanol y Tîm Iechyd Meddwl Cymunedol (MHCT2) ar 26 Tachwedd, a chytunwyd y byddai'r achos yn cael ei gau i'r MCHT1.

2.2.73 Ar 27 Tachwedd, cafodd y Meddyg Teulu lythyrau anfon adref o'r ysbyty mewn perthynas â Barbara o'r ysbyty cyffredinol a'r MHCT2 yn yr Uned Iechyd Meddwl Aciwt.

2.2.74 Ymwelodd y nyrs seiciatreg o'r MCHT1 â Barbara ar 27 Tachwedd. Dywedodd ei bod wedi parhau i fynychu'r dosbarthu ymarfer syml yn y pentref. Dywedodd ei bod yn credu iddi brofi dwy TIAs (strôc fach) a nodwyd bod ochr dde ei wyneb i weld wedi disgyn. Pan ofynnwyd iddi os oedd wedi gweld y Meddyg Teulu, dywedodd nad oedd unrhyw bwynt gan ei bod eisoes yn cymryd asprin. Yn ystod y sgwrs yma dywedodd Barbara nad oedd yn profi unrhyw syniadau am hunanladdiad, ond roedd hyn yn bennaf gan ei bod yn poeni y byddai pethau yn mynd o chwith ac fe fyddai mewn gwaeth sefyllfa nag yr oedd o'r blaen. Nid oedd y nyrs yn teimlo ei bod angen triniaeth MCHT1 dwys ac felly gellid ei rhyddhau i reolwr gofal. Dywedwyd wrthi y byddai rhywun mewn cysylltiad efo hi.

2.2.75 Ar ôl yr ymweliad, dywedodd Barbara wrth ei merch ei bod wedi gwneud apwyntiad i weld y Meddyg Teulu. Yn nes ymlaen y diwrnod hwnnw fe wnaeth y Meddyg Teulu roi archwiliad meddygol i Barbara ac roedd yn amau ei bod wedi dioddef strôc. Aed â hi i'r ysbyty cyffredinol. Bu yn yr Ysbyty am lai na 24 awr a chafodd adael ar ôl cael diagnosis o Bell's Palsy. Roedd i gael sgan MRI fel claf allanol ac i gael ei gweld gan y meddyg yn y clinig. Bu farw Barbara cyn iddi gael yr apwyntiad dilynol yma.

2.2.76 Pan roedd yn yr ysbyty, datgelodd Barbara ei bod wedi cael meddyliau am hunanladdiad yn y gorffennol, ond roedd yn cael cymorth seicolegol drwy MHCT3. Nodwyd ei bod yn *'positive and motivated'* a dywedodd ei bod am wneud mwy, fel dosbarthiadau cadw'n heini, cerdded a bingo. Mynegodd ddymuniad i ddychwelyd adref ac i fod yn annibynnol. Ni ddatgelodd ddim am gam-drin domestig.

2.2.77 Ar 29 Tachwedd, hysbyswyd meddygfa'r meddyg teulu ei bod wedi gadael yr ysbyty a bod y sgan CT o'i hymennydd yn normal.

2.2.78 Ar 3 Rhagfyr, ceisiodd cymhorthydd gofal iechyd ym meddygfa'r Meddyg Teulu ffonio merch Barbara am feddyginiaeth ei mam. Gadawodd neges iddi ffonio'n ôl.

2.2.79 Ar y diwrnod hwn ymwelodd y MCHT1. Dywedodd merch Barbara wrth yr adolygiad iddi fynd â'i gŵr i apwyntiad meddygol ac fel roeddent yn gadael yr apwyntiad fe welodd y gweithiwr Gofal Cartref ac arhosodd i siarad gyda hi. Gofynnodd os oedd unrhyw ddiweddariad am y CPN, gan fod ei mam yn dirywio. Disgrifiodd y gweithiwr gofal Barbara fel *'very child like'* o ran ei hymddygiad ac yn *'extremely controlling, not allowing your dad to do anything because he does it wrong'*. Dywedodd hefyd: *'your dad is not allowed to speak and clearly has mental health issues of his own, along with his mobility. We have tried to speak to him on his own, but she would not allow it'.*

2.2.80 Ar 4 Rhagfyr, ymwelodd gweithiwr cymdeithasol o Gyngor Gwynedd â George gyda'r bwriad o gynnal Asesiad Gofalwr. Roedd George adref ar ei ben ei hun gan fod Barbara yn cael trin ei gwallt. Nid oedd gan George unrhyw ddiddordeb mewn bwrw ymlaen gyda'r asesiad. Dywedodd ei fod yn *'waste of time'* a bod *'no need'*. Dywedodd fod pethau yn well rhyngddo ef a Barbara. Gadawodd y gweithiwr cymdeithasol amryw o daflenni iddo gan adael ar ôl 10 munud.

2.2.81 Ar 7 Rhagfyr, cafodd Barbara ei sgan MRI ac roedd i fod i weld seiciatrydd ar y 12fed ond gan fod y seiciatrydd yn sâl, gohiriwyd hyn.

2.2.82 Cafodd Barbara archwiliad meddygol cyffredinol ym meddygfa'r Meddyg Teulu ar 11 Rhagfyr. Nodwyd ei bod yn yfed 2 uned o alcohol bob wythnos.

2.2.83 Ar 11 Rhagfyr, cafodd George adolygiad diabetes ym meddygfa'r Meddyg Teulu. Trafodwyd ei bwysau, a dywedodd ei fod yn yfed 6 uned o alcohol yr wythnos.

2.2.84 Gwelodd George y Meddyg Teulu ar 17 Rhagfyr oherwydd brech alergaidd: cafodd bresgripsiwn ar gyfer hyn.

2.2.85 Fe wnaeth Barbara weld ei Meddyg Teulu gyda'i merch ar 17 Rhagfyr pan drafodwyd ei phresgripsiwn. Nodwyd bod ganddi apwyntiad gyda'r seiciatrydd, ond fod hwn wedi ei ganslo a'i symud i'r Flwyddyn Newydd.

2.2.86 Ar 24 Rhagfyr, siaradodd Cydlynydd Gofal Eilaidd MHCT3 gyda Barbara ar y ffôn gan drefnu ymweliad cartref ar 7 Ionawr 2020.

2.2.87 Bu farw Barbara ar 25 Rhagfyr.

# Adran Tri - Dadansoddiad Manwl o Ran yr Asiantaeth

Mae'r gronoleg a amlinellir yn Adran 2 yn manylu ar y wybodaeth a oedd yn hysbys i asiantaethau cysylltiedig. Mae'r adran hon yn crynhoi crynswth y wybodaeth a oedd yn hysbys i asiantaethau ac yn dadansoddi eu cysylltiad.

3.1 **CANNOCK CHASE CLINICAL COMMISSIONING GROUP ar ran y Meddyg Teulu yn Swydd Stafford**

3.1.1 **Barbara**

3.1.1.1 Roedd Barbara wedi cofrestru gyda'r feddygfa tan iddi symud ym mis Awst 2018. Roedd ganddi nifer o gyflyrau iechyd cronig, yn cynnwys problemau gynaecolegol, problemau gastrig, problemau cyhyr-ysgerbydol, clefyd siwgr math 2, meigryn rheolaidd, *'essential hypertension'*, angina, cataractau, a *hiatus hernia*, ac roedd yn derbyn triniaeth gan y feddygfa ar gyfer y cwbl. Mae effaith y cyflyrau hyn ar fywyd bob dydd Barbara a'u heffaith posibl ar berthnasau yn cael ei drafod ymhellach yn 4.6 yn yr adroddiad hwn.

3.1.1.2 Dengys cofnodion ei bod wedi gofyn am gyngor meddygol yn amserol ac wedi hwyluso ymgynghoriadau arbenigol drwy dalu am apwyntiadau gydag ymgynghorydd preifat. Mynychodd ei holl apwyntiadau sgrinio a brechu arferol a derbyniodd yr arweiniad a'r gefnogaeth briodol o ran bwyta'n iach, yfed, ymarfer corff a rheoli pwysau.

3.1.1.3 Roedd y cofnod cyntaf o Barbara yn bryderus am ei gweithrediad gwybyddol yn 2015, a oedd wedi deillio o haint y llwybr wrinol. Cafodd haint arall yn 2016 ac adroddwyd am y dryswch gan ei merch. Yn ystod adolygiad blynyddol ei chyflyrau hirdymor, cafodd ei chof ei asesu ac fe'i cofnodwyd yn y cofnodion: ni chafodd unrhyw bryderon clinigol eu nodi.

3.1.1.4 **Mehefin 2017**

3.1.1.5 Cwblhawyd y prawf gwybyddol olaf yn ystod ymgynghoriad pan ddaeth merch Barbara gyda hi, a oedd yn bryderus am gof ei mam. Cwblhaodd y Meddyg Teulu asesiad yn defnyddio Asesiad Gwybyddol Meddyg Teulu (GPCOG), lle sgoriodd farciau llawn, felly ni amlygwyd unrhyw amhariad. Rhoddwyd tawelwch meddwl i Barbara a'i merch gan y Meddyg Teulu ac fe'i cynghorodd i wneud apwyntiad arall os oedd ganddynt unrhyw bryderon pellach. Yn ystod yr ymgynghoriad, mae cofnodion y Meddyg Teulu yn nodi fod Barbara yn meddwl nad oedd dim o'i le. Er bod nodyn nad oedd ei merch yn cytuno, ni chafodd manylion y pryderon hyn eu cofnodi.

**Mae awdur yr Adolygiad Rheoli Unigol (IMR) yn nodi fod y cofnodion yn cynnwys gwybodaeth berthnasol, ond nid oes dim i awgrymu bod yr anghydfod hwn rhwng Barbara a'i merch wedi cael ei archwilio ymhellach.**

**Yn sgil yr achos hwn, cynghorir yr adolygiad bod y Grŵp Comisiynu Clinigol wedi cynnal sesiwn arferion myfyriol gyda'r feddygfa. Canolbwyntiodd y sesiwn hwn ar ddefnyddio chwilfrydedd proffesiynol pan oedd pryderon yn cael eu codi gan deuluoedd, yn cynnwys cyfle i siarad â'r claf ar ei ben ei hun. Roedd y sesiwn hefyd yn annog staff i ystyried y potensial am orfodaeth a rheolaeth o'r claf.**

3.1.1.6 Yn 2018, cafodd Barbara ei gweld ar ddau achlysur gan fod ei meigrynau wedi codi eto, a oedd yn achosi diffyg cwsg. Roedd mewn cyflwr dagreuol ac yn dweud ei bod yn teimlo'n

hynod flinedig. Trafodwyd ei hiechyd corfforol a meddyliol gyda hi. Yn yr apwyntiad ar 22 Mai 2018, nid oedd ganddi feddyliau am hunanladdiad na hunan-niwed na symptomau gwylltineb, ond roedd yn colli pwysau a ddim yn cysgu. Cafodd bresgripsiwn am ddos isel o dabledi cysgu am saith diwrnod. Trefnwyd sgan MRI yn ogystal ag apwyntiad dilynol. Cafodd gyngor ar sut i gael sylw ar frys yn y cyfamser os byddai ei angen. Ni ddangosodd y sgan MRI unrhyw annormaleddau.

**Roedd cofnodion y Meddyg Teulu yn glir am ganlyniad y sgan hwn. Fodd bynnag, nid oedd merch Barbara yn cytuno â'r farn feddygol hon.**

3.1.1.7 **Gorffennaf 2018**

3.1.1.8 Cafodd Barbara ei gweld gan y feddygfa ar gyfer ei hadolygiad clefyd siwgr blynyddol. Roedd ganddi reolaeth dda o'i chlefyd siwgr. Cafodd gyngor ar fwyta'n iach, yfed alcohol ac ymarfer corff. Roedd ei phrofion gwaed o fewn yr ystod normal ac adroddodd ei bod yn yfed 7 uned o alcohol bob wythnos, ac nid oedd hyn yn bryder. Cwblhawyd sgôr iselder ac ni ddangosodd unrhyw dystiolaeth o iselder. Yn ystod yr ymgynghoriad, dywedodd ei bod yn symud i Gymru ond nid oedd unrhyw beth i awgrymu fod hyn yn bryder.

3.1.2 **George**

3.1.2.1 Roedd gan George hanes o gyflyrau iechyd cronig, yn cynnwys clefyd siwgr math 2, *'essential hypertension'*, ffibriliad atrïaidd, niwralgia trigeminol a chlefyd cildroadol. Mae effaith y cyflyrau hyn ar fywyd bob dydd George yn cael ei drafod ymhellach yn 4.6 yn yr adroddiad hwn.

3.1.2.2 Roedd George yn gofyn am gyngor meddygol yn amserol ac wedi hwyluso ymgynghoriadau arbenigol drwy dalu am apwyntiadau gydag ymgynghorydd preifat. Mynychodd ei holl apwyntiadau sgrinio a brechu arferol a derbyniodd yr arweiniad a'r gefnogaeth briodol o ran bwyta'n iach, yfed, ymarfer corff a rheoli pwysau.

3.1.2.3 **Mawrth 2018**

3.1.2.4 Cafodd George ei adolygiad clefyd siwgr blynyddol a nodwyd bod ganddo reolaeth dda o'i glefyd siwgr. Cafodd gyngor ar alcohol ac ymarfer corff. Adroddodd ei fod yn yfed 24 uned o alcohol bob wythnos (a oedd uwchben y lefel a argymhellir o 14 uned yr wythnos), ond nid oedd ei brofion gwaed yn dangos fod hyn yn effeithio ar weithrediad ei afu. Cwblhawyd sgôr iselder ac ni ddangosodd unrhyw arwyddion o iselder.

**Nododd awdur yr ARhU/IMR fod George wedi adrodd lefel uwch o yfed alcohol na'r hyn oedd yn cael ei argymell ers blynyddoedd. Er bod cyngor wedi'i roi ar ffordd o fyw, nid oes unrhyw dystiolaeth fod unrhyw archwiliad neu her bellach wedi'i gynnal. Er bod y swm a ddatgelwyd yn dangos defnydd cymedrol ar derfyn bod yn niweidiol, noda'r adolygiad nad oedd ei brofion gwaed yn dangos niwed ffisiolegol.**

3.1.2.5 Nid oes unrhyw gofnod o unrhyw bryderon am weithrediad gwybyddol George drwy gydol ei gofnodion. O ganlyniad i niwralgia trigeminol yn ail-godi ym mis Gorffennaf 2018, cwblhawyd sgan ar yr ymennydd a ddaeth yn ôl yn normal: trafododd hyn mewn ymgynghoriad wyneb yn wyneb gyda'i feddyg teulu. Yn yr apwyntiad hwn, cynghorodd y Meddyg Teulu ei fod yn symud i Gymru: ni chofnodwyd unrhyw bryderon am hyn.

**Yn sgil yr achos hwn, cynghorir yr adolygiad bod y Grŵp Comisiynu Clinigol wedi cynnal sesiwn arferion myfyriol gyda'r feddygfa a archwiliodd yr angen i roi mwy o ystyriaeth mewn adolygiadau blynyddol, yn cynnwys archwilio defnydd gormodol o alcohol a'r cysylltiadau ag iechyd meddwl a cham-drin domestig, a chofnodi hyn yn y cofnodion.**

3.2 **BWRDD IECHYD PRIFYSGOL BETSI CADWALADR (BIPBC) ar ran y Meddyg Teulu yng Ngogledd Cymru**

3.2.1 Cofrestrodd Barbara a George mewn meddygfa leol ar 23 Awst 2018. Yn ystod 2019, cafodd Barbara ddau ymgynghoriad a chafodd George un: y ddau ohonyn nhw drefnodd yr ymgynghoriadau. Roedd yr ymgynghoriadau eraill yn rhan o'r ymgysylltiad gofal sylfaenol a'r monitro arferol. Mae'r adolygiad hefyd yn nodi bod eu clefyd siwgr a chyflyrau eraill yn cael eu monitro yn rheolaidd. ***Dyma enghraifft o arfer da.***

3.2.2 Ar yr adegau pan gawsant eu gweld, ymddengys fod y gofal priodol wedi'i roi iddynt.

| |
|---|
| Mae'r adolygiad yn nodi nad oedd ymholiad wedi'i dargedu gyda Barbara na George ynglŷn â cham-drin domestig. Roedd Barbara wedi datgelu iselder, colli pwysau sylweddol a'i bod wedi ceisio cymryd ei bywyd ei hun. Hyd yn oed ar ôl derbyn gwybodaeth am ymgais Barbara i gymryd ei bywyd ei hun, nid oes cofnod o drafodaethau gyda Barbara na George am eu perthynas a/neu amgylchedd cartref. |

**Mae'r adolygiad yn nodi nad oes unrhyw gofnod mewn perthynas â'r feddygfa yn cwblhau sesiwn briffio *SaveLives Pathfinder*. Mae'r sesiwn briffio hwn yn amlygu pwysigrwydd gwneud Ymholiad Arferol Cam-drin Domestig (RE DA), lle mae staff rheng-flaen yn gofyn i bob defnyddiwr gwasanaeth am eu profiad o gam-drin domestig, p'un a oes arwyddion neu amheuaeth o gamdriniaeth neu beidio.**

<u>**Argymhelliad 1**</u>
**Argymhellir bod BIPBC yn sicrhau bod y wybodaeth ddeddfwriaethol berthnasol ar Ddeddf Trais yn Erbyn Merched, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (VAWDASV) a'r Weithdrefn Defnyddwyr Gwasanaeth VAWDASV yn cael ei rhannu ymhlith yr holl feddygfeydd Meddyg Teulu yng ngogledd Cymru.**

<u>**Argymhelliad 2**</u>
**Argymhellir bod BIPBC yn sicrhau bod hyfforddiant ynghylch cam-drin domestig ar gael i'r holl feddygfeydd Meddygon Teulu yng ngogledd Cymru, ac yn ceisio sicrwydd gan reolwyr meddygfeydd ynglŷn â chydymffurfiaeth â'r hyfforddiant.**

<u>**Argymhelliad 3**</u>
**Argymhellir bod BIPBC yn adolygu dogfennau'r Tîm Aml-Ddisgyblaethol (MDT) i sicrhau bod ystyriaeth i ymgysylltu'n ehangach â gwasanaethau er mwyn adnabod llwybr cyfathrebu clir rhwng gwasanaethau Iechyd Meddwl ac Anabledd Dysgu (IMAD) a meddygfeydd.**

3.3 **BWRDD IECHYD PRIFYSGOL BETSI CADWALADR (BIPBC) - Tîm Iechyd Meddwl Cymunedol 1**

3.3.1 Mae Tîm Iechyd Meddwl Cymunedol 1 (MHCT1) yn cynnwys nyrsys seiciatrig a Gweithwyr Triniaeth Cefnogi ac Adferiad (STAR). Mae'r tîm yn darparu cefnogaeth ddwys ar gyfer cleifion ac yn gallu hwyluso trefniadau i adael yr ysbyty yn gynt.

3.3.2 Yn dilyn ei gorddos ar 7 Hydref 2019, cafodd Barbara asesiad cychwynnol gyda MHCT1 ar 23 Hydref. Cwblhawyd rhan 'A' o Fesur Iechyd Meddwl Cymru yn ogystal â Rhan B, sef Fformiwleiddiad Risg. Cynhaliwyd yr asesiad cychwynnol gartref gyda'i theulu cyfan yn bresennol.

3.3.3 Roedd Barbara dan ofal MHCT1 o 22 Hydref tan 27 Tachwedd. Yr adeg honno, cafwyd 11 ymweliad â'r cartref, pum galwad ffôn ac un apwyntiad yn y clinig cleifion allanol. Cynigwyd Asesiad Gofalwr i George ar 28 Tachwedd ond gwrthododd y cynnig. Yn ystod yr ymweliadau hyn, roedd staff yn monitro effeithiolrwydd ei meddyginiaeth ac yn darparu gwybodaeth ar ymlacio a hylendid cwsg. Rhoddwyd gwybodaeth iddi am wasanaethau eraill megis y Samariaid, dosbarthiadau ymarfer corff a dosbarth Meddylgarwch. Archwiliwyd dynameg perthynas Barbara gyda'i merch. ***Dan ddeddfwriaeth bresennol, pennir bod hyn yn arfer dda.***

3.3.4 Cafodd cyfeiriad at y Tîm Iechyd Meddwl Cymunedol (MHCT3) ei wneud am ofal eilaidd ar 7 Tachwedd. Ar 24 Rhagfyr, cafodd Barbara alwad ffôn gan Gydlynydd Gofal Eilaidd i wneud apwyntiad ar gyfer ymweliad ar 7 Ionawr 2020.

3.3.5 Yn ystod yr ymweliadau cychwynnol, roedd Barbara, gyda'i gŵr a'i merch yn bresennol, wedi datgelu digwyddiad lle'r oedd wedi procio George gyda chyllell yn ei frest, er na rannwyd unrhyw ddyddiad na gwybodaeth bellach am y digwyddiad hwn ar y pryd.

**Er bod gofal a thriniaeth briodol wedi'i darparu gan staff yn gweithio i BIPBC yn ystod eu cyswllt â Barbara, nid oes unrhyw dystiolaeth i awgrymu bod ystyriaeth wedi'i roi i gam-drin domestig posib. Ni chafodd asesiad Ymholiad Arferol Cam-drin Domestig (RE DA) ei wneud. Mae Hyfforddiant Ymwybyddiaeth Cam-drin Domestig wedi'i gynnwys mewn hyfforddiant mandadol ar draws BIPBC am oddeutu deng mlynedd. Mewn Dogfennaeth Iechyd Meddwl ac Anabledd Dysgu, mae asesiadau RE DA a dogfennaeth HITS Cam-drin Domestig wedi'u cynnwys ym Mesur Iechyd Meddwl 1 a 2 ers oddeutu 2012. Yn dilyn hyn, caiff staff eu hyfforddi i wneud ymholiadau arferol yn defnyddio'r teclyn HITS, rhestr wirio dangosydd risg *SAFELives* a chyfeirio at Gynadleddau Asesu Risg Aml-Asiantaethol (MARAC).**

3.3.6 Cyfeiriwyd Barbara at MCHT1 gan yr ysbyty cyffredinol. Ni amlygodd y cyfeiriad hwn fod HITS Matrics wedi'i gwblhau mewn asesiad cychwynnol yn dilyn y gorddos, nac wedi dangos bod unrhyw sgwrs wedi'i chael am gam-drin domestig.

**Mae'r adolygiad yn derbyn nad oedd unrhyw dystiolaeth i awgrymu fod Barbara yn ddioddefwr cam-drin domestig, ond mae hyn yn seiliedig ar y dybiaeth na chyflwynodd gydag unrhyw anafiadau nac wedi adrodd wrth y rhai oedd yn ymwneud â'i gofal a'i chefnogaeth.**

**Ychydig iawn a wyddys am hanes meddygol a seicolegol Barbara, oherwydd ei bod newydd symud i'r ardal yn weddol ddiweddar. Datgelodd yr unigedd cymdeithasol, colli rôl a thymer isel oedd wedi'i harwain i gymryd gorddos, ond ni wnaethpwyd unrhyw ymholiadau gan y MCHT1 mewn perthynas ag unrhyw hanes meddygol neu seicolegol blaenorol.**

**Argymhelliad 4**
**Argymhellir bod BIPBC yn sicrhau archwiliadau chwarterol rheolaidd o'r cofnodion clinigol mewn perthynas â'r targedau cam-drin domestig allweddol.**

**Argymhelliad 5**
**Argymhellir bod BIPBC yn diweddaru ac yn hwyluso hyfforddiant diogelu Lefel 3 ar draws gwasanaethau IMAD mewn perthynas â deddfwriaeth ac ymarfer cam-drin domestig.**

**Argymhelliad 6**
**Argymhellir bod BIPBC yn sicrhau bod yr holl wybodaeth ddeddfwriaethol berthnasol ar VAWDASV a'r Weithdrefn Defnyddwyr Gwasanaeth VAWDASV yn cael ei rhannu ar draws yr holl wasanaethau IMAD.**

**Argymhelliad 7**
**Argymhellir bod BIPBC yn adolygu dogfennau'r Tîm Aml-Ddisgyblaethol i sicrhau bod ystyriaeth i ymgysylltu'n ehangach â gwasanaethau er mwyn adnabod llwybr cyfathrebu clir rhwng gwasanaethau IMAD a meddygfeydd.**

3.4 **BWRDD IECHYD PRIFYSGOL HYWEL DDA ar ran yr ysbyty cyffredinol**

3.4.1 Aeth Barbara i'r ysbyty cyffredinol ym mis Hydref 2019 yn dilyn ei gorddos. Tra'r oedd yn yr ysbyty, siaradodd y meddyg â'i merch; rhoddodd wybod i'r meddyg am y *'recent troubles at home'*. Yn anffodus, ni lwyddwyd i siarad â'r meddyg fel rhan o'r adolygiad gan ei fod bellach wedi gadael y sefydliad. Gellir dadansoddi'r datgeliad hwn yn eang ac nid oedd Barbara yn ddigon da i allu ei holi am hyn.

**Mae'r adolygiad yn derbyn nad oedd unrhyw dystiolaeth ar y cam hwn fod Barbara yn ddioddefwr cam-drin domestig na'i bod wedi ceisio niweidio ei gŵr. Y flaenoriaeth ar yr adeg hon, yn gwbl briodol, oedd rheoli ei chyflwr clinigol gwael.**

3.4.2 Pan wnaeth yr ymgynghorydd tu allan i oriau gymryd achos Barbara drosodd am 9pm, cofnododd fod merch Barbara wedi rhoi gwybod iddo fod gan ei mam amhariad gwybyddol gwaelodlin a'i bod yn dechrau mynd fel ei gŵr (mae ganddo Alzheimer)[18]. Dywedodd wrtho hefyd, wythnos yn ôl, pan roedd ei mam yn feddw iddi siarad am hunanladdiad. Nid wnaed unrhyw ddatgeliadau am gam-drin na thrais tuag at Barbara na George.

3.4.3 Wrth ei hadolygu mewn ymateb i fethiant ei hafu, nododd yr ymgynghorydd na siaradodd â Barbara pam ei bod eisiau marw, ond roedd yn bryderus am ei syniadaeth am hunanladdiad yng nghyd-destun ei bod yn gymwys am drawsblaniad iau. Dywedodd wrth awdur yr ARhU ei fod yn credu y dylai'r Tîm Crisis weld cleifion, yn benodol gyda gorddos parasetamol, yn gynt na'r adeg maent yn feddygol iach i adael yr ysbyty, oherwydd yr angen i ystyried cyfeiriad am drawsblaniad iau. Fel y nodir eisoes, un o'r meini prawf am drawsblaniad iau yw'r dyhead i ddal i fyw.

[18]Mae Awdur yr Adroddiad wedi siarad â merch Barbara ac wedi cadarnhau fod hyn wedi'i gofnodi'n anghywir a'i bod yn cyfeirio at ei gŵr, nid ei thad

Cynghorwyd awdur yr ARhU gan y Tîm Crisis mai un o'r meini prawf ar gyfer cyfeiriad i'r Tîm Crisis yw bod y person yn feddygol iach i adael yr ysbyty. Wedi dweud hynny, gellir cyfeirio cleifion yn gynt i seiciatrydd am asesiad os yw clinigwyr aciwt yn bryderus am iechyd meddwl y claf. Yn yr achos hwn, roedd y meddyg yn glir iawn fod Barbara eisiau diweddu ei bywyd ac felly, gellir dadlau y dylai fod wedi cael ei chyfeirio yn gynt.

3.4.4 Nid yw'r meddyg oedd yn rhan o'r digwyddiad hwn yn cofio unrhyw ddatgeliad am gam-drin domestig ac ni chafodd dim ei gofnodi.

3.4.5 Yn ystod y cyfnod pan oedd Barbara yn yr ysbyty, roedd ei merch yn ymweld yn rheolaidd. Mae staff a gafodd eu cyfweld gan awdur yr ARhU yn cofio gweld mab yng nghyfraith Barbara ond does neb yn cofio gweld George. Deallwyd nad ymddangosodd fod George yn bresennol. Caiff ei grybwyll unwaith yn y cofnodion, ar 10 Hydref, pan gafwyd trafodaeth gyda merch Barbara, yn hwyr yn y prynhawn, a chafodd wybod bod ei mam yn debygol o ddirywio: nododd ei bod eisiau mynd â'i thad adref.[19] Felly, nid yw awdur yr ARhU wedi gallu canfod unrhyw sylwadau am eu perthynas, ei wendidau na rhyngweithiadau yn ystod yr amser hwnnw.

3.4.6 Cynghorir yr adolygiad bod y cofnodion meddygol yn manylu ar sgyrsiau rheolaidd gyda merch Barbara ynglŷn â chyflwr meddygol ei mam. Fodd bynnag, noda awdur yr ARhU na ddatgelodd y digwyddiadau hanesyddol oedd yn ymwneud â'i mam nes iddi adael yr ysbyty a chael asesiad dilynol gan y Tîm Crisis, oedd yn cynnwys dal cyllell yn erbyn George a chwilio am gan petrol i roi'r byngalo ar dân.

**Mae'r adolygiad yn ystyried fod hyn yn ddealladwy o ystyried, tan hynny, fod merch Barbara yn credu nad oedd ei mam yn mynd i oroesi ac felly, dywedodd wrth yr adolygiad na fyddai hyn wedi bod ar flaen ei meddwl.**

**Mae'r adolygiad yn cytuno gydag awdur yr IMR fod yna ddiffyg chwilfrydedd proffesiynol amlwg i ofyn i ferch Barbara beth oedd wedi'i wneud mewn perthynas â'r digwyddiadau hyn, a beth oedd yn ei ddisgwyl mewn ymateb i'w datgeliad. Nid oedd cytuno gyda merch Barbara ar y ffôn y byddai'r teulu yn trefnu cefnogaeth gan wasanaethau cymdeithasol yn briodol mewn egwyddor, ond ar ôl i'r datgeliadau ychwanegol gael eu gwneud, roedd cyfrifoldeb ar y ward i gymryd camau pendant. Cytunodd y panel y dylai camau fod wedi'u cymryd ac y dylai cyfeiriad diogelu fod wedi cael ei wneud. Caiff hyn ei drafod mewn mwy o fanylder nes ymlaen yn yr adroddiad.**

**<u>Argymhelliad 8</u>**

**Argymhellir bod y BIP yn cynnal sesiwn ymarfer myfyriol gyda staff yn edrych ar chwilfrydedd proffesiynol pan fo unigolion yn codi pryderon am y camau a gymerwyd a'r disgwyliadau.**

3.4.7 Fe wnaeth y nyrs ar y ward oedd yng ngofal rhyddhau Barbara o'r ysbyty, roi'r wybodaeth hon i'r Tîm Crisis i gyfarwyddo eu hasesiad. Gofynnodd y Nyrs Seiciatrig Cymunedol (CPN), a wnaeth yr asesiad hwn, i Barbara am y digwyddiadau yma. Nododd y CPN na wadodd Barbara ei bod wedi dal cyllell wrth frest ei gŵr, ond nad oedd wedi bwriadu ei frifo a

[19] Pan ddaeth ei thad i ymweld, mae merch Barbara wedi dweud wrth yr adolygiad bod Barbara yn ffwndrus ac wedi gwneud cyhuddiadau annymunol yn ei erbyn ac felly aeth ag ef adref.

dywedodd ei bod wedi'i wneud oherwydd ei rhwystredigaeth. Gwadodd Barbara chwilio am y can petrol i losgi'r byngalo a dywedodd mai rhywbeth a wnaeth George i fyny ydoedd.

> Nododd merch Barbara ei bod wedi canfod ei mam yn chwilio am y can petrol.[20] Dyma gyfle arall lle gallai'r nyrs fod wedi archwilio'r camau a gymerodd.

3.4.8 Mae'r nyrs oedd ynghlwm â rhyddhau Barbara o'r ysbyty yn cofio bod ei merch wedi dweud ei bod wedi siarad â gweithiwr cymdeithasol ei gŵr a ddywedodd y byddai'n trefnu help iddynt. Eglurodd merch Barbara fod y gweithiwr cymdeithasol wedi'u cyfeirio yn hytrach na chytuno i'w drefnu.

> Byddai wedi bod yn arfer gorau i staff gyflwyno MARF er gwaethaf hyn, a rhoi gwybod iddynt am y rheswm dros wneud hynny. Ymddengys bod gorddibyniaeth ar weithwyr proffesiynol eraill, yn hytrach na'r rhai y gwnaed datgeliadau iddynt, i weithredu, asesu'r risgiau a diogelu'r unigolion cysylltiedig.

**Ers marwolaeth Barbara, mae'r adolygiad yn ymwybodol bod BIPHDd wedi diweddaru grŵp 2 'Gofyn a Gweithredu' a hyfforddiant diogelu oedolion lefel 3 i gynnwys cam-drin domestig a phobl hŷn.**

3.4.9 Mae Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn gosod dyletswydd gyfreithiol ar bartneriaid perthnasol i adrodd i awdurdod lleol os amheuir bod oedolyn yn oedolyn mewn perygl. Mae'r ddeddfwriaeth a chanllaw statudol yn caniatáu achos rhesymol i amau fod person yn oedolyn mewn perygl ac mae angen i'r ffaith honno gael ei sefydlu cyn gwneud cyfeiriad[21]. Mae'r canllaw yn glir y dylai ymarferwyr geisio bod yn dryloyw gyda'r bobl maent yn gweithio gyda hwy ynglŷn â'r amgylchiadau lle allai fod angen iddynt rannu gwybodaeth gyda gwasanaethau cymdeithasol neu'r heddlu. Efallai na roddodd Barbara ganiatâd ar gyfer cyfeiriad ond ni ddylai egwyddor cadw cyfrinachedd neu beidio â chael caniatâd arwain at fethiant cymryd camau i ddiogelu oedolion neu eraill rhag camdriniaeth neu niwed.

**Dan Adran 126 (2) y Ddeddf, mae gan yr awdurdod lleol ddyletswydd i wneud ymholiadau os oes amheuaeth resymol fod oedolyn 'mewn perygl' o gamdriniaeth neu niwed. Felly, gallai hyn fod wedi sbarduno asesiad o risg ac anghenion gofal a chefnogaeth wrth adael yr ysbyty i Barbara a George.**

3.4.10 Cynghorwyd awdur yr ARhU/IMR gan y CPN fod gan Barbara, ar adeg gwneud yr asesiad, y gallu i gymryd rhan yn yr asesiad ac er bod ganddi ddirywiad gwybyddol ysgafn, ni ellid profi yn yr asesiad bod y digwyddiad honedig gyda'r can petrol wedi digwydd. Ymhellach, nodwyd bod adroddiad Barbara a'i merch am yfed alcohol Barbara yn wahanol, ac nid oedd yn gallu ei brofi y naill ffordd na'r llall yn yr asesiad.

[20] Nid oedd merch Barbara wedi'i gweld gyda'r can petrol ond dywedwyd wrthi am hyn gan ei thad. Efallai fod y nyrs wedi camddeall.

[21] Working Together to Safeguard People: Volume 6 - Handling Individual Cases to Protect Adults at Risk, 2018

Roedd yr adolygiad yn cytuno nad rôl y CPN oedd dod i farn p'un a allai brofi os oedd y digwyddiad wedi digwydd ai peidio. Yn amlwg, dylai'r wybodaeth fod wedi'i rhannu ar draws y maes diogelu.

**Er bod yr adolygiad yn cydnabod fod merch Barbara yn credu nad oedd ei mam yn mynd i oroesi ac, felly, efallai nad oedd datgelu digwyddiadau rhwng ei rhieni wedi bod yn flaenoriaeth tan oedd yn barod i adael yr ysbyty, pan ddatgelodd y wybodaeth, ni ddigwyddodd y datgeliadau a'r trafodaethau llawn hynny gan Caroline ym mhresenoldeb Barbara. Hefyd, nid oedd barn Barbara am rai o'r digwyddiadau hynny yn gyson â barn ei merch.**

3.4.11 Yn ystod yr asesiad, dywedodd Barbara wrth y CPN bod George ers iddo ymddeol yn gwneud *'nothing'* , a'i bod yn dawnsio tendans arno. Roedd hefyd yn nodi fod angen i bethau newid yn y berthynas. Disgrifiodd ei hun fel petai rywun yn ei sathru dan draed. Nododd y CPN fod ei merch yn croes-ddweud hyn, ond nid o flaen ei mam, a dywedodd fod ei mam wedi dewis gwneud hyn drwy gydol ei bywyd priodasol a'i bod yn gythraul rheoli. Ni ddeallir pam na thrafododd ei phryderon llawn o flaen ei mam[22].

Wrth fyfyrio ar yr asesiad a'r penderfyniad a wnaed ar y pryd, myfyriodd y CPN nad oedd yn glir p'un a oedd George yn oedolyn mewn perygl o gamdriniaeth neu esgeulustod. Pan ofynnwyd yn benodol wrtho am sylw merch Barbara ei bod yn ofni *'they would kill each other in time'*, nododd nad oedd yn glir pwy oedd yr ymosodwr posib, er iddi gael gwybod bod Barbara wedi dal cyllell yn erbyn ei gŵr.

Casglodd yr asesiad nad oedd modd cadw Barbara dan y Ddeddf Iechyd Meddwl a'i bod yn iach i adael yr ysbyty, gydag apwyntiad dilynol gyda MHCT3. Teimlodd y CPN y byddai apwyntiad dilynol gyda MHCT3 yn rhoi gwell syniad o realiti perthnasau'r teulu ac yn nodi a oedd angen gwneud cyfeiriad diogelu.

**Mae'r adolygiad yn nodi na roddwyd ystyriaeth amlwg gan weithwyr proffesiynol y gallai cam-drin domestig fod yn bresennol yn y berthynas hon: gyda Barbara naill ai'n ddioddefwr neu'n gyflawnwr. Caiff hyn ei ystyried mewn mwy o fanylder nes ymlaen yn yr adroddiad.**

Er bod Barbara yn negyddol am ei gŵr, nid oedd unrhyw gyfeiriad gan Barbara ei hun at ymosodiadau tuag ati hi, neu wedi'u hachosi ganddi, neu fwriad i achosi niwed i'w gŵr. Fe wnaeth y CPN dargedu'r ymholiad yn unol â 'Gofyn a Gweithredu', fel yr amlinellir fel rhan o'r Fframwaith Hyfforddi Cenedlaethol yn seiliedig ar y wybodaeth sydd ar gael. Cytunodd Barbara ei bod wedi dal cyllell wrth ei gŵr ond dywedodd nad oedd wedi bwriadu ei frifo. Nid oedd George yn bresennol i wneud ymholiad wedi'i dargedu gydag ef; fodd bynnag, collwyd cyfleoedd i gyflwyno ffurflen gyfeirio amlasiantaethol, drwy weithdrefnau diogelu, ar gyfer pawb oedd o bosib yn ymwneud â'r digwyddiadau a ddatgelwyd gan y ferch.

**Ers marwolaeth Barbara, mae'r adolygiad yn ymwybodol bod cryn dipyn o waith wedi'i wneud i ymdrin â'r materion a nodwyd. Mae'r rhain yn cynnwys:**

[22] Eglurodd merch Barbara mai'r rheswm am hyn oedd ei bod wedi siarad â'r CPN ddwywaith ar y ffôn pan drafododd ei phryderon.

- **Adolygu hyfforddiant diogelu 'Gofyn a Gweithredu' presennol o fewn BIPHDd i gryfhau'r ymwybyddiaeth o gam-drin domestig a phobl hŷn, gan gynnwys adnabod merched fel cyflawnwyr posib.**
- **Uchafu'r pwynt bwled uchod i Grŵp Llywio VAWDASV GIG Cymru i rannu'r ddysg ar draws Byrddau Iechyd Lleol ac Ymddiriedolaethau GIG.**
- **Darparu sesiwn briffio saith munud ar gam-drin domestig a phobl hŷn i godi ymwybyddiaeth o gam-drin domestig a phobl hŷn, ynghyd â'r Llinell Gymorth Byw Heb Ofn.**
- **Cylchredeg Canllaw Arfer Da VAWDASV Llywodraeth Cymru i Wasanaethau Cyhoeddus Cymru, nad ydynt yn arbenigwyr, ar Weithio gyda Chyflawnwyr sy'n Oedolion a chyfeirio at hyn mewn hyfforddiant diogelu i godi ymwybyddiaeth staff o'r gefnogaeth sydd ar gael i gyflawnwyr.**
- **Parhau i hybu hyfforddiant Dewis Choice i hyrwyddo dealltwriaeth o gam-drin domestig a phobl hŷn.**
- **Gwneud argymhelliad i'r Grŵp Llywio VAWDASV Rhanbarthol fod hygyrchedd a thracio nifer yr asiantaethau sy'n dilyn hyfforddiant Dewis Choice ar gael drwy'r system amlasiantaethol cenedlaethol.**

# Adran Pedwar - Dadansoddiad
# Deall bywyd Barbara

4.1 **GWYBODAETH A RANNWYD GAN DEULU BARBARA**

4.1.1 Fe wnaeth merch Barbara ddisgrifio personoliaeth ei mam fel un hynod *'up and down'*. Roedd hyn yn eithafol, yn llawer mwy na sut fyddai rhywun fel arfer yn disgrifio rhywun fel '*up and down'*. Er mwyn esbonio'r pwynt hwn, siaradodd sut fyddai ei rhiantu yn amrywio'n helaeth. Pan oedd yn 13, ar adeg pan oedd ei thymer hi'n *'up'* iawn, roedd yn hapus i'w merch fynd allan pryd bynnag yr hoffai a dychwelyd adref am 3am. Ychydig flynyddoedd yn ddiweddarach, roedd yn profi amser '*down*', roedd eisiau i'w merch fod adref erbyn 9pm, er ei bod erbyn hyn wedi dechrau ar ei gyrfa.

4.1.2 Yn ei datganiad i'r heddlu, disgrifiodd merch Barbara ei mam fel un â *'gruff voice'* a fyddai'n awgrymu y byddai rhywun yn *'going to get it'*. Disgrifiodd y llais hwn fel rhybudd oedd yn awgrymu *'you're treading on eggshells now'. That's the voice that I've learnt to know since I was a child'.*

4.1.3 Yn ôl ei merch, roedd Barbara yn ddynes annibynnol danbaid.

4.1.4 Wrth edrych yn ôl, mae'n sylweddoli fod ei mam wedi dechrau *'close down'* cyn iddynt symud i ogledd Cymru, ond nid oedd yn ei weld yn glir ar y pryd.

4.1.5 Fe wnaeth pwysau Barbara amrywio drwy gydol ei hoes, yn dibynnu ar sut oedd yn teimlo. Os nad oedd pethau'n mynd yn dda iddi, dywedodd ei merch wrth yr adolygiad y byddai'n stopio bwyta. Cyn iddi gymryd y gorddos, roedd wedi siarad am beidio bwyta.

4.1.6 Yn ôl eu merch, nid oedd Barbara a George yn bobl oedd yn cymysgu'n dda ag eraill: nid oedd ganddynt grŵp o ffrindiau. Nid oedd Barbara yn gweld neb ar wahân i'w chwaer, lle byddai'n mynd i siopa gyda hi unwaith yr wythnos ac yn mynd ar dripiau bob hyn a hyn.

4.1.7 Yn ystod y cyfnod pan oedd Barbara yn cael ei gweld gan MCHT1, roedd yn canmol ei bywyd cyn symud i ogledd Cymru i'r cymylau. Dywedodd ei bod wedi bod yn ddynes gymdeithasol a phrysur a'i bod yn hiraethu am y ffordd yma o fyw.

**Ystyriodd y Panel Adolygu fod y darlun hwn o fywyd yng Nghanolbarth Lloegr, wedi'i bortreadu gan Barbara ar ôl ei gorddos, yn wahanol iawn i'r hyn a ddisgrifiwyd gan ei gŵr a'i merch. Ystyriodd y panel y posibilrwydd ei bod wedi cymysgu ffyrdd o fyw a'i bod yn siarad am gyfnod pan oedd yn llawer iau, yn hytrach na'r cyfnod cyn iddi symud. Gallai hyn fod wedi digwydd o ganlyniad i iselder neu ddementia.**

4.1.8 Dywedodd George wrth yr adolygiad ei fod ef a Barbara wedi symud i ogledd Cymru am eu bod eisiau newid, a bod eu merch wedi gofyn iddynt symud yn agosach ati i'w chefnogi i ofalu am ei gŵr. Dywedodd nad oedd wedi gweld y byngalo ond fod Barbara wedi teithio yno. Ar ôl iddi ddychwelyd, dywedodd wrtho eu bod yn symud. Teimlodd George fod hyn yn syniad da iddynt ac roedd Barbara yn cytuno gydag ef am yr ychydig wythnosau cyntaf. Fodd bynnag, dechreuodd flino ar beidio gallu gweld ei chwaer a gorfod dibynnu ar ei merch i fynd â hi i siopa, oherwydd roedd wedi rhoi'r gorau i yrru erbyn hynny.

4.1.9 Dywedodd chwaer Barbara, yn ei datganiad i'r heddlu, bod ei chwaer wedi dechrau teimlo'n anhapus ar ôl symud i ogledd Cymru oherwydd ei bod yn teimlo ei bod wedi mynd yno i helpu ei merch i edrych ar ôl ei gŵr ond roedd wedi darganfod ei fod yn gallu gwneud dipyn ei hun. Ar y dechrau, dywedodd fod ei chwaer yn meddwl bod ei hangen, ac roedd yn berson oedd angen teimlo bod rhywun ei hangen. Cadarnhaodd nad oedd ei chwaer yn berson oedd yn gwneud ffrindiau agos.

4.1.10 Yn ei datganiad i'r heddlu, dywedodd y nyrs seiciatrig o MCHT1 fod Barbara, yn eu cyfarfod cychwynnol, wedi dweud ei bod yn teimlo'n ddig tuag at ei gŵr a'i merch, gan nad oedd wedi disgwyl symud mor sydyn.

4.2 **TYSTIOLAETH O GAM-DRIN DOMESTIG**

4.2.1 Pwrpas DHR yw ystyried p'un a oes tystiolaeth o lwybr o gam-drin domestig yn arwain at y digwyddiad a arweiniodd at farwolaeth Barbara. Ni adroddwyd am unrhyw gam-drin domestig i unrhyw asiantaeth gan Barbara na George. Mae'r adolygiad wedi dibynnu ar sylwadau dedfrydu'r barnwr, yr holl dystiolaeth a gyflwynwyd yn y treial am bythefnos a'r wybodaeth a ddarparwyd gan George a'i ferch.

4.2.2 Ni ddywedodd George wrth ei ferch sut beth oedd ei briodas hyd nes iddo symud i ogledd Cymru pan, un diwrnod, yr aeth i'w thŷ a chrio. Dywedodd wrth ei ferch am ei briodas ac fe alwodd ei wraig yn *'evil'*. Dywedodd ei ferch nad yw'n ddyn emosiynol ac nad yw'n dangos emosiwn, felly nid oedd yn syndod iddi nad oedd wedi siarad â hi ynghynt am yr hyn oedd yn digwydd.

4.2.3 Ni ddarparwyd unrhyw dystiolaeth i'r adolygiad hwn sy'n awgrymu bod George wedi bod yn dreisgar yn y cartref tuag at ei wraig, Barbara. Dywedodd y barnwr ar ôl iddo glywed y dystiolaeth, ei fod yn credu bod George yn ddyn da, gweithgar a chyfrifol nad oedd wedi bod yn dreisgar tuag at unrhyw un erioed cyn hynny.

4.2.4 Disgrifiodd eu merch berthynas Barbara a George fel un grêt ar brydiau gyda chyfnodau o hapusrwydd. Dywedodd chwaer Barbara wrth y llys bod Barbara yn caru George *'to bits'*, a'i fod yntau yn ei charu hithau yn yr un modd. Dywedodd George wrth y llys, ac wrth yr adolygiad, ei fod yn dal i garu Barbara ac y byddai am byth. Ar yr un pryd, dywedodd y barnwr bod anawsterau yn eu priodas oedd wedi bod yno drwy'r amser.

4.2.5 Dywedodd y barnwr mai Barbara oedd y bersonoliaeth ddominyddol yn y berthynas. Er gwaethaf ei holl rinweddau da, gallai fod yn rheolgar ac ystrywgar (*manipulative*). Hi oedd yn rheoli popeth yn y cartref ond beirniadodd George am beidio helpu. Roedd yn ei sarhau a byddai'n aml yn taflu weips ato.

4.2.6 Dywedodd y barnwr mai ffynhonnell benodol o anhawster yn y berthynas oedd alcohol. Yn y gorffennol, roedd y ddau wedi yfed gormod ac roedd hyn wedi arwain at ddadlau. Ar brydiau, byddai Barbara yn gadael i George yfed fel y mynnai ond ar adegau eraill, byddai'n rhoi lwfans iddo. Canfyddiad eu merch o hyn oedd ei bod yn gwneud hyn gan ei bod yn poeni am George ac nad oedd am iddo yfed ei hun i farwolaeth, ond ei bod hefyd yn gwneud hyn i'w frifo. Ni all yr adolygiad wneud sylw ar hyn. Er bod alcohol yn gallu arwain at ddadleuon, dywedodd y barnwr nad oedd erioed wedi arwain at drais. Clywodd y llys dystiolaeth y byddai George yn pwdu ac yn peidio siarad â Barbara.

4.2.7 Byddai Barbara yn ceisio cuddio ei harferion yfed ei hun wrth drafod arferion yfed ei gŵr gyda'i merch. Roedd George yn ymwybodol fod Barbara yn gwneud hyn ond, yn ôl ei ferch, nid oedd yn poeni am y peth. Fodd bynnag, roedd ei ferch yn ei ystyried fel rheolaeth. Dywedodd wrth yr adolygiad y byddai ei mam yn prynu wisgi, yn ei ddangos i George, ac yna'n ei dywallt i lawr y sinc. Ar ~~Ddydd Nadolig~~ ddiwrnod marwolaeth Barbara, ar ôl iddo yfed potel o win coch dros ginio, roedd Barbara wedi ceisio annog George i yfed mwy. Roedd eisiau yfed fermwth ond roedd hi yn ceisio ei annog i yfed wisgi. Nid oedd eisiau yfed wisgi oherwydd gwyddai, petai'n ei yfed, y byddai'n yfed y botel gyfan. Er hynny, roedd Barbara wedi tywallt gwydraid o wisgi iddo.

4.2.8 Pan symudodd y cwpl i ogledd Cymru yn 2018, dywedodd y barnwr fod eu perthynas wedi dirywio. Teimlodd Barbara eu bod wedi symud i le bach gyda dim i'w wneud yno, a disgrifiodd hyn fel byw mewn arch heb y caead. Roedd yn teimlo'n ynysig ac unig. Roedd yn eithriadol o genfigennus o'r berthynas oedd yn datblygu rhwng ei merch a'i llysferch, a chyda George. Dywedodd wrth ei chwaer ei fod wedi cael ei thwyllo i symud. Roedd yn beio George a'i merch ac yn teimlo chwerwedd tuag atynt. Roedd George wedi bod yn fodlon symud ac roedd hynny'n ychwanegu at ei chwerwedd.

4.2.9 Pan siaradodd y Cadeirydd ac Awdur yr Adroddiad gyda George, gofynnodd a oedd anhapusrwydd Barbara gyda symud i ogledd Cymru wedi arwain at densiwn yn y briodas. Atebodd George nad oedd fymryn gwaeth mewn gwirionedd: roedd yna densiwn wedi bod ers 54 o flynyddoedd. Byddai'n iawn un funud ac yna'n colli'i thymer yn lân. Eglurodd fod hyn yn rhannol oherwydd problemau gynaecolegol ei wraig dros y blynyddoedd.

4.2.10 Ar un achlysur ar ddechrau eu priodas, dywedodd George wrth y Cadeirydd ac Awdur yr Adroddiad ei fod wedi gadael cartref y teulu a mynd i dŷ ei fam. Roedd hi wedi gofyn pam ei fod yno a dywedodd wrthi ei fod ef a Barbara wedi ffraeo. Cynghorodd ei fam y dylai ymdrin â Barbara yn yr un ffordd ag yr oedd yn ymdrin â hithau - gadael i bethau fynd i mewn drwy un glust ac allan drwy'r llall. Dywedodd ei fod wedi dychwelwyd gartref a mabwysiadu'r dull hwn am y blynyddoedd i ddod. Eglurodd y byddai'n dal i bigo arno a byddai ef yn ei hanwybyddu, ac os oedd pethau'n mynd yn ormod, byddai'n gadael y cartref am gyfnod. Dywedodd y byddai hyn yn digwydd 2-3 gwaith yr wythnos ac roedd wedi gwaethygu dros y 2-3 blynedd ddiwethaf. Pan ofynnwyd iddo, dywedodd fod y dirywiad hwn wedi'i achosi gan alcohol.

4.2.11 Clywodd y llys yr ymddengys fod dadleuon rhwng Barbara a George wedi gwaethygu ond nid trais oedd ymateb George i ddadleuon. Yn hytrach, byddai'n mynd i dŷ ei ferch ac eistedd yn yr ardd neu'r tŷ. Dywedodd merch Barbara wrth y llys ei bod yn gadael y drws ar agor i George ac, ar un achlysur, dim ond eistedd a chrio a wnaeth. Dywedodd wrth ei ferch nad oedd hi yn gwybod sut oedd pethau yn ei gartref. Pan aeth merch Barbara i siarad â'i mam, ar y noson cyn iddi farw, fe'i darganfuwyd hi'n feddw a dywedodd ei mam wrthi ei bod yn casáu pawb ac y byddai'n gwneud bywyd George yn uffern. Dywedodd Barbara ei bod yn teimlo bod George yn ddyn yn ei oed a'i amser oedd yn gallu sortio pethau gyda hi, ac y byddai'n cael ei chynddeiriogi wrth iddo gerdded i ffwrdd o ddadleuon.

4.2.12 Barbara oedd yn edrych ar ôl materion ariannol y cwpl a byddai'n gofyn iddi am unrhyw arian oedd ei angen. Er enghraifft, os oedd eisiau prynu brechdan tra'r oedd yn pysgota, byddai'n rhoi £2 iddo. Roedd yna dri chyfrif banc: cyfrif ar y cyd lle'r oedd pensiwn George yn mynd; Cyfrif Barbara lle'r oedd ei phensiwn hithau'n mynd; a chyfrif unigol George. Dim ond yn ddiweddar oedd y cyfrif hwn wedi'i agor fel y gallai eu merch drosglwyddo arian o werthiant

y tŷ yng nghanolbarth Lloegr. Pan oedd Barbara yn yr ysbyty, roedd George wedi tynnu £100 o'r cyfrif ar y cyd, ac felly, pan ddychwelodd o'r ysbyty, torrodd Barbara ei gerdyn banc.

4.2.13 Mae'r adolygiad hwn yn ofalus iawn o ran awgrymu bod hyn efallai yn dystiolaeth o gam-drin economaidd, gan fod Barbara wedi bod yn edrych ar ôl yr arian ers blynyddoedd am reswm da. Y rheswm am hynny yw mai George oedd yr unig un oedd yn ennill cyflog ac roedd wedi dechrau gamblo, gan achosi problemau ariannol i'r teulu, felly roedd Barbara wedi cymryd drosodd efo'r arian. Cyn ei gorddos, credai eu merch fod y trefniant hwn yn addas i'r ddau ohonynt.

4.2.14 Ar 30 Medi, cafodd George ei ddeffro (roedd ef a'i wraig yn cysgu mewn ystafelloedd ar wahân) yn ei wely gyda Barbara yn ei brocio gyda chyllell a adawodd rwygiadau yn ei grys-T a marciau ar ei gorff. Ymddengys fel petai ar fin ei drywanu. Dywedodd wrth ei merch yn ddiweddarach ei bod wedi bod yn chwilio am ei galon ond nad oedd ganddo galon. Wrth wneud yr ystum trywanu, cipiodd George y gyllell oddi arni a achosodd iddo frifo ei law yn y broses. Aeth ef i dŷ ei ferch. Gwrthododd George fynd i'r ysbyty na galw'r heddlu oherwydd roedd eisiau amddiffyn ei wraig a dywedodd y byddai'n gwadu popeth petai'r heddlu'n cael gwybod.

4.2.15 Er ei bod wedi bygwth trais sawl tro dros y blynyddoedd, dywedodd George wrth y Cadeirydd ac Awdur yr Adroddiad fod pethau'n wahanol y tro yma. Dywedodd ei fod yn teimlo'n ofnus.

4.2.16 Erbyn yr adeg hon, roedd gan George gymaint o ofn yr hyn fyddai Barbara yn ei wneud fel ei fod wedi gosod trap, oedd yn cynnwys gosod hwfer yn sownd mewn darn o linyn fyddai'n gwneud sŵn petai'n ceisio mynd i'w ystafell yn y nos. Roedd merch George wedi cynnig gosod bollt ar y drws ond gwrthododd iddi wneud hynny a gosododd y trap yn lle. Yn hwyrach, dywedodd George wrth ei ferch mai'r rheswm am hyn oedd bod Barbara, ar achlysur blaenorol, wedi bod yn chwilio am y can petrol ar gyfer y peiriant torri gwair oherwydd roedd yn bygwth llosgi'r tŷ. Roedd Barbara yn gwadu hyn. Fodd bynnag, dywedodd y barnwr ei fod yn siŵr ei bod wedi gwneud hynny gan nad oedd rheswm gan George i ddweud celwydd. Dywedodd nad oedd wedi dweud wrth neb am hyn oherwydd ei fod yn ofni y byddent yn mynd â hi ymaith.

4.2.17 Ar sawl achlysur, dywedodd Barbara fod y digwyddiad hwn yn fawr o beth. Dywedodd wrth y nyrs seiciatrig o MCHT1 '*it was something and nothing*' ac roedd yn hynod ddiystyriol o'r peth.

4.2.18 Wrth ymweld â'r cartref, nododd y nyrs seiciatrig yn ei datganiad i'r heddlu ei bod wedi sylwi bod Barbara yn gwneud '*little digs at George quite a bit*'. Eglurodd fod hyn yn golygu y byddai'n dweud pethau megis: *'he does nothing round the house'*. Dywedodd fod George yn ymddangos yn dawel iawn a didaro ac y byddai'n eistedd a chymryd yr holl sylwadau gan Barbara.

4.2.19 Yn ystod yr amser hwn, dywedodd merch Barbara wrth y llys bod ei mam yn mynd yn anoddach ac yn fwy ymosodol. Dywedodd Barbara wrth George ac eraill y byddai'n gwneud eu bywydau yn uffern. Dywedodd eu merch wrth bobl fod angen gwneud rhywbeth neu byddai'n arwain at farwolaeth un ohonynt.

4.2.20 Mae merch Barbara wedi mynegi ei dymuniad y dylid nodi'n glir: *'numerous times it is mentioned that mom did not intend to do dad harm when she stabbed him. She was so intoxicated that she felt able to carry out acts of violence against not only him but me. She*

*was incapable of making a rational thought. On that night she had consumed almost a whole bottle of vermouth and she was only tiny at the time. The knife she used was extremely sharp – as proved in court – it needed minimum pressure to cause a fatal wound, hence when I was stating one would end up dead, I included the wording – by accident'*.

4.2.21 Soniodd merch Barbara wrth yr adolygiad am ddigwyddiad yng ngogledd Cymru pan oedd yn peintio ei ffens ac yn gallu clywed ei rhieni yn siarad yn yr ardd. Roedd wedi dychryn ac yn ypset oherwydd y ffordd yr oedd ei mam yn siarad â'i thad: roedd tôn ffiaidd i'r ffordd yr oedd yn siarad. Roedd yn bendant fod ei mam yn ymwybodol o'r ffordd yr oedd yn siarad. Ar achlysur arall, clywodd ei mam yn siarad am ei thad ar y ffôn. Roedd yn siarad yn ffiaidd iawn am ei thad. Pan heriodd hi ynglŷn â'r hyn a glywodd, gwrthododd ei mam siarad â hi am wythnos.

4.2.22 Dywedodd merch Barbara wrth y llys am ddigwyddiad trywanu ar y diwrnod cyn marwolaeth Barbara, pan welodd ei mam yn eistedd ar soffa yn ei chartref ac yn ei thrywanu gyda chyllell fechan. Roedd hi hefyd yn rhedeg y llafn drwy ei bysedd. Dywedodd ei merch ei bod yn ymddangos yn anymwybodol o'r hyn oedd yn ei wneud. Dywedodd y ferch wrth yr adolygiad nad oedd hwn yn ddigwyddiad unigryw i Barbara fod yn eistedd yn y gadair gyda'r gyllell wrth ei hochr. Roedd yn gwneud hyn yn aml a'i bwriad oedd brifo George.

4.2.23 Yn yr adroddiad cyntaf am yr hyn ddigwyddodd, dywedodd George wrth ei ferch fod Barbara wedi bod yn ei bryfocio ac yn ei frifo yn y ffordd fwyaf creulon. Cafodd yr adolygiad wybod gan ferch a chwaer Barbara fod y pryfocio hwn yn dyddio nôl i ddigwyddiad flynyddoedd yn ôl pan gafodd George ei alw'n '*paedo'* gan gymydog a oedd yn feddw ac ar gyffuriau. Ymddiheurodd y cymydog yn ddiweddarach ond roedd y cyhuddiad hwn wedi codi cywilydd ar George a chariodd hynny gydag ef. Byddai Barbara yn defnyddio hyn fel ffordd o'i frifo.

4.2.24 O ystyried hanes eu perthynas, casglodd y barnwr mai dyma ddigwyddodd yn ôl pob tebyg. Dywedodd efallai fod pethau wedi gwaethygu wrth i Barbara geisio stopio George rhag cael mwy o alcohol, ond roedd hyn yn haen ychwanegol o ymddygiad rheolgar. Dywedodd y barnwr ei fod yn siŵr mai'r hyn a achosodd iddo wirioneddol golli rheolaeth oedd y materion a adroddodd amdanynt wrth ei ferch ar y pryd.

4.2.25 Yn gyntaf, roedd angen ystyried colli rheolaeth, fel y dywed y barnwr, yn erbyn y cefndir a'r diweddglo o flynyddoedd o Barbara yn ei sarhau a'i hymddygiad rheolgar. Yn ail, dywedodd y barnwr y dylid ei ystyried yn erbyn cefndir mwy diweddar ymosodedd geiriol a chorfforol, bygythiad Barbara i niweidio George neu'r ddau ohonynt, ei hymosodiad corfforol arno gyda chyllell, a'i bwriad datganedig i wneud ei fywyd yn uffern.

4.2.26 Ar ôl clywed yr holl dystiolaeth, eglurodd y barnwr ei fod yn siŵr fod yr hyn yr oedd George wedi'i ddioddef drwy gydol ei briodas, ac yn fwy difrifol ers symud i ogledd Cymru, yn mynd tu hwnt i ddadleuon domestig a pherthynas anodd, a'i fod yn cael ei nodweddu'n briodol fel cam-drin domestig.

4.2.27 Dim ond yn ddiweddar oedd George wedi siarad â'i ferch ynglŷn â'r hyn ddigwyddodd ar y diwrnod fu Barbara farw wrth iddynt ddychwelyd o'i thŷ. Roedd George wedi mynd â'r ci am dro gyda'i ferch a'i gŵr, a oedd yn anarferol iddo. Pan ddychwelodd i'w fyngalo, roedd Barbara yn aros tu ôl i'r drws gyda'r gyllell. Fe'i clywodd yn disgyn ar y llawr ac felly aeth rownd a mynd i mewn drwy'r drws cefn. Dywedodd ei ferch wrth yr adolygiad fod ei mam, ar ddiwrnod ei marwolaeth, wedi dweud wrth George *'by the end of the day he will be going to prison'.*

4.2.28 Dywedodd George wrth y Cadeirydd ac Awdur yr Adroddiad fod diwrnod marwolaeth Barbara wedi dechrau fel arfer. Roedd Barbara wedi codi a choginio bacwn ac wy ar gyfer eu brecwast. Roedd yn cofio ei bod *'a bit rough talking to me about walking the dog'*. Dywedodd eu bod wedi mynd i dŷ eu merch yn gynnar ac roedd Barbara yn swnian a chwyno, yn gofyn i'w merch o hyd os oedd unrhyw beth y gallai ei wneud.

**4.3 BETH OEDD Y RHWYSTRAU I GEORGE ADAEL NEU I ROI GWYBOD I RYWUN BETH OEDD YN DIGWYDD?**

4.3.1 I'w thad, dywedodd merch George fod priodas am byth - roedd yn golygu *'for better or for worse'.* Dywedodd fod Barbara yn edrych ar ôl ei thad.

4.3.2 Wrth siarad am eu priodas, dywedodd merch y cwpl wrth yr adolygiad fod ei mam a'i thad, ar adegau, yn bygwth gadael y briodas ond os oedd ei thad yn dweud ei fod yn mynd i adael, byddai Barbara yn ei gloi allan o'r tŷ.

4.3.3 Pan siaradodd y Cadeirydd ac Awdur yr Adroddiad gyda George, gofynnwyd iddo pam ei fod wedi aros gyda Barbara er gwaethaf y risg o niwed difrifol. Dywedodd ei fod wedi'i chyfarfod 60 o flynyddoedd yn ôl ac wedi'i charu ers eu cusan gyntaf. Roedd wedi'i charu ers 60 o flynyddoedd ac roedd yn dal i'w charu. Dywedodd: *'I will still love her when I die'*. Dywedodd na allai ddychmygu bywyd hebddi a'i bod yn wraig dda, ac nid oedd mewn angen am ddim byd erioed.

4.3.4 Pan ofynnwyd iddo a oedd wedi ystyried siarad gyda rhywun am ei fywyd, dywedodd na wnaeth hynny oherwydd 99% o'r amser roeddent bob amser wedi cymodi ar ôl y dadleuon. Weithiau, dywedodd y byddai pethau drosodd ar ôl ½ awr ond, ar ddiwrnod marwolaeth Barbara, roedd wedi bod yn mynd ymlaen drwy'r dydd.

**Argymhelliad 9**
**Argymhellir bod y Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol yn cynnal cyfres o ymgyrchoedd codi ymwybyddiaeth yn yr ardal leol. Dylai'r rhain ganolbwyntio ar ddioddefwyr gwrywaidd o gam-drin domestig, a dioddefwyr hŷn o gam-drin domestig. Dylid targedu'r ymgyrchoedd lle byddant yn fwyaf tebygol o gyrraedd y grwpiau hyn.**

**Argymhelliad 10**
**Argymhellir bod y BDC (CSP) yn adolygu ei drefniadau cyhoeddusrwydd cyfredol yn yr ardal leol i sicrhau bod y wybodaeth sydd ar gael yn barhaus yn darparu gwybodaeth am y gwahanol agweddau o gam-drin domestig (h.y. nid dim ond cam-drin corfforol) a lle mae modd cael cefnogaeth.**

**Argymhelliad 11**
**Argymhellir bod y BDC (CSP) yn sicrhau, fel rhan o'r cyhoeddusrwydd a ddefnyddiant yn lleol, bod negeseuon clir ar gyfer teulu a ffrindiau y rhai sy'n profi cam-drin domestig ynghylch sut gallant gefnogi eu hanwyliaid.**

**4.4 Y RISG YR OEDD BARBARA YN EI BERI I GEORGE AC YMATEB YR ASIANTAETHAU I HYN**

4.4.1 Pan oedd Barbara yn yr ysbyty, cyn iddi adael daeth staff yn ymwybodol o'r digwyddiadau a fu pan oedd George mewn perygl o weithredoedd Barbara, a bod y datgeliadau a wnaed gan Barbara a'i merch yn wahanol. Nid oes unrhyw dystiolaeth i awgrymu bod unrhyw gamau

gweithredu wedi'u cymryd gan staff ar ôl i'r wybodaeth hon gael ei datgelu. Teimlodd y panel y dylai cyfeiriad, o leiaf, fod wedi cael ei wneud i'r awdurdod lleol.

4.4.2 Roedd y panel o'r farn y gallai DASH fod wedi cael ei gwblhau ac y dylai cyfeiriad i MARAC fod wedi cael ei ystyried. Mae'r adolygiad yn derbyn nad oedd staff o bosib wedi ystyried hyn, neu wedi gweld hyn yn anodd gan nad oedd George wedi'i weld yn yr ysbyty ar wahân i un achlysur. Er hynny, credai'r adolygiad na ddylai hyn fod wedi atal cyfeiriad MARAC, a allai fod wedi cael ei wneud yn ôl barn broffesiynol.

4.4.3 Roedd y panel yn bryderus iawn na ystyriodd staff gam-drin domestig fel nodwedd yn yr adroddiadau hyn, gan fod y cwpl yn hŷn ac wedi bod yn briod ers dros 50 mlynedd. Ni chafodd y risg gwirioneddol yr oedd George yn ei wynebu, ei ystyried. Ystyriodd y panel hefyd a oedd elfen o ragfarn rhyw. Trafodwyd y cwestiwn p'un a fyddent wedi bod yn fwy effro i'r risg petai Barbara wedi bod yn ddioddefwr a George yn gyflawnwr. Cytunodd y panel yr ymddengys bod oedran a rhagfarn rhyw wedi dylanwadu ar y penderfyniadau a wnaed.

4.4.4 Yn ei drafodaethau, sylwodd y panel hefyd ar ddiffyg chwilfrydedd proffesiynol pan wnaeth staff siarad â merch Barbara. Ni roddwyd unrhyw wybodaeth iddi o ran lle gallai gael cefnogaeth a chymorth.

4.4.5 Mae'r adolygiad yn nodi nad oedd y ward lle'r oedd Barbara yn derbyn triniaeth wedi bod yn y grŵp blaenoriaeth ar gyfer hyfforddiant ar 'Gofyn a Gweithredu'. Roedd hyn yn unol â Fframwaith Hyfforddi Cenedlaethol VAWDASV ac felly, efallai nad oedd staff yn ymwybodol o ble i gyfeirio Barbara a'i merch am gefnogaeth arbenigol ar gam-drin domestig. Fodd bynnag, mae'r adnoddau hyn wedi cael eu cyfathrebu drwy ddulliau eraill, gan gynnwys tudalen mewnrwyd diogelu BIP a chyfathrebiadau e-bost byd-eang. Dylent fod wedi cynghori ei merch i gysylltu â'r heddlu os oedd yn teimlo fod ei mam a/neu ei thad mewn perygl. Roedd cyfrifoldeb gan weithwyr proffesiynol i'w grymuso gyda gwybodaeth am gefnogaeth megis Llinell Gymorth Byw Heb Ofn.

4.4.6 Roedd trafodaethau yng nghyfarfod y panel yn cynnwys barn, gan rai cydweithwyr iechyd, y dylid cydnabod yr heriau a wynebir gan ymarferwyr pan fyddai gwahanol adroddiadau gan aelodau'r teulu a dim pryderon am wybyddiaeth. Roedd y trafodaethau hyn yn cynnwys dadl ynghylch 'pwy ddylid ei gredu?' Nid yw'r adolygiad o'r farn mai rôl staff gofal iechyd yn y lleoliadau hyn yw dod i farn ynghylch pwy ddylid ei gredu neu beidio. Roedd gwybodaeth am ddigwyddiad o bryder amlwg y dylai fod wedi cael ei gyfeirio ymlaen, ond ni chafodd ei gyfeirio.

## 4.5 ALCOHOL YN Y BERTHYNAS

4.5.1 Mae'r lefel o gamddefnyddio alcohol, gan Barbara a George, yn dipyn o bos ar gyfer yr adolygiad hwn.

4.5.2 Dywedodd merch Barbara a George wrth yr adolygiad fod alcohol wedi bod yn broblem bob amser i'w rhieni. Yn ei barn hi, roedd y ddau yn alcoholigion. Byddai ei mam yn dweud fod George yn alcoholig a'i bod yn rheoli ei yfed. Pan aeth ei mam i'r ysbyty ar 8 Hydref 2019, dywedodd wrthynt fod ei mam yn yfed dwy botel o win yr wythnos (cyfwerth ag 20 uned), a'i bod yn goryfed. Dywedodd Barbara wrth staff ei bod yn prynu un botel o win bob wythnos.

4.5.3 Dywedodd George wrth y Cadeirydd ac Awdur yr Adroddiad y byddai'n yfed 1 litr o fermwth y dydd pan oeddent yn byw yng nghanolbarth Lloegr. Pan wnaethant symud i ogledd Cymru, byddent yn mynd i'r dref agosaf i siopa ac, ar un achlysur, roedd Barbara wedi rhoi ambell botel iddi hi ei hun ac ambell botel iddo ef yn y troli siopa. Cawsant ffrae am bwysau'r poteli. Ar achlysur arall, pan oedd merch Barbara wedi mynd â hi i siopa yn y car, roedd wedi prynu mwy nag 20 o boteli.

4.5.4 Roedd George wedi penderfynu nad oedd yn mynd i yfed potel y dydd. Roedd wedi penderfynu ei fod yn mynd i yfed tair potel yr wythnos a byddai'n dewis ar ba ddyddiau fyddai'n yfed. Eglurodd eu bod wedi adeiladu stoc o boteli yn y sied. Dywedodd fod 60 o boteli ar un adeg ond aethant i lawr i 30. Cofiodd am ddigwyddiad lle cawsant ffrae a phenderfynodd ei fod yn mynd i gael diod ac aeth i'r sied. Dywedodd Barbara nad oedd yn cael diod a dechreuodd falu cymaint ag y medrai o boteli. Estynnodd botel ac aeth i'w ystafell i'w hyfed. Y bore wedyn, gofynnodd iddo faint o boteli a gafodd a phan ddywedodd rhwng pump a saith, dywedodd hi na fyddai'n cael mwy gan ei bod wedi'u taflu i'r afon. Fodd bynnag, nid oedd yn ei chredu gan eu bod yn drwm iawn. Dywedodd George mai dim ond potel un litr fyddai Barbara yn ei yfed bob wythnos.

4.5.5 Mae'r tabl isod yn dangos y lefel yfed alcohol a ddatganwyd gan Barbara a George wrth eu Meddygon Teulu:

| **Dyddiad** | **Unedau a ddatgelodd Barbara** | **Unedau a ddatgelodd George** |
|---|---|---|
| 7 Mawrth 2018 | | 24 yr wythnos |
| 4 Gorffennaf 2018 | 7 yr wythnos | |
| 5 Hydref 2018 | 2 yr wythnos | 6 yr wythnos |
| 6 Rhagfyr 2018 | | 6 yr wythnos |
| 7 Ionawr 2019 | 4 yr wythnos | |
| 5 Mehefin 2019 | 0 yr wythnos | 6 yr wythnos |
| 11 Rhagfyr 2019 | 2 yr wythnos | 6 yr wythnos |

Canllawiau NICE yw 14 uned yr wythnos

4.5.6 Mae'r adolygiad yn cydnabod yn llawn na fydd llawer o bobl yn datgelu faint o alcohol gwirioneddol maent yn ei yfed wrth i weithiwr proffesiynol ofyn iddynt. Fodd bynnag, yn ystod y cyfnod hwn, nid oedd dim yn y profion gwaed rheolaidd i awgrymu niwed ffisiolegol ac felly, doedd dim i annog y Meddygon Teulu i bwyso ymhellach ar y wybodaeth a roddwyd iddynt. Ni cheir unrhyw dystiolaeth yn eu profion gwaed i ddynodi'r lefel yfed alcohol a ddatgelwyd. O ganlyniad, mae'n dipyn o bos i'r adolygiad.

4.5.7 Ymddengys fod y Tîm Triniaeth yn y Cartref (MCHT1) wedi cael rhyw arwydd o'r posibilrwydd o gamddefnydd alcohol pan wnaethant dderbyn y cyfeiriad ar 22 Hydref 2019 oherwydd, yn ystod yr ymgynghoriad gyda'r Tîm Crisis, dywedodd Barbara nad oedd ganddi unrhyw broblem gydag alcohol. Dywedodd y byddai'n prynu potel o win ar ddydd Llun ac y byddai hon yn parhau drwy'r wythnos gyfan. Dywedodd fod ei gŵr yn yfed 3 potel yr wythnos.

4.5.8 Ar 24 Hydref, ar ôl y gorddos, fe'i cynghorwyd i ymwrthod ag alcohol wrth aros am ganlyniadau profion gweithrediad ei hafu.

| |
|---|
| Datgelodd Barbara ddefnydd cyfyngedig o alcohol i'r MCHT1, ond ni cheir unrhyw dystiolaeth fod teclynnau sgrinio wedi'u defnyddio na bod unrhyw drafodaeth wedi'i chael |

gyda hi, a fyddai wedi arwain o bosib at gyfeiriad i wasanaeth triniaeth alcohol arbenigol am asesiad a chefnogaeth.

Cafodd y cyswllt â'r defnydd o alcohol a'r risgiau cysylltiedig gyda cham-drin domestig eu methu o bosib.

4.5.9 Gall camddefnyddio alcohol effeithio ar iechyd corfforol a meddwl a chynyddu'r risg o ddatblygu problemau a chyflyrau yn hwyrach mewn bywyd. Er enghraifft, cynyddu'r risg o ddamweiniau, strôc neu glefyd y galon, gweithrediad afu gwael, iselder, dementia, gor-bryder ac amhariad ar y cof[23].

4.5.10 Wrth i bobl fynd yn hŷn, mae alcohol yn cael ei dorri lawr yn arafach ac maent yn dod yn fwy sensitif i effeithiau alcohol. Felly, os yw pobl yn parhau i yfed yr un faint o alcohol wrth iddynt fynd yn hŷn, mae'n debygol o effeithio mwy arnynt. Yn ôl Coleg Brenhinol Seiciatryddion, mae un allan o chwech o ddynion hŷn ac un allan o 15 o ferched hŷn yn *'drinking enough to harm themselves'*[24].

4.5.11 Mae rhoi diagnosis camddefnydd o alcohol mewn oedran hŷn yn gallu bod yn anoddach oherwydd gellir ei guddio gyda salwch a chyflyrau amhenodol megis problemau gastroberfeddol a diffyg cwsg, neu gael ei gamddiagnosio fel dementia neu iselder[25].

4.5.12 Wrth ddedfrydu, dywedodd y Barnwr nad oedd George erioed wedi ymateb i ddadl gyda thrais o'r blaen, hyd yn oed pan oedd yn feddw. Dywedodd y barnwr fod George efallai wedi yfed dipyn y diwrnod hwnnw ond nid oedd hynny'n anarferol iddo ac nid oedd hyn, ynddo'i hun, yn egluro'r hyn a wnaeth.

4.5.13 Mae'r adolygiad yn nodi fod y digwyddiad lle wnaeth Barbara drywanu George pan oedd yn ei wely, wedi digwydd pan oedd hi'n feddw. Fodd bynnag, roedd yn sobor yn y digwyddiad pan fu'n chwilio am y can petrol er mwyn llosgi'r byngalo.

## 4.6 IECHYD BARBARA

4.6.1 Mae'r adolygiad hwn wedi edrych ar gofnodion meddygol Barbara, ei rhyngweithiad â gweithwyr proffesiynol, ac wedi clywed pryderon ei merch, gyda'r bwriad o ddeall a ellir priodoli ei hymddygiad ym misoedd olaf ei bywyd i ddementia heb ei ddiagnosio.

4.6.2 Dywedodd merch Barbara wrth yr adolygiad ei bod yn teimlo bod yr oedi, yn ei barn hi, i gynnal profion i'w mam mewn perthynas â dementia posib, wedi achosi pwysau ychwanegol ar y teulu. Teimlodd fod ei mam wedi twyllo gweithwyr proffesiynol ac wedi dweud celwydd wrthynt. Teimlodd na chymerwyd digon o sylw o beth oedd y rhai oedd yn gofalu am Barbara yn ei adrodd.

4.6.3 Mae'r panel wedi trafod y sefyllfa hon yn helaeth ac mae'n adlewyrchu'r dilema a wynebir gan weithwyr proffesiynol meddygol pan nad yw'r claf yn caniatáu ymyrraeth neu brofion meddygol.

[23] Alcohol, drugs and older people, HSC Public Health Agency,

[24] Ibid.

[25] Older people and alcohol Factsheet, Institute of Alcohol Studies, May 2013

4.6.4 **Caniatâd ar sail gwybodaeth**[26]

4.6.5 Mae egwyddor caniatâd yn rhan bwysig o foeseg feddygol a chyfraith hawliau dynol rhyngwladol. Er mwyn i ganiatâd fod yn ddilys, yr egwyddor sylfaenol yw bod rhaid iddo fod yn wirfoddol ac ar sail gwybodaeth, a rhaid i'r person sy'n caniatáu fod â'r galluedd i wneud y penderfyniad.

4.6.6 Os oes gan yr oedolyn alluedd i wneud penderfyniad gwirfoddol ac ar sail gwybodaeth i ganiatáu neu wrthod triniaeth benodol, rhaid parchu eu penderfyniad.

4.6.7 **Galluedd Barbara i wneud penderfyniadau**

4.6.8 Wrth ddarllen cofnodion Meddyg Teulu Barbara, nid oes unrhyw ymdeimlad ar unrhyw adeg nad oedd ganddi'r galluedd i wneud ei phenderfyniadau ei hun. Gellir dadlau ei *bod* yn deall ei bod angen gwneud newidiadau yn ei bywyd. Cytunodd gyda'i Meddyg Teulu na fyddai'n gyrru ar ôl iddynt symud i ogledd Cymru. Yn yr apwyntiad penodol hwn, ar 26 Mehefin, trefnodd ei Meddyg Teulu i gyfeirio Barbara at y tîm asesu cof/iechyd meddwl. Er yr ymddengys bod Barbara yn cytuno â hyn, llwyddodd i berswadio'r Meddyg Teulu y byddai'n sortio hyn ar ôl iddynt symud i ogledd Cymru. Pan godwyd y mater gan ei merch ar ôl iddynt symud i ogledd Cymru, gwrthododd fynd ar ei ôl. Mae hyn yn awgrymu *bod* ganddi'r galluedd i drin y sefyllfa hon. Ni all neb wybod pam ei bod wedi dewis gwneud hyn, ond gellir dadlau o bosib ei bod yn bryderus beth allent ei ddarganfod, a arweiniodd at ei chyndynrwydd i ymwneud â'r broses.

4.6.9 Ar 21 Hydref, pan oedd Barbara yn paratoi i adael yr ysbyty, cynghorwyd y ward gan ei merch ei bod yn hynod bryderus am ei mam yn dod adref oherwydd *'[she] would not be safe at home'* gan nad oedd George yn gallu edrych ar ôl ei hun, a bod hithau'n ofalwr i'w gŵr oedd yn dioddef o glefyd Alzheimer. Pan siaradodd nyrs gyda Barbara ynglŷn â pham ei bod wedi dod i'r ysbyty, fe wnaeth Barbara gydnabod ei bod angen help ond dywedodd y byddai'n trefnu hyn ei hun.

**Mae'r adolygiad yn ystyried fod y digwyddiadau hyn yn dangos fod Barbara yn hen law ar ddweud yr hyn oedd yn feddwl oedd pobl eisiau ei glywed, ac am gadw hyd braich rhyngddi a gweithwyr proffesiynol.**

4.6.10 **Diagnosis o ddementia**

4.6.11 Mae cyndynrwydd Barbara i fynd ynglŷn ag asesiad gan weithwyr proffesiynol priodol yn golygu fod cwestiwn heb ei ateb gan y teulu ynghylch p'un a oedd yn dioddef o gamau cynnar dementia.

4.6.12 Codwyd y pryderon am weithrediad gwybyddol Barbara yn gyntaf gan ei theulu, yn 2015 ac eto yn 2016, pan gafodd haint ar y llwybr wrinol. Ar y ddau achlysur, arweiniodd hyn yn ddigon arferol at bryderon am ei gweithrediad gwybyddol. Yn 2016, trafododd George a'i ferch gof Barbara a'r dirywiad oeddent wedi'i weld, hyn yn oed cyn yr haint ar y llwybr wrinol. Ym mis Mawrth 2016, cafodd Barbara lawdriniaeth hysterectomy a wnaeth ddatrys yr heintiau ar y llwybr wrinol ac, yn ei dro, fe wnaeth ei gweithrediad gwybyddol wella rhyw gymaint.

[26]MCHT1ps://www.nhs.uk/conditions/consent-to-treatment/

4.6.13 Yn 2017, cododd Caroline ei phryderon unwaith eto gyda'r Meddyg Teulu am gof ei mam. Ar yr adeg hon, cwblhaodd y Meddyg Teulu GPCOG10[27]. Gan ei bod wedi sgorio marciau llawn, nodwyd nad oedd unrhyw amhariad.

4.6.14 Ym mis Mai 2018, cafodd Barbara sgan MRI ac adroddodd wrth ei merch ei bod wedi cael gwybod bod hyn yn normal i rywun o'i hoed.

4.6.15 Mae'n bwysig fod yr adolygiad yn cofio fod gŵr merch Barbara wedi cael diagnosis o ddementia cynnar ym mis Mehefin 2018, a'i bod o'r farn gref fod ei mam yn arddangos nodweddion tebyg. Er ei bod yn gallu ymdrin â gweithgareddau dyddiol yn ei chartref, dechreuodd ddrysu gyda thasgau mwy cymhleth.

4.6.16 Aeth merch Barbara gyda'i mam at y Meddyg Teulu ar ddiwedd mis Mehefin, oherwydd ei bod yn bryderus am gof ei mam, ei dryswch a'i gallu i yrru. Yn ystod yr ymweliad, ceisiodd y Meddyg Teulu ei sicrhau nad oedd dim i boeni amdano ar yr MRI a bod ei phryderon yn arwydd arferol o fynd yn hŷn. Gan fod merch Barbara yn parhau i boeni, cytunodd y Meddyg Teulu i'w mam gael ei chyfeirio at y tîm iechyd meddwl/asesu cof. Gan eu bod ar fin symud, gofynnodd Barbara i hyn gael ei oedi tan y byddai wedi setlo yng ngogledd Cymru. Ond, fel y gwyddwn, gwrthododd Barbara i fynd ynglŷn â hyn wedyn.

4.6.17 Ar ôl symud ar ddechrau mis Awst, dywedodd merch Barbara nad oedd ei mam yn gallu rheoli materion yn y cartref a byddai'n aml yn mynd â'i ffôn i gartref ei merch fel y gallai siarad ar ei rhan.

**Cydnabu'r panel nad dyma ymddygiad normal ei mam a'i bod hi wedi gweld newidiadau sylweddol. Petai ei mam heb golli'i bywyd ym mis Rhagfyr 2019, nid oes unrhyw amheuaeth gan yr adolygiad y byddai ei merch wedi parhau i geisio cael asesiad llawn i'w mam. Yn ei dro, byddai hynny wedi rhoi ateb i'r cwestiwn ond nid oes gennym yr ateb.**

4.6.18 **Iselder**

4.6.19 Er nad ydym yn gwybod os oedd Barbara yn dioddef o ddementia, gwyddwn ei bod wedi derbyn diagnosis o iselder.

4.6.20 Ym mis Rhagfyr 2018, cymerodd Barbara orddos ac aethpwyd â hi i'r ysbyty.

4.6.21 Pan welodd Barbara nyrs y feddygfa ar 7 Ionawr 2019, cafodd iselder ei grybwyll; fodd bynnag, gwrthododd weld y meddyg i drafod hyn ymhellach. Aeth i weld y Meddyg Teulu ychydig ddyddiau wedyn, ar 10 Ionawr, am archwiliad claf newydd. Nodwyd ei bod wedi colli dwy stôn yn ei phwysau ers symud i ogledd Cymru, ond nid oedd yn dioddef o iselder clinigol.

| |
|---|
| O gofnodion y Meddyg Teulu, nid yw'n bosib canfod sut wnaeth y meddyg ddiagnosio nad oedd Barbara yn dioddef o iselder, ond mae'r panel yn synnu nad archwiliwyd hyn ymhellach o ystyried ei bod wedi siarad am deimlo'n isel yn y feddygfa, ddwywaith ymhen ychydig ddyddiau. |

[27]Asesiad o Wybyddiaeth gan Feddyg Teulu

4.6.22 Ym mis Awst 2019, siaradodd merch Barbara gyda gweithiwr proffesiynol, oedd yn cefnogi ei gŵr, ynglŷn â sut fyddai ei mam yn siarad gyda hi am ba mor ddrwg oedd yn ei deimlo a pha mor isel oedd hi, ond ni fyddai'n cytuno iddi gael ei chyfeirio at arbenigwr.

4.6.23 Ar 5 Hydref, dywedodd Barbara wrth ei merch ei bod *'wanted to end it all'.* Dridiau yn ddiweddarach, deffrodd George ac ni allai ddeffro Barbara. Cafodd ambiwlans ei galw ac awgrymodd Caroline iddynt efallai bod ei mam wedi cymryd gorddos a'i bod yn credu fod ei mam yn dangos arwyddion o ddementia.

4.6.24 Roedd Barbara yn glir iawn gyda'r nyrsys ei bod eisiau rhoi terfyn ar ei bywyd a'i bod yn dal i deimlo'r un fath. Pan gafodd ei gweld gan y Tîm Crisis ar 21 Hydref, sylweddolodd y bu bron iddi farw. Nodwyd bod ei hwyliau wedi gwella a sylweddolodd fod angen i bethau newid adref: roedd yn benderfynol fod hyn yn mynd i ddigwydd. Gwadodd unrhyw syniadaeth am hunanladdiad a phroblemau gydag alcohol.

4.6.25 Pan gyfarfu Barbara â MCHT1 am y tro cyntaf, ymddengys fod ganddi syniad da o'r unigedd cymdeithasol oedd yn ei deimlo. Dywedodd nad oedd hi a George byth yn gwneud dim byd difyr gyda'i gilydd, nad oedd ganddynt gar bellach a bod ganddi hiraeth am gwmni ei chwaer. Roedd yn cael trafferth addasu i fyw mewn pentref bach, tawel ac anghysbell. Dywedodd ei bod yn cael trafferth integreiddio i'r gymuned leol a'i bod yn teimlo'n unig.

4.6.26 Ar 7 Tachwedd, cafodd meddygfa Barbara lythyr gan yr Uned Iechyd Meddwl Aciwt oedd yn cynghori ei bod yn profi iselder difrifol.

4.6.27 Pan aethpwyd â Barbara i'r ysbyty gyda'r hyn a gafodd ei ddiagnosio fel Parlys Bell ar 27 Tachwedd, nodwyd ei bod yn '*positive and motivated'*.

**Nid oes unrhyw amheuaeth fod Barbara wedi profi iselder dros gyfnod o amser a chafodd ei disgrifio fel rhywun ag iselder difrifol ychydig wythnosau cyn ei marwolaeth. O ystyried yr hanes hir o gamdriniaeth yn y briodas, nid yw'r adolygiad yn gallu gwneud sylw i ba raddau y gallai ei chyflwr isel fod wedi cyfrannu at ei chyflwr meddyliol ar y diwrnod y bu farw.**

4.6.28 **Barn Caroline am ymglymiad y teulu wrth gynllunio gofal**

4.6.29 Mae merch Barbara yn cofio meddyg iau a meddyg ymgynghorol yn trafod hanes meddygol ei mam yn llawnach gyda hi ar noson yr 8fed Hydref. Dywedwyd wrth y meddyg ymgynghorol bod ei mam wedi dweud ei bod eisiau dod â'r cwbl i ben ychydig ddyddiau yn gynharach ac nad oedd yn addasu'n dda yn yr ardal newydd.

4.6.30 Ar y pwynt hwnnw, mae merch Barbara yn cofio cael gwybod, petai ei mam yn gwella, y byddai'n cael asesiad iechyd meddwl ac y byddai pecyn gofal yn cael ei roi yn ei le cyn iddi adael yr ysbyty. Yn y sgwrs hon, mae Caroline yn eu cofio'n dweud ei bod wedi torri asgwrn o bosib yn ei harddwrn dde - ar y pryd, nid oedd Caroline yn gwybod fod hynny wedi digwydd. Nid oes unrhyw gyfeiriad at hyn yn y nodiadau meddygol ac nid yw staff meddygol yn cofio hyn.

4.6.31 Aeth â George i weld Barbara ar bnawn dydd Iau, 9fed, ac roeddent wedi dweud wrthynt ar y pryd ei bod yn debygol y byddai'n marw. Yn ystod y daith, dywedodd George wrth ei ferch sut oedd yr anaf posib i'r arddwrn wedi digwydd: dywedodd hithau wrth aelod o staff, ond nid yw'n gallu cofio pwy. Ni ellir canfod unrhyw gofnod o hyn yng nghofnodion Barbara. Tua'r adeg yma, ag yntau adref, dywedodd George wrth ei ferch am y can petrol a'i chynllun

i losgi'r byngalo, ac am ei chyflwr meddyliol oedd yn gwaethygu. Nid oedd yn gwybod am hyn tan yr adeg yma.

4.6.32 Cyn gynted ag yr aeth â George adref, dychwelodd merch Barbara i'r ysbyty. Roedd chwaer Barbara yno hefyd gyda'i gŵr a'i mab. Arhosodd yn yr ysbyty tan ddiwedd prynhawn yr 11eg.

4.6.33 Ar y 12fed, roedd merch Barbara newydd fynd i'r car i ddychwelyd i'r ysbyty pan gafodd alwad ffôn i ddweud bod ei mam wedi cael ffit ac roedd yn marw. Pan gyrhaeddodd yr ysbyty, roedd yr unigolyn oedd yn ei hasesu ar gyfer trawsblaniad afu hefyd yn bresennol. Siaradwyd am yn hir am ei hiechyd yn gyffredinol. Cafodd wybod oherwydd ei hoed, ymdrech i ladd ei hun, yfed a dementia posib, na fyddent yn ystyried trawsblaniad iau. Roedd hyn wedi ei grybwyll iddi o'r blaen, ond nid yw'n gallu cofio gan bwy a phryd.

4.6.34 Yn hwyr ar y 12fed, aeth merch Barbara i aros mewn gwesty lleol gan ddychwelyd i'r ysbyty ar y 13eg. Dywedodd ei bod wedi'i chynghori eto na fyddai ei mam yn dod drwyddi. Symudwyd ei mam i ystafell breifat ac wedyn ymlaen i Uned Strôc Aciwt. Wedi cyrraedd gofynnwyd iddi lenwi taflen 'Rhyddhau Gwybodaeth'. Roedd y cwestiynau helaeth am ei hanes meddygol, amgylchiadau a sut y byddai yn ymdopi ar ôl gadael yr ysbyty. Heriodd merch Barbara pam eu bod yn gofyn iddi lenwi'r ffurflen hon pan nad oedd ei mam yn debygol o oroesi. Cafodd wybod mai dyma oedd y drefn arferol. Aeth yn ei blaen ond nododd y gallai weld nad oedd popeth a ddywedodd yn cael ei ysgrifennu ar y ffurflen ond gan nad oedd yn credu fod fawr o bwynt ni wnaeth herio hyn.

4.6.35 Arhosodd mewn gwesty eto ar y noson honno a phan ddychwelodd ar y 14eg, roedd Barbara wedi dechrau gwella: fe aeth adref ganol y prynhawn. Pan ddychwelodd ar y 15fed, gwelodd bedwerydd feddyg ymgynghorol a drafododd adferiad Barbara gyda hi. Trafododd adael Barbara adref o'r ysbyty a dywedodd eu bod yn ystyried ei throsglwyddo i ysbyty cymunedol i gael asesiad iechyd meddwl, oherwydd eu pryderon.

4.6.36 Dros yr wythnos nesaf, aeth merch Barbara yn ôl a blaen i'r ysbyty. Roedd Barbara wedi cael ei symud i ward y galon ac roeddent yn trafod iddi adael yr ysbyty. Pan holodd merch Barbara am y ffurflen ('Rhyddhau Gwybodaeth') a lenwodd ar y 12fed, nid oeddent yn gwybod dim amdani. Bryd hynny dechreuodd bryderu eu bod yn taflu llwch i'w llygaid a bod Barbara'n mynd i adael yr ysbyty a chael ei rhoi yn ei gofal hi yn gyfan gwbl. Ar y pryd, roedd Barbara yn gwrthod bwyta ac yn diffygio yn rheolaidd.

4.6.37 Tra'r oedd Barbara yn yr ysbyty, gallai George gysgu'n dawel: roedd yn ofnus iawn o'r adeg pan fyddai'n dod adref o'r ysbyty.

4.6.38 Yn ei Datganiad Effaith Dioddefwr, oedd yn rhan o'r broses droseddol, cyfeiriodd merch Barbara atynt fel teulu mewn crisis yn gweiddi am help. Mae'r adolygiad hwn wedi ceisio cydnabod barn y teulu wedi'i chydbwyso yn erbyn cofnodion asiantaethau gweithwyr oedd ynghlwm â chefnogi'r teulu ar yr adeg hon.

## Adran Pump - Dull Cymru o Ymdrin â Cham-drin Domestig

5.1 **Strategaeth Genedlaethol ar Drais yn Erbyn Merched, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol**

5.1.1 Ym mis Gorffennaf 2018, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei Fframwaith Cyflawni Traws-lywodraethol ar gyfer 2018-2021[28], sy'n cyd-fynd â Strategaeth Genedlaethol Llywodraeth Cymru, sy'n ofynnol gan Ddeddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015. Mae'r ddogfen hon yn amlinellu sut mae Llywodraeth Cymru yn cyflawni'r camau gweithredu a amlinellir yn y Strategaeth.

5.1.2 Mae gan y strategaeth hon chwe amcan y mae Gweinidogion Cymru yn disgwyl eu cyflawni erbyn mis Tachwedd 2021:

**Trefniadau ar gyfer Atal trais yn erbyn merched, cam-drin domestig a thrais rhywiol**

- Cynyddu ymwybyddiaeth a herio agweddau tuag at drais yn erbyn merched, cam-drin domestig a thrais rhywiol ar draws poblogaeth Cymru
- Cynyddu ymwybyddiaeth ymysg plant a phobl ifanc o bwysigrwydd perthnasau diogel, cyfartal ac iach, a bod ymddygiad camdriniol yn anghywir bob amser
- Canolbwyntio fwy ar ddwyn cyflawnwyr i gyfrif, gan ddarparu cyfleoedd iddynt newid eu hymddygiad, yn seiliedig ar ddiogelwch y dioddefwyr
- Blaenoriaethu ymyrraeth gynnar a gwaith ataliol

**Trefniadau ar gyfer Amddiffyn dioddefwyr trais yn erbyn merched, trais domestig a thrais rhywiol**

- Hyfforddi gweithwyr proffesiynol perthnasol i ymateb mewn modd effeithiol, amserol ac addas i ddioddefwyr a goroeswyr

**Cefnogaeth i bobl sydd wedi'u heffeithio gan drais yn erbyn merched, cam-drin domestig a thrais rhywiol**

- Darparu mynediad cyfartal i ddioddefwyr at wasanaethau o ansawdd uchel gydag adnoddau addas, sydd wedi'u harwain gan anghenion, yn seiliedig ar gryfderau ac yn ymateb i rywedd, ar draws Cymru

5.1.3 Mae'r Fframwaith Cyflawni Traws-lywodraethol yn amlinellu'r camau gweithredu penodol fydd yn cael eu gwneud er mwyn cyflawni'r amcanion. Mae cyflawni'r strategaeth yn unol â'r pum ffordd o weithio a amlinellir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 drwy:

- Ymgysylltiad
- Atal
- Integreiddio
- Meddwl yn hirdymor
- Cydweithio

5.1.4 Yr hyn sy'n nodedig yn y camau a gymerwyd gan Lywodraeth Cymru yw:

- Datblygu ymgyrch 'Dyma Fi' sydd â'r nod o ymdrin â stereoteipio ar sail rhyw
- Datblygu ymgyrch 'Paid Cadw'n Dawel' sy'n annog unrhyw un sy'n pryderu am rywun i ofyn 'wyt ti'n iawn?'

[28]MCHT1ps://senedd.wales/laid%20documents/gen-ld11671/gen-ld11671-e.pdf

- Datblygu a chyhoeddi'r Fframwaith Hyfforddi Cenedlaethol sy'n ganllaw statudol
- Datblygu rhaglen e-ddysgu i godi ymwybyddiaeth, cynyddu gwybodaeth am yr arwyddion a gwella hyder dysgwyr i gynnig help drwy linell gymorth Byw Heb Ofn.
- Ariannu hyfforddiant cenedlaethol ar gyfer gweithwyr cam-drin domestig, cynyddu nifer y gweithwyr proffesiynol cymwys, arbenigol yn sylweddol ar draws Cymru
- Datblygu dull ar sail egwyddorion ar gyfer atal - 'Gofyn a Gweithredu'

5.1.5 Mae'r Fframwaith hwn yn cael ei adolygu'n flynyddol i sicrhau ei fod yn adlewyrchu'r gwaith a wneir ac a gynllunnir yn gywir.

5.2 **'Gofyn a Gweithredu'**[29]

5.2.1 Mae 'Gofyn a Gweithredu' yn broses o ymholiad wedi'i thargedu sydd i'w hymarfer ar draws y Gwasanaeth Cyhoeddus i adnabod trais yn erbyn merched, cam-drin domestig a thrais rhywiol. Mae'r term 'ymholiad wedi'i dargedu' yn disgrifio cydnabod arwyddion o drais yn erbyn merched, cam-drin domestig a thrais rhywiol fel symbyliad i weithiwr proffesiynol ofyn i'w cleient p'un a ydynt wedi'u heffeithio gan unrhyw un o'r materion hyn.

5.2.2 Amcanion 'Gofyn a Gweithredu' yw:

- Cynyddu'r gwaith o adnabod y rhai sy'n profi trais yn erbyn merched, cam-drin domestig a thrais rhywiol
- Cynnig cyfeiriadau ac ymyraethau i'r rhai a adnabyddir, sy'n darparu cefnogaeth arbenigol ar sail risg ac angen y cleient
- Dechrau diwylliant ar draws Gwasanaeth Cyhoeddus lle mae ymdrin â thrais yn erbyn merched, cam-drin domestig a thrais rhywiol yn cael ei ddeall yn y cyd-destun cywir, lle mae datgeliad yn cael ei dderbyn a'i hwyluso, a bod cefnogaeth yn briodol a chyson
- Gwella'r ymateb i'r rhai sy'n profi trais yn erbyn merched, cam-drin domestig a thrais rhywiol gydag anghenion cymhleth eraill megis camddefnyddio sylweddau ac iechyd meddwl; ac
- Ymgysylltu'n rhagweithiol gyda'r rhai sy'n fregus a chuddiedig, ar y cyfle cynharaf, yn hytrach nag ymgysylltu'n adweithiol gyda'r rhai sydd mewn crisis neu mewn perygl buan iawn o niwed difrifol

5.2.3 Mae Llywodraeth Cymru yn pwysleisio nad yw'n disgwyl i'r un broses 'Gofyn a Gweithredu' gael ei gweithredu ym mhob sefydliad, ond dylai pob sefydliad ystyried sut i gynnig 'Gofyn a Gweithredu' o fewn eu gweithrediadau amrywiol a'u rolau proffesiynol.

5.2.4 Cyflwynir elfen hyfforddiant 'Gofyn a Gweithredu' drwy'r Fframwaith Hyfforddi Cenedlaethol.

5.2.5 Mae'r Fframwaith Cyflawni Traws-lywodraethol ar gyfer 2018-2021 wedi ymrwymo i:

- Gyflwyno 'Gofyn a Gweithredu' yn genedlaethol
- Parhau i fonitro effaith y dogfennau hyn ac adolygu ac ailgyhoeddi gyda darpariaethau statudol os oes angen

5.2.6 Mae Strategaeth Trais yn Erbyn Merched, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol Gogledd Cymru 2018-2023[30] wedi ymrwymo i:

[29]MCHT1ps://gov.wales/identifying-violence-against-women-domestic-abuse-and-sexual-violence-ask-and-act
[30]MCHT1ps://www.northwalessafeguardingboard.wales/wp-content/uploads/2018/03/North-Wales-VAWDASV-Strategy-2018-23.pdf

- Gyflwyno 'Gofyn a Gweithredu' Grŵp 2 a 3 ar draws Gogledd Cymru o fis Ebrill 2018
- Ymholiad arferol o fewn BIPBC a sicrhau cysondeb a'i gyflwyno ar draws yr holl wasanaethau iechyd
- Gwasanaethau iechyd meddwl yn gweithredu Grŵp 2 y Fframwaith Hyfforddi Cenedlaethol (FfHC)

| |
|---|
| Mae'r adolygiad yn nodi nad yw'r ward lle'r oedd Barbara wedi derbyn triniaeth yn BIPHDd wedi bod yn y grŵp blaenoriaeth ar gyfer hyfforddiant ar 'Gofyn a Gweithredu'. Dechreuodd y Bwrdd Iechyd gyflwyno 'GaG', fel yr amlinellwyd gan y FfHC, ym mlynyddoedd 1 a 2 i grwpiau blaenoriaeth, ond mae gofyn i'r holl staff yn y Bwrdd Iechyd i wneud hyfforddiant Grŵp 1 VAWDASV. |

**Mae'r adolygiad yn nodi fod 'Gofyn a Gweithredu' bellach yn cael ei gynnig i'r holl staff sydd angen cymhwysedd, ac mae cynnydd da yn cael ei wneud gyda chydymffurfiaeth.**

5.2.7 Mynegwyd pryder gan y Panel Adolygu na roddwyd digon o sylw i gam-drin domestig a phobl hŷn yn yr hyfforddiant 'Gofyn a Gweithredu'.

**Argymhelliad 12**
**Argymhellir bod Llywodraeth Cymru yn adolygu cynnwys yr hyfforddiant 'Gofyn a Gweithredu' i sicrhau ei fod yn cyfleu'n ddigonol pa mor gyffredin yw cam-drin domestig a'i heriau yng nghyswllt pobl hŷn, ac yng nghyswllt merched hŷn fel y rhai sy'n cyflawni'r trais.**

5.3 **Fframwaith Hyfforddi Cenedlaethol**

5.3.1 Mae Fframwaith Hyfforddi Cenedlaethol Llywodraeth Cymru[31] yn amlinellu gofynion statudol ar gyfer hyfforddiant ar draws y Gwasanaeth Cyhoeddus a'r trydydd sector arbenigol. Mae'n cynnwys chwe phwyllgor. Bydd yr holl broffesiynau o fewn Gwasanaeth Cyhoeddus yn perthyn i un o'r grwpiau yma ac amlinellir yr isafswm gofynion hyfforddiant fesul grŵp.

5.3.2 Dyma'r grwpiau:
- E-ddysgu - cyflwynir hwn drwy Learning@Wales, platfform e-ddysgu cenedlaethol
- 'Gofyn a Gweithredu'
- Pencampwyr 'Gofyn a Gweithredu'
- Sector arbenigol - wedi'i anelu at weithwyr proffesiynol sydd â grŵp o gleientiaid sydd wedi'u heffeithio gan drais yn erbyn merched, cam-drin domestig a thrais rhywiol yn unig
- Rheolwyr y sector arbenigol
- Arweinwyr gwasanaethau cyhoeddus

5.3.3 Mae E-ddysgu ar gyfer yr *holl* weithwyr proffesiynol sy'n gweithio yn y sector cyhoeddus. Mae'r hyfforddiant yn darparu:
- Ymwybyddiaeth sylfaenol o beth yw trais yn erbyn merched, cam-drin domestig a thrais rhywiol
- Sut i adnabod cam-drin domestig a thrais rhywiol
- Yr help sydd ar gael i ddioddefwyr

[31]MCHT1ps://gov.wales/national-training-framework-violence-against-women-domestic-abuse-and-sexual-violence

5.3.4 Dywed dogfen gyflawni'r Strategaeth Genedlaethol y byddent yn gweithredu'r Fframwaith Hyfforddi Cenedlaethol yn llawn, gan sicrhau bod gweithwyr proffesiynol perthnasol yn cael eu hyfforddi i ddarparu ymatebion effeithiol, amserol a phriodol i ddioddefwyr a goroeswyr.

*5.3.5* Mae asesiad ymgynghorwyr cenedlaethol o lwyddiannau Llywodraeth Cymru yn 2019 i 2015[32], yn datgan: *'The National Training Framework (NTF) up-skills public services to respond more effectively to those experiencing abuse. During the past year there has been significant work to meet the statutory requirements of the NTF for training to raise basic awareness of VAWDASV in the relevant authorities. We are pleased with the drive and commitment to engage workforce in their development, the targets and completion rates continue to provide confidence in professionals responding to the needs of victims and survivors of abuse.'*

5.3.6 Mae Strategaeth Trais yn Erbyn Merched, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol Gogledd Cymru 2018-2023[33], wedi ymrwymo i Is-grŵp Hyfforddiant er mwyn datblygu prosiect FfHC a chynllun gweithredu llawn ar gyfer y pum mlynedd nesaf: gan ddangos sut fydd y Fframwaith Hyfforddi Cenedlaethol yn cael ei gyflwyno, pryd fydd pob awdurdod lleol yn dechrau ei gyflwyno a sut fydd hyn yn cael ei fonitro.

5.3.7 Mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr wedi datblygu pecyn hyfforddiant i Feddygon Teulu, ond ni allant orfodi Meddygon Teulu i'w ddefnyddio.

5.4 **Llinell Gymorth Byw Heb Ofn**

5.4.1 Mae'r llinell gymorth yn darparu help a chyngor ar drais yn erbyn merched, cam-drin domestig a thrais rhywiol. Ariennir y llinell gymorth gan Lywodraeth Cymru sydd wedi ymrwymo i barhau i ariannu'r gefnogaeth 24 awr a chyfrinachol yma.

5.4.2 Mae Strategaeth Trais yn Erbyn Merched, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol Gogledd Cymru 2018-2023[34], wedi ymrwymo i sicrhau bod digon o adnoddau ar gael i wneud yn siŵr fod gan boblogaeth Gogledd Cymru fynediad i'r llinell gymorth 24 awr.

5.5 **Adolygiadau Lladdiad Domestig**

5.5.1 Mae prosiect Adolygiad Diogelu Unedig Sengl (SUSR) Llywodraeth Cymru yn gweithio i greu proses adolygu diogelu lle mae dull amlasiantaethol yn ofynnol, gan ymgorffori'r prosesau adolygu a ganlyn: Adolygiad Ymarfer Oedolion; Adolygiad Ymarfer Plentyn; Adolygiad Lladdiad Domestig; Adolygiad Lladdiad Iechyd Meddwl.

5.5.2 Yna, mae'r adroddiad SUSR terfynol yn cael ei gyflwyno i Storfa Ddiogelu Cymru lle mae'r holl adolygiadau diogelu yn cael eu coladu, eu curadu a'u defnyddio i hysbysu ymarfer proffesiynol. Mae hyn yn galluogi data i gael ei dynnu ohono a'i ddefnyddio gan ymarferwyr drwy blatfform archifol, sy'n trawsnewid gwybodaeth yn ffurfiau defnyddiadwy gyda ffocws ar ddysgu.

---

[32]MCHT1ps://gov.wales/violence-against-women-domestic-abuse-and-sexual-violence-national-advisers-annual-report-2019-2020-html#section-50329

[33]MCHT1ps://www.northwalessafeguardingboard.wales/wp-content/uploads/2018/03/North-Wales-VAWDASV-Strategy-2018-23.pdf

[34]MCHT1ps://www.northwalessafeguardingboard.wales/wp-content/uploads/2018/03/North-Wales-VAWDASV-Strategy-2018-23.pdf

5.5.3 Bydd hyn yn sicrhau bod yr holl argymhellion yn cael eu coladu mewn lleoliad canolog i sicrhau bod unrhyw ddysgu a nodir yn cael ei ymgorffori mewn polisi a dysg ar draws Cymru. Dyma'r ystorfa gyntaf o'i math sy'n ymgymryd ag archwiliadau thematig yn defnyddio gwyddorau cymdeithasol a safbwyntiau cyfrifiadureg. Bydd hefyd yn rhagweithiol drwy hysbysu paneli, ar ddechrau adolygiad, o ddigwyddiadau tebyg a'r argymhellion a wnaed ar draws Cymru.

5.6 **Ymyraethau IRIS**[35]

5.6.1 Model hyfforddi, cyfeirio ac eiriolaeth yw'r rhaglen IRIS (Adnabod a Chyfeirio i Wella Diogelwch) i gefnogi clinigwyr yn y gwasanaeth iechyd i gefnogi eu cleifion a effeithir gan gam-drin domestig yn well, ac i gynyddu ymwybyddiaeth o drais a cham-drin domestig o fewn practis cyffredinol. Mae IRIS yn darparu hyfforddiant cam-drin domestig arbenigol i weithwyr proffesiynol clinigol ochr yn ochr â staff gweinyddol, mewn meddygfeydd lleol.

5.6.2 Mae Strategaeth Trais yn Erbyn Merched, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol Gogledd Cymru 2018-2023[36], wedi ymrwymo i ystyried gweithredu prosiect tebyg i'r rhaglen IRIS, gan ddefnyddio'r model a chymhwyso hyn i VAWDASV (cyflwyno darpariaeth Cynghorydd Annibynnol ar Drais Domestig (IDVA) mewn meddygfeydd, yn ogystal â darpariaeth iechyd sylfaenol arall).

5.6.3 Ar hyn o bryd, mae cynllun peilot ar waith mewn ardal arall o ogledd Cymru (Conwy a Sir Ddinbych), ar draws clwstwr o Feddygon Teulu.

[35]MCHT1ps://irisi.org/

[36]MCHT1ps://www.northwalessafeguardingboard.wales/wp-content/uploads/2018/03/North-Wales-VAWDASV-Strategy-2018-23.pdf

## Adran Chwech - Gwersi a Nodwyd

6.1 **BWRDD IECHYD PRIFYSGOL BETSI CADWALADR (BIPBC) ar ran y Meddyg Teulu yng ngogledd Cymru**

6.1.1 Er yr aseswyd yr anghenion corfforol a'u cwrdd, nid oes cyfeiriad at lesiant seicolegol Barbara na George yn cael sylw nac ystyriaeth uniongyrchol.

6.1.2 Dim ymgysylltiad llafar rhwng y gwasanaethau Gofal Sylfaenol Meddyg Teulu a gwasanaethau IMAD i drafod ymwneud ac ymyraethau.

6.1.3 Nid oes unrhyw gofnod bod sesiwn briffio meddygfa *SaveLives Pathfinder* wedi cael ei gynnal. Mae hyn yn amlygu pwysigrwydd cynnal yr Ymholiad Arferol Cam-drin Domestig (RE DA), lle mae staff rheng-flaen yn gofyn i bob defnyddiwr gwasanaeth am eu profiad o gam-drin domestig, p'un a oes arwyddion neu amheuaeth o gamdriniaeth neu beidio. Roedd Barbara wedi datgelu iselder a'i bod wedi ceisio cymryd ei bywyd ei hun - mae'r rhain yn ddangosyddion i awgrymu y gallai cam-drin domestig fod wedi cael ei drafod.

6.2 **BWRDD IECHYD PRIFYSGOL BETSI CADWALADR (BIPBC) Tîm Triniaeth Cartref**

6.2.1 Ni fu unrhyw ystyriaeth o ymholiad cam-drin domestig arferol yn ystod yr asesiad cychwynnol, neu wrth dderbyn cyfeiriad ar ôl y gorddos o'r ysbyty cyffredinol.

6.2.2 Nid oedd unrhyw dystiolaeth bod ymholiad cam-drin domestig dewisol neu arferol wedi'i gynnal yn ystod y llinell amser hon.

6.2.3 Ni wyddys am unrhyw wybodaeth feddygol neu seicolegol flaenorol.

6.3 **BWRDD IECHYD PRIFYSGOL HYWEL DDA ar ran yr ysbyty cyffredinol**

6.3.1 Y gallai unigolion godi pryderon ynghylch y camau sy'n cael eu cymryd neu eu disgwyliadau a bod angen i staff fod yn fwy chwilfrydig ynghylch y pryderon hyn.

6.3.2 Nid oes unrhyw dystiolaeth bod ymarferwyr wedi adnabod Barbara fel cyflawnwr cam-drin domestig posib a'i gŵr fel dioddefwr posib.

6.3.3 Roedd diffyg chwilfrydedd proffesiynol wrth sefydlu pa gamau a gymerodd merch Barbara mewn ymateb i'r datgeliadau, ac wrth sefydlu beth oedd hi'n ddisgwyl fel deilliant ar ôl gwneud y datgeliadau hynny.

6.3.4 Dylai bod MARF wedi'i gyflwyno i'r awdurdod lleol i rannu gwybodaeth ac er mwyn cynnal asesiad o risgiau a darparu cynllun cefnogi fel oedd yn briodol.

6.4 **PARTNERIAETH DIOGELWCH CYMUNEDOL GWYNEDD A MÔN**

6.4.1 Ymddengys bod diffyg dealltwriaeth yn y gymuned leol am gam-drin domestig - beth ydyw a phwy a allai ddioddef camdriniaeth.

6.5 **LLYWODRAETH CYMRU**

6.5.1 Nid yw'r hyfforddiant 'Gofyn a Gweithredu' yn arddangos yn ddigonol pa mor gyffredin yw cam-drin domestig na'r heriau cam-drin domestig sy'n cael eu profi gan bobl hŷn a'r gamdriniaeth sy'n cael ei chyflawni gan ferched.

## Adran Saith - Argymhellion

7.1 **BWRDD IECHYD PRIFYSGOL BETSI CADWALADR (BIPBC) mewn perthynas â'r gwasanaeth Meddyg Teulu**

7.1.1 Bod BIPBC yn sicrhau bod y wybodaeth ddeddfwriaethol berthnasol ar Ddeddf Trais yn Erbyn Merched, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (VAWDASV) a'r Weithdrefn Defnyddwyr Gwasanaeth VAWDASV yn cael ei rhannu ymhlith yr holl feddygfeydd Meddyg Teulu yng ngogledd Cymru.

7.1.2 Bod BIPBC yn sicrhau bod hyfforddiant ynghylch cam-drin domestig ar gael i'r holl feddygfeydd Meddygon Teulu yng ngogledd Cymru, ac yn ceisio sicrwydd gan reolwyr meddygfeydd ynglŷn â chydymffurfiaeth â'r hyfforddiant.

7.1.3 Bod BIPBC yn adolygu dogfennau'r Tîm Aml-Ddisgyblaethol (MDT) i sicrhau bod ystyriaeth i ymgysylltu'n ehangach â gwasanaethau er mwyn adnabod llwybr cyfathrebu clir rhwng gwasanaethau Iechyd Meddwl ac Anabledd Dysgu (IMAD) a meddygfeydd.

7.2 **BWRDD IECHYD PRIFYSGOL BETSI CADWALADR (BIPBC) - Tîm Triniaeth Cartref**

7.2.1 Bod BIPBC yn sicrhau archwiliadau chwarterol rheolaidd o'r cofnodion clinigol mewn perthynas â'r targedau cam-drin domestig allweddol.

7.2.2 BIPBC yn diweddaru ac yn hwyluso hyfforddiant diogelu Lefel 3 ar draws gwasanaethau IMAD mewn perthynas â deddfwriaeth ac ymarfer cam-drin domestig.

7.2.3 Bod BIPBC yn sicrhau bod yr holl wybodaeth ddeddfwriaethol berthnasol ar VAWDASV a'r Weithdrefn Defnyddwyr Gwasanaeth VAWDASV yn cael ei rhannu ar draws yr holl wasanaethau IMAD.

7.2.4 Bod BIPBC yn adolygu dogfennau'r Tîm Aml-Ddisgyblaethol i sicrhau bod ystyriaeth i ymgysylltu'n ehangach â gwasanaethau er mwyn adnabod llwybr cyfathrebu clir rhwng gwasanaethau IMAD a meddygfeydd.

7.3 **BWRDD IECHYD PRIFYSGOL HYWEL DDA ar ran yr ysbyty cyffredinol**

7.3.1 Bod y BIP yn cynnal sesiwn ymarfer myfyriol gyda staff yn edrych ar chwilfrydedd proffesiynol pan fo unigolion yn codi pryderon am y camau a gymerwyd a'r disgwyliadau.

7.4 **PARTNERIAETH DIOGELWCH CYMUNEDOL GWYNEDD A MÔN**

7.4.1 Bod y Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol yn cynnal cyfres o ymgyrchoedd codi ymwybyddiaeth yn yr ardal leol. Dylai'r rhain ganolbwyntio ar ddioddefwyr gwrywaidd o gam-drin domestig, a dioddefwyr hŷn o gam-drin domestig. Dylid targedu'r ymgyrchoedd lle byddant yn fwyaf tebygol o gyrraedd y grwpiau hyn.

7.4.2 Bod y BDC yn adolygu ei drefniadau cyhoeddusrwydd cyfredol yn yr ardal leol i sicrhau bod y wybodaeth sydd ar gael yn barhaus yn darparu gwybodaeth am y gwahanol agweddau o gam-drin domestig (h.y. nid dim ond cam-drin corfforol) a lle mae modd cael cefnogaeth.

7.4.3 Bod y BDC i sicrhau, fel rhan o'r cyhoeddusrwydd a ddefnyddiant yn lleol, bod negeseuon clir ar gyfer teulu a ffrindiau'r rhai sy'n profi trais domestig ynghylch sut gallant gefnogi eu hanwyliaid.

## 7.5 LLYWODRAETH CYMRU

7.5.1 Bod Llywodraeth Cymru yn adolygu cynnwys yr hyfforddiant 'Gofyn a Gweithredu' i sicrhau ei fod yn cyfleu'n ddigonol pa mor gyffredin yw cam-drin domestig a'i heriau yng nghyswllt pobl hŷn, ac yng nghyswllt merched hŷn fel y rhai sy'n cyflawni'r gamdriniaeth.

## Adran Wyth - Casgliadau

8.1 Mae'r achos hwn yn dangos yn glir bod angen rhannu'r dangosyddion cam-drin domestig bob amser a chael eu hystyried yn llawn ar draws asiantaethau.

8.2 Er mai dim ond un adroddiad a dderbyniwyd, roedd yr adroddiad yn ymwneud â digwyddiad difrifol nad oedd yn cael ei gydnabod ar gyfer y difrifoldeb tanategol yr oedd yn ei ddatgelu. Mae’n debygol bod nifer o ffactorau wedi effeithio ar y meddylfryd - oedran y rhai oedd ynghlwm, eu hiechyd ar y pryd a'r amgylchiadau emosiynol lle y cafodd ei godi. Er hynny, ni chafodd y gwir broblemau yn yr achos eu hadnabod.

8.3 Hefyd, mae'n glir nad oedd oedran y cyflawnwr a'r dioddefwr wedi effeithio ar eu meddwl eu hunain; ni wnaeth cyflawnwr y lladdiad hwn ddweud wrth unrhyw un am y gamdriniaeth yr oedd wedi'i dioddef am flynyddoedd, ac fe wrthododd gefnogaeth pan gafodd gynnig cefnogaeth ar ôl gorddos ei wraig. Hefyd, ymwrthododd y wraig ag unrhyw awgrym ei bod yn mynd yn wael ac ymddengys ei bod yn digio ag unrhyw un oedd yn ceisio ei helpu. Efallai bod hon yn broblem i'r genhedlaeth honno y mae angen i bob sefydliad barhau i'w hystyried pan fo pryderon yn cael eu codi a lle mae cynigion i ddarparu cefnogaeth yn cael eu gwrthod.

# Atodiad Un - Manylion Datblygiad Proffesiynol Parhaus y Cadeirydd ac Awdur yr Adroddiad

2.1 Mae Christine wedi mynychu:

- Digwyddiad Gwybodaeth a Rhyngweithio AAFDA (Tachwedd 2019)
- Gweminar gan Dr Jane Monckton-Smith ar Linell Amser Lladdiad (Mehefin 2020)
- *Ensuring the Family Remains Integral to Your Reviews – Review Consulting* (Mehefin 2020)
- *Domestic Abuse: Mental health, Trauma and Selfcare, Standing Together* (Gorffennaf 2020)
- *Hidden Homicides*, Dr Jane Monckton-Smith, AAFDA (Tachwedd 2020)
- *Suicide and domestic abuse, Buckinghamshire DHR Learning Event* (Rhagfyr 2020)
- Wedi mynychu *Hearing Hidden Voices: Older victims of domestic abuse*, Prifysgol Edinburgh (Chwefror 2021)
- *Domestic Abuse Related Suicide and Best Practice in Suicide DHRs*, AAFDA (Ebrill 2021)
- *Post-separation Abuse*, Lundy Bancroft, SUTDA (Ebrill 2021)
- *Ensuring family and friends are integral to DHRs*, AAFDA (Mai 2021)
- *Learning the Lessons: Non-Homicide Domestic Abuse Related Deaths, Standing Together* (Mehefin 2021)
- *Suspicious Deaths and Stalking*, Yr Athro Jane Monckton-Smith, *Alice Ruggles Trust Lecture* (Ebrill 2021)
- *Reviewing domestic abuse related suicides and unexplained deaths*, AAFDA (Mai 2021)
- *Young people and stalking: Reflections and Focus*, Dr Rachel Wheatley, *Alice Ruggles Trust Lecture* (Mai 2021)

2.2 Mae Christine wedi cwblhau Hyfforddiant Llinell Amser Lladdiad Ar-lein (Pum Modiwl) dan arweiniad Yr Athro Jane Monckton-Smith o Brifysgol Caerloyw.

2.3 Mae Gary a Christine wedi:

- Mynychu hyfforddiant ar ddiweddariad y canllaw statudol (2016)
- Cwblhau hyfforddiant a gymeradwywyd gan y Swyddfa Gartref (Ebrill/Mai 2017)
- Mynychu Cynhadledd ar Orfodi a Rheoli (Bryste, Mehefin 2018)
- Mynychu Digwyddiad Dysgu AAFDA (Bradford, Medi 2018)
- Mynychu Cynhadledd Flynyddol AAFDA (Mawrth 2017, 2018 a 2019)
- Mynychu *Mental Health and Domestic Homicides: A Qualitative Analysis, Standing Together* (Mai 2021)